

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 10 Mehefin 2021

Nia Jones

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn gael ei ddarlledu'n fyw ar safle Facebook y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ai peidio.

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor o bell trwy fideo-gynhedledda, ar Dydd Iau, 17 Mehefin 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Materion Personol
4. Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19
5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 14.05.2021 (Tudalennau 3 - 8)
6. Ystyried diweddariad ar y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd ar 10 Rhagfyr 2020 yn unol â Rheol 10.1 o Reolau a Gweithdrefnau'r Cyngor (Tudalennau 9 - 16)

Cynigiwyd gan: Cyng. Mark Strong

Eiliwyd gan: Cyng. Ellen ap Gwynn

Noda'r Cyngor:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Llywodraeth Cymru i:

1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ anedd yn dŷ haf neu uned gwyliau
2. i addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal
3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB.

7. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffaeth ar Bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2021/22 (Tudalennau 17 - 28)**
8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio ar Gynllun Gweithredu Carbwn Sero-Net (Tudalennau 29 - 72)**
9. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (Tudalennau 73 - 98)**
10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 99 - 102)**
11. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar recriwtio dau Aelod Annibynnol ac apwyntio Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 103 - 106)**
12. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaetholr: Polisi, Perfformaid a Diogelu'r Cyhoedd parthed Cyfamod y Lluoedd Arfog (Tudalennau 107 - 112)**
13. **Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonnau 20/21 (Tudalennau 113 - 156)**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol CYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Gwener, 14 Mai 2021**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Steve Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Hag Harris, Catherine Hughes, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Catrin Miles, Ray Quant MBE, Rowland Rees-Evans, John Roberts, Mark Strong, Lynford Thomas, Wyn Thomas, Matthew Woolfall-Jones, Alun Williams ac Ivor Williams.

(2.00pm – 3.10pm)

Y weithdrefn

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Gareth Davies, bawb i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd y Gwesteion Dinesig, sef yr Arglwydd Raglaw, Miss Sara Edwards; Mr Jonathan Gravell, Uchel Siryf Dyfed; Mr Ben Lake, Aelod Seneddol; Miss Elin Jones, Aelod o'r Senedd; Hazel Lloyd Lubran, Prif Weithredwr CAVO; y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies, Cadeirydd Cyngor Sir Gâr; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran, Prifysgol Aberystwyth; y Parchedig Andrew Loat a'r Parchedig Richard Lewis.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu.

1 Ymddiheuriadau a materion personol

Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lloyd Edwards, Maldwyn Lewis a Dan Potter am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd Claire Parmenter, Prif Gwnstabl Dros Dro, Heddlu Dyfed-Powys; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth; yr Athro Medwin Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Dewi Sant; y Cynghorydd Gwynfor Thomas, Cadeirydd Cyngor Sir Powys; Chris Davies, Prif Swyddog Tân; Mr Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; a Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Materion personol

- a. Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Davies, Cadeirydd y Cyngor, Elin Jones ar gael ei hailethol i'r Senedd ac i'w rôl fel Llywydd;
- b. Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Davies, Cadeirydd y Cyngor, Dafydd Llywelyn ar gael ei ailethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys;

Tudalen 4

- c. Llongyfarchodd y Cynghorydd Ray Quant, ar ran y Grŵp Annibynnol, Elin Jones ar gael ei haillethol i'r Senedd ac i'w rôl fel Llywydd, Dafydd Llywelyn ar gael ei ailethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys; Cynrychiolwyr rhanbarthol; a Mark Drakeford sy'n dychwelyd fel Prif Weinidog;
- d. Llongyfarchodd y Cynghorydd Ceredig Davies, ar ran Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Elin Jones ar gael ei haillethol i'r Senedd ac i'w rôl fel Llywydd, Dafydd Llywelyn ar gael ei ail-benodi'n Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys; a thalodd deyrnged i'r holl Gynrychiolwyr Rhanbarthol.

2 **Adolygiad o'r Flwyddyn yn y Swydd gan Gadeirydd y Cyngor**

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anarferol a heriol dros ben. Nododd fod Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cydweithio'n eithriadol o dda drwy gydol y pandemig i sicrhau diogelwch ein trigolion, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y nifer gymharol isel o bobl sydd wedi cael eu heffeithio yma yng Ngheredigion. Fodd bynnag, ni wnaeth y Sir osgoi'r pandemig hwn yn llwyr, a thalodd deyrnged i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid o ganlyniad i COVID-19.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad, gyda llawer yn gweithio oriau hir ac yn mynd y tu hwnt i'r gofyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n ddidrafferth ac er mwyn sicrhau diogelwch trigolion Ceredigion.

Nododd, oherwydd yr amgylchiadau, ei bod yn ddigon posibl y byddai'n cael ei gofio fel y Cadeirydd na eisteddodd erioed yn ei gadair yn Siambr y Cyngor; na wisgodd ei gadwyn ond ar ddau achlysur, ac na chafodd gyfle erioed i gynrychioli'r Cyngor mewn unrhyw ddigwyddiadau ffurfiol. Nododd ei siom nad oedd wedi gallu cynrychioli'r Cyngor yn eisteddfod Tregaron yn 2020.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Davies ei bod wedi bod yn anrhydedd cael bod yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, a diolchodd i'r holl Aelodau am eu cydweithrediad. Diolchodd i'r Parchedig Andrew Loat a Swyddogion y Cyngor, a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd, yr Is-gadeirydd a'u Consortiau am y flwyddyn i ddod.

3 **Gwerthfawrogiad y Cyngor am wasanaeth y Cadeirydd yn ystod Blwyddyn Fwrdeistrefol 2020/21**

Talodd y Cynghorydd Matthew Woolfall-Jones deyrnged i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Gareth Davies, am ddarparu gwasanaeth rhagorol yn ystod cyfnod arbennig o heriol, gan sicrhau tegwch a chyfle i bawb siarad, gan osod sylfeini cadarn ar gyfer y Cadeirydd nesaf.

4 **Ethol Cadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ceredig Davies ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Rowland Rees-Evans a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Paul Hinge yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol ddilynol, sef 2021/22.

Tudalen 5

- 5 **Datganiad o Dderbyn y Swydd gan y Cadeirydd newydd a etholwyd**
Cyflwynwyd y Gadwyn i'r Cadeirydd newydd a gwnaeth ei ddatganiad o dderbyn y swydd. Cyflwynwyd Arwyddnod y Swydd i Gonsort y Cadeirydd, Mrs. Angharad Lewis.
- 6 **Anerchiad gan Gadeirydd y Cyngor**
Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i'r Cynghorydd Ceredig Davies a'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans am eu cefnogaeth a'u geiriau caredig, a diolchodd i'w gyd-gynghorwyr am ymddiried ynddo i ymgymryd â rôl y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol ddilynol. Diolchodd i'r Cynghorydd Gareth Davies am ei waith diflino fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn anodd ddiwethaf, gan nodi ei bod wedi bod yn anrhydedd cael bod yn Is-gadeirydd iddo.
- Diolchodd i Gynghorwyr Cymuned Tiryrynach am eu hymroddiad, eu cyngor, eu gwybodaeth a'u hysbryd cymunedol, a oedd wedi gwneud ei rôl fel Cynghorydd Sir yn llawer haws ac yn werth chweil. Diolchodd i'w ferch Angharad am fod yn Gonsort iddo, ac i'r Parchedig Richard Lewis am gytuno i fod yn Gaplan iddo.
- Nododd y Cadeirydd hefyd waith y rhai sydd wedi ac sy'n parhau i gefnogi personél y lluoedd arfog, eu teuluoedd a chyn-filwyr, a'r cymorth a ddarparwyd ganddynt i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cyfeiriwyd yn benodol hefyd at yr elusen Woody's Lodge sy'n darparu canolfan seibiant i'r rhai sy'n dioddef PTSD o ganlyniad i'w gwasanaeth yn Fferm Penlan, Penrhiw-pâl.
- 7 **Ethol Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ray Quant MBE ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Keith Evans a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Ifan Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol, sef 2021/22.
- 8 **Datganiad o Dderbyn y Swydd gan yr Is-gadeirydd newydd a etholwyd**
Cyflwynwyd Arwyddnod y Swydd i'r Is-gadeirydd newydd a gwnaeth ei ddatganiad o dderbyn y swydd. Cyflwynwyd Arwyddnod y Swydd i Gonsort yr Is-gadeirydd, Mrs. Iona Davies.
- 9 **Caplan y Cadeirydd**
PENDERFYNWYD nodi penodiad y Parchedig Richard Lewis yn Gaplan y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol ddilynol, sef 2021/22.
- 10 **Anerchiad gan Arweinydd y Cyngor**
Ailadroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y llongyfarchiadau i Elin Jones, Aelod o'r Senedd, a diolchodd hefyd iddi hi a Ben Lake, Aelod Seneddol am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod heriol diweddar.

Tudalen 6

Llongyfarchodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn y Cynghorwyr Paul Hinge ac Ifan Davies ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd yn y drefn honno. Talodd yr Arweinydd deyrnged hefyd i'r Cyngorydd Gareth Davies am ei wasanaeth yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd.

Anerchodd yr Arweinydd y Cyngor ar y prif faterion a oedd wedi effeithio ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol gan fyfyrion ar flwyddyn yn ystod pandemig COVID-19. Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Aur o dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr, Eifion Evans, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â COVID-19; cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Addysg a llawer o rai eraill.

Diolchodd i dîm Technoleg Gwybodaeth y Cyngor am eu cefnogaeth i sicrhau bod staff yn gallu gweithio gartref a sicrhau y gellid cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol. Estynnwyd cydnabyddiaeth arbennig i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, ein cartrefi gofal, cartrefi gofal preifat a thimau gofal domestig a gydnabyddodd risg COVID-19 yn gynnar ac a sefydlodd canllawiau diogelwch i ddiogelu ein preswylwyr mwyaf bregus. Diolchodd i'r Gwasanaeth Ysgolion am ddarparu canllawiau clir ac am uwch-sgilio staff ysgolion i addysgu ar-lein, a'r timau Ymyrraeth Gynnar ac Atal a sicrhodd bod bocsys bwyd a oedd yn cynnwys cynnyrch gan gyflenwyr lleol yn cael eu darparu i unigolion a oedd yn hunanynysu. Nododd yr Arweinydd fod y Gwasanaeth Casglu Gwastraff wedi parhau drwy gydol y cyfnod, a'i fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr, a diolchodd i'r Gwasanaethau Cyllid a weithiodd yn ddifflino gan ddsbarthu £50 miliwn mewn grantiau i fusnesau lleol.

Nododd yr Arweinydd mai un o uchafbwyntiau'r cyfnod oedd y gydnabyddiaeth a roddwyd i Barry Rees a Carwen Evans am sefydlu'r rhaglen tracio ac olrhain gyntaf yng Nghymru, y cydnabuwyd Barry Rees gydag MBE amdani. Estynnwyd gwerthfawrogiad i holl staff y Cyngor ar draws ystod o wasanaethau, dan arweiniad Eifion Evans sydd wedi gweithio'n ddifflino i gefnogi ymdrechion y Sir i amddiffyn trigolion Ceredigion rhag effeithiau COVID-19.

Nododd yr Arweinydd, er gwaethaf y pandemig, fod gwaith o ddydd i ddydd y Cyngor wedi parhau, gan nodi ei fod wedi cael blwyddyn arbennig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, CAVO a Phrifysgol Aberystwyth. Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Economaidd ar gyfer 2021 - 2035; cytunodd i brynu tir ac asedau er mwyn adeiladu ysgol newydd yn Nyffryn Aeron; cymeradwyodd Strategaeth Trechu Tlodi; yn ogystal â rhaglen ar gyfer ymdrin â chlefyd coed ynn. Llofnodwyd Penawdau Telerau partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gydag addewid o fuddsoddiad o £110 miliwn yn y rhanbarth dros 10 mlynedd.

I gloi, diolchodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn i Eifion Evans a'i staff am eu teyrngarwch a'u gwaith cydwybodol, diolchodd i'w chydweithwyr yn y Cabinet am eu gwaith a'u cefnogaeth, ac i Aelodau a phartneriaid y Cyngor

Tudalen 7

am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad.

- 11 **Aelodaeth Pwyllgorau 2021/22**
PENDERFYNWYD cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor fel y'i
cyflwynwyd yn y cyfarfod.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar xx/xx/xxxx

CADEIRYDD:_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod: 17 Mehefin 2021****Teitl: Y Rhybudd o Gynnig ynglŷn â thai haf ac ail gartrefi****Pwrpas yr adroddiad: Rhoi crynodeb i'r Cyngor o drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith****I'w ystyried wrth drafod y Rhybudd o Gynnig****Portffolio Cabinet ac Ddim yn berthnasol
Aelod Cabinet:****1. Cyfarfod y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2020:**

Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020, ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- 1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau.*
- 2. addasu'r fframwaith polisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niiferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.*
- 3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB.*

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Mark Strong

Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn

Ni wnaed yr un penderfyniad ynglŷn â'r Cynnig ond cytunodd y Cyngor ynghylch y canlynol:

Mynegodd sawl Aelod eu bod yn cefnogi egwyddor y Cynnig; fodd bynnag, gwnaed yr argymhelliad i gasglu rhagor o dystiolaeth o ran data a natur perchnogaeth tai haf a thai gwyliau yng Ngheredigion. Argymhellwyd y dylid ail-gyflwyno'r Cynnig yn y flwyddyn newydd ar ôl i'r Swyddogion lunio adroddiad cefndirol ac i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried.

Cytunodd y cynigydd a'r eilydd â'r argymhelliad a PHENDERFYNWYD tynnu'r cynnig a dod ag ef yn ôl drachefn ym mis Ionawr 2021.

2. Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021

Tudalen 10

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus eitem am ail gartrefi ar 3 Mawrth (gweler isod ddolen at yr adroddiad).

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â'r eitem hon fel a ganlyn:

Yn ystod y drafodaeth, roedd y canlynol ymhlith pwyntiau a wnaed:

- I. Mae llawer o dai 'Prynu i osod' yn eiddo i bobl leol.*
- II. Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth ar waith i ddweud fod landlordiaid ond yn gallu rhentu eu heiddo i bobl leol. Roedd asiantaethau gosod, yn ôl arolwg mewnol a gynhaliwyd gan y tîm polisi, wedi nodi ei bod yn well ganddynt osod tai i bobl leol yn hytrach na phobl o bell, oni bai eu bod yn dychwelyd i fyw yn yr ardal. Nododd y rhan fwyaf o werthwyr tai fod y rhan fwyaf o dai yn cael eu prynu gan bobl fel gwelliant ar eu preswylfa bresennol neu gan bobl sy'n symud i'r ardal.*
- III. Byddai angen ystyried Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.*

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gymeradwyo'r Cynnig a gynigiwyd i'r Cyngor:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- 1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau*
- 2. addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd y tai haf mewn unrhyw ardal*
- 3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB*

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd y Pwyllgor i argymhell i'r Cyngor bod cynnydd o 100% yn cael ei osod ar dreth gyngor tai gwyliau yn y sir.

3. Pwyllgor Iaith, 17 Mai 2021

Ystyriodd y Pwyllgor Iaith yr eitem am ail gartrefi ar 17 Mai (gweler isod y ddolen at yr adroddiad).

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr a oedd wedi ei ysgrifennu'n dda. CYTUNWYD i gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'r Cyngor.

Cyngor y Swyddogion Statudol:

Nid yw argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'r Cyngor sef *"i gymeradwyo i'r Cyngor bod cynnydd o 100% yn cael ei osod ar dreth gyngor tai gwyliau yn y sir"* yn rhan o'r Rhybudd o Gynnig.

Os yw'r Cyngor yn bwriadu ystyried yr argymhelliad, ni ellir ei gynnwys yn y Cynnig. Mae hwn yn benderfyniad y dylai'r Cyngor ei wneud ar wahân ac felly dylid ystyried yr argymhelliad ar wahân gan ddilyn y broses briodol.

Tudalen 11

Ni ymgynghorwyd â'r Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 ynglŷn â'r argymhelliad hwn. Mae Dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 yn cynnwys y canlynol:

“11.4.1 Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn rhai cyfreithlon a'u bod yn ddarbodus yn ariannol. Ar ôl ymgynghori gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Cabinet ynghylch swyddogaeth y Cabinet, ac archwilydd allanol y Cyngor os bydd ef neu hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu ddull o weithredu yn peri gwariant anghyfreithlon, neu maent yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

11.4.2 Gweinyddu materion ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor

11.4.3 Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn benodol felly drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol

11.4.4 Rhoi cyngor. Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion y mae a wnelont â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r Cynghorwyr i gyd, a bydd yn cefnogi ac yn cynghori'r Cynghorwyr a'r swyddogion yn eu gwahanol rolau.

11.4.5 Rhoi gwybodaeth ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, i'r cyhoedd ac i'r gymuned fel y bo'n briodol.” (Erthygl 11 o'r Cyfansoddiad)

Mae gan y Cyngor brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau agored, tryloyw a chytbwys sy'n ddiuedd, sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, sy'n fforddiadwy, sydd o fewn y gyllideb ac sy'n cael eu cyflawni'n ddiwyd.

Dylai asesiadau bob amser gadw at y gofynion a'r goblygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o fewn Aseiad Effaith Integredig, gan gynnwys y rhesymau dros benderfyniadau a'r goblygiadau ariannol / cyfreithiol.

Bydd y prosesau mewnol yn cynnwys paratoi Achos Busnes, ac asesiad Diwydrwydd Dyladwy. Gall adrodd mewnol gynnwys Gweithdai i Aelodau. Yn ogystal, efallai y bydd angen ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Hefyd, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol a'r Cabinet yn ystyried y mater cyn dod i benderfyniad gan wneud argymhellion priodol i'r Cyngor.

Mae gan yr argymhelliad oblygiadau o ran polisi, sy'n effeithio ar sawl gwasanaeth. Bydd y fframwaith polisi a fabwysiedir gan y Cyngor yn seiliedig ar yr hyn a gynigir gan y Cabinet.

Dylai materion sy'n mynd gerbron y Cyngor gynnwys yr holl gyngor angenrheidiol fel y gall yr Aelodau wneud penderfyniad. Os oes angen darparu rhagor o gyngor cyfreithiol neu gyngor ariannol manwl, dylid gohirio'r mater ac ni ellir gwneud

penderfyniad hyd nes y bydd y wybodaeth honno ar gael fel y gellir gwneud penderfyniadau effeithiol.

“12.2 EGWYDDORION GWNEUD PENDERFYNIADAU

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:

12.2.1 Cymesuredd (h.y. rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni);

12.2.2 ymgynghori priodol a chyngor proffesiynol oddi wrth y swyddogion ;

12.2.3 parchu cydraddoldeb a hawliau dynol;

12.2.4 rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;

12.2.5 eglurder ynghylch yr amcanion a'r canlyniadau a ddymunir.

12.2.6 Cadw cofnod priodol o'r rhesymau dros y penderfyniad, unrhyw fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu ynghyd ag unrhyw ollyngiadau i siarad a roddir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.

12.2.7 Cymryd pob cam rhesymol i fodloni'r egwyddorion a'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth gyflawni ei swyddogaethau.” (Erthygl 12 o'r Cyfansoddiad)

Casgliad

Dylid gohirio ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'r Cyngor sef *“i gymeradwyo i'r Cyngor bod cynnydd o 100% yn cael ei osod ar dreth gyngor tai gwyliau yn y sir”* hyd nes y rhoddir proses briodol ar waith i ystyried yr argymhelliad, fel y gall yr Aelodau dderbyn yr wybodaeth lawn am yr holl ffeithiau a goblygiadau perthnasol, gan ddilyn y broses briodol.

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Ddim yn berthnasol – Adroddiad yw hwn sy'n crynhoi'r trafodaethau a gafwyd o ran y Rhybudd o Gynnig.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:

Hirdymor: Ddim yn berthnasol

Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol

Atal: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad:

Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

1. ystyried y Rhybudd o Gynnig;
2. nodi argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith; ac
3. os yw'r Cyngor yn cytuno ei fod yn dymuno ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynglŷn â phreimiwm Treth y Cyngor, cytuno ar broses briodol i'w rhoi ar waith i ystyried yr argymhelliad.

Rheswm dros y penderfyniad:

- Er mwyn caniatáu i'r Cyngor ystyried y Rhybudd o Gynnig.

Tudalen 13

- Er mwyn cadw at egwyddorion a gweithdrefnau'r Cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau

Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus - 3 Mawrth 2021
Fframwaith Polisi:	Rhybudd o Gynnig – yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau cyfreithiol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau o ran staff:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Ddim yn berthnasol
Risgiau:	Ddim yn berthnasol
Pwerau Statudol:	Ddim yn berthnasol
Papurau Cefndir:	Adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, 3 Mawrth 2021 Adroddiad i'r Pwyllgor Iaith, 17 Mai 2021 (eitem 6)
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none">• Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151)• Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Llywodraethu a Chyfreithiol (Swyddog Monitro)• Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)
Swyddog Adrodd:	Ddim yn berthnasol
Dyddiad:	28 Mai 2021

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I:	Y Cyngor
DYDDIAD:	17 Mehefin 2021
LLEOLIAD:	ZOOM
PENAWD:	Adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar ddata ail gartrefi a thai gosod gwyliau yng Ngheredigion
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I gyflwyno adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus y data ar ail gartrefi a thai gosod gwyliau Ceredigion. Roedd hyn er mwyn mynd ar drywydd y cynnig i'r Cyngor ac ymchwilio ymhellach i nifer, lledaeniad ac effaith ail gartrefi ar Sir Ceredigion.

Cynigiodd Mark Strong y Rhybudd o Gynnig canlynol yng nghyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020, yn unol a Rheol 3.10.1 o Reolau a Gweithdrefnau'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- 1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau.*
- 2. addasu'r fframwaith polisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.*
- 3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB.*

Yng nghyfarfod y Cyngor nododd sawl Aelod eu bod yn cefnogi'r Cynnig mewn egwyddor; fodd bynnag, argymhellwyd bod angen mwy o dystiolaeth mewn perthynas â data a natur a pherchnogaeth ail gartrefi a chartrefi gwyliau yng Ngheredigion. Argymhellwyd ail-gyflwyno'r Cynnig yn y flwyddyn newydd, ar ôl cynhyrchu adroddiad cefndir gan Swyddogion ac ystyriaeth gan Graffu.

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'u gynnwys yn Atodiad A.

Roedd y pwyntiau a nodwyd yn ystod y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

- I. Mae llawer o dai 'Prynu i osod' yn eiddo i bobl leol.
- II. Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth ar waith na chaiff landlordiaid ond rhentu eu heiddo i bobl leol. Fodd bynnag, nododd asiantaethau gosod, yn ôl arolwg ansoddol mewnol a gynhaliwyd yng Ngheredigion, ei bod yn well ganddynt osod tai i bobl leol yn hytrach na'r rhai o bell i ffwrdd oni bai eu bod yn dychwelyd i fyw yn yr ardal. Nododd y rhan fwyaf o arwerthwyr tai fod y rhan fwyaf o dai yn cael eu prynu gan bobl i wella ar eu preswylfa bresennol neu gan bobl sy'n adleoli i'r ardal, er eu bod wedi gweld cynnydd mewn diddordeb mewn ail gartrefi.

Tudalen 15

- III. IV. Dyfodol Llywodraeth Cymru. Byddai angen ystyried Cynllun Cenedlaethol 2040 wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd y Pwyllgor i argymhell i'r Cyngor y codir cynnydd o 100% ar dreth gyngor cartrefi gwyliau yn y sir.

Cynghorydd Marc Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Mehefin 2021
Teitl:	Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig ar gyfer 2021/22
Pwrpas yr Adroddiad:	Ystyried Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig arfaethedig ar gyfer 2021/22.
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Lloyd Cyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd

1. CYFLWYNIAD

O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygiad) 2008 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol neilltuo darpariaeth refeniw 'ddarbodus' ar gyfer ad-dalu dyled (Isafswm Darpariaeth Refeniw) lle y maent wedi defnyddio trefniadau benthyca neu gredyd i ariannu gwariant cyfalaf. Caiff Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer trefniant Benthyca a Gefnogwyd y Cyngor ei gyfrifo gan ddefnyddio'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn sylfaen iddo. Mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf yw'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2015 a arweiniodd at y Cyngor yn diwygio Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2015/16. Mae elfen fwyaf yr Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ymwneud â dyled hanesyddol/a gefnogwyd y cytunodd y Cyngor ddarparu ar ei chyfer ar sail llinell syth o 2% dros oes amcangyfrifedig yr asedau, a oedd yn 50 mlynedd. Mae'r tâl Isafswm Darpariaeth Refeniw wedi ei gynnwys yng nghyllideb Cyllid a Chaffael ac mae argymhelliad yr adroddiad hwn yn llwyddo i gael arbediad refeniw sylweddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol hon.

2. Adolygu Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Dyled Hanesyddol/a Gefnogwyd

Cynhaliodd swyddogion adolygiad arall yn ddiweddar i sicrhau bod y Polisi yn parhau i fod yn ddarbodus. Mae'r materion a ystyriwyd fel a ganlyn:

- i. Gall y Cyngor benderfynu ei sail ei hun ar gyfer codi Isafswm Darpariaeth Refeniw. Mae canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllawiau-ar-y-ddarpariaeth-isafswm-refeniw.pdf>) fodd bynnag, yn cynnwys pedwar opsiwn ar gyfer cyfrifo'r tâl. Un o'r opsiynau yw'r Dull Oes Ased. Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r tâl gael ei broffilio ar sail dull rhandaliadau cyfartal/linell syth neu gallai'r tâl gael ei broffilio gan ddefnyddio Dull Blwydd-daliad.

Tudalen 18

- ii. Mae Sir y Fflint, Merthyr a Phowys wedi mabwysiadu'r Dull Blwydd-daliad ynghyd â Chynghorau eraill yn Yr Alban a Lloegr.
- iii. Mae canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyllid cyfalaf mewn Llywodraeth Leol (2019) yn datgan: *'Mae'r Dull Blwydd-daliad yn codi tâl tecach na rhandaliadau cyfartal gan ei fod yn cymryd gwerth amser yr arian i ystyriaeth, trwy ba un y mae talu £100 mewn 10 mlynedd yn llai o faich na thalu £100 nawr. Mae rhestr daliadau'r Dull Blwydd-daliad felly'n arwain at dâl cyson dros oes yr ased, gan gymryd gwerth gwirioneddol y symiau i ystyriaeth pan maent yn ddyledus. Byddai'r Dull Blwydd-daliad yna'n sail ddarbodus i ddarparu ar gyfer asedau a roddai lif cyson o fanteision dros eu hoes ddefnyddiol.'* Mae mabwysiadu'r Dull Blwydd-daliad yn sail decach i bob cenhedlaeth ac felly mae hwn yn ddull darbodus i'r Cyngor ei fabwysiadu.
- iv. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan y dylai Cynghorau, os ydynt yn defnyddio'r Dull Blwydd-daliad, ddefnyddio cyfradd llog briodol. Nid yw'n nodi pa gyfradd llog i'w defnyddio. Mae'r Ddyled Hanesyddol/a Gefnogwyd wedi ariannu'r asedau niferus a gyfunwyd y cymeradwyodd y Cyngor oes gyfartalog o 50 mlynedd ar eu cyfer rhyw 6 blynedd yn ôl. Nid yw'n bosibl dyrannu'r benthyciadau yn erbyn asedau unigol. Felly, gan gynnal y dull cyfuno, byddai defnyddio'r gyfradd fenthycy gyfartalog o fenthyciadau heu eu talu, o 31 Mawrth 2021, sef 4.20%, yn Gyfradd Flwydd-daliad briodol ar gyfer y ddyled hon.
- v. Mae'r tabl a'r siart isod yn cymharu taliadau'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer y dull Llinell Syth a'r Dull Blwydd-daliad. Mae'r dull Llinell Syth yn codi tâl dros gyfnod o 50 mlynedd ac mae'n cynnwys yr Isafswm Darpariaeth Refeniw y gellir codi tâl amdano er 2015/16. Mae'r Dull Blwydd-daliad hefyd yn cynnwys Isafswm Darpariaeth Refeniw y gellir codi tâl amdano er 2015/16 ond codir tâl amdano dros gyfnod o 44 mlynedd. Effaith fach yn unig ar y cyfrifo cyfan a gaiff mabwysiadu nifer gwahanol o flynyddoedd ar gyfer y dulliau. Yr un yw cyfanswm y tâl ar gyfer y ddau ddull. Mae'r hyn a godir gan ddefnyddio'r Dull Blwydd-daliad yn cynyddu'n flynyddol ac mae'n is na'r Dull Llinell Syth hyd at 2045/46, ac yna mae'n uwch mewn flynyddoedd olynol.
- vi. Cyfrifo Gwerth Presennol Net. Mae'r gwahaniaeth arian ym mhob blwyddyn, fel y cyfeirir ato yn y pwynt bwled uchod, yn amodol ar gyfrifo Gwerth Presennol Net sy'n cymryd gwerth yr arian mewn amser i ystyriaeth - dangosir hyn hefyd yn y tabl a'r siart isod. Mae'r cyfrifiad yn dangos bod newid yn y Dull Blwydd-daliad bron £10m yn rhatach (gan gymryd gwerth yr arian mewn amser i ystyriaeth) sy'n ategu na fydd y dull hwn yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r cyfrifiad Gwerth Presennol Net yn seiliedig ar gyfradd o 3.5%, a argymhellir gan Drysorlys ei Mawrhydi a gellir ei ystyried fel y cyfradd tybiedig ar gyfer chwyddiant.
- vii. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn mabwysiadu'r sail Llinell Syth ar gyfer cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw y cynllun Mentrau Cyllid Preifat. Os caiff newidiadau eu gwneud i'r modd y mae Isafswm Darpariaeth Refeniw yn cael ei gyfrifo ar gyfer y Ddyled Hanesyddol/a Gefnogwyd byddai'n briodol mabwysiadu'r un dull ar gyfer y grŵp hwn o asedau. Mae'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer y cynllun Mentrau Cyllid Preifat yn cael ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ond caiff y tâl a godir ei wrthdroi wedi hynny fel na chaiff unrhyw


Tudalen 19

newid effaith ariannol ar y Cyngor. Mae'r cofnodion yn ofynnol er mwyn sicrhau bod Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn parhau i gydymffurfio.

- viii. Mae'r tabl isod yn dangos y tâl Isafswm Darpariaeth Refeniw ar y Dull Llinell Syth ac ar y Dull Blwydd-daliad o ran arian parod a gostyngiad effaith amser. Mae ystod y taliad Isafswm Darpariaeth Refeniw, pan fydd gostyngiad effaith amser, yn llai wrth ddefnyddio'r Dull Blwydd-daliad, yn £813k i £506K (colofn e) o gymharu â £2,221k i £1,087K wrth ddefnyddio'r dull Llinell Syth (colofn d) sy'n ategu bod y cynnig yn un tecach i bob cenhedlaeth. Mae'r graff isod yn dangos y Dull Llinell Syth a'r Dull Blwydd-daliad ar sail arian parod.

Tudalen 20

Benthyciadau Hanesyddol / a gefnogwyd						
	O ran arian parod			Gostyngiad effaith amser		
	a	b	c=b-a	d	e	f=e-d
Blwyddyn	MRP Llinell Syth	MRP Blwydd-daliad Annuity	Gwahaniaeth	MRP Llinell Syth	MRP Blwydd-daliad Annuity	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2021/22	2,221	813	-1,408	2,221	813	-1,408
2022/23	2,221	847	-1,374	2,146	819	-1,328
2023/24	2,221	883	-1,339	2,074	824	-1,250
2024/25	2,221	920	-1,301	2,004	830	-1,174
2025/26	2,221	959	-1,263	1,936	835	-1,100
2026/27	2,221	999	-1,223	1,870	841	-1,029
2027/28	2,221	1,041	-1,181	1,807	847	-960
2028/29	2,221	1,085	-1,137	1,746	852	-894
2029/30	2,221	1,130	-1,091	1,687	858	-829
2030/31	2,221	1,178	-1,044	1,630	864	-766
2031/32	2,221	1,227	-994	1,575	870	-705
2032/33	2,221	1,279	-943	1,522	876	-646
2033/34	2,221	1,332	-889	1,470	882	-588
2034/35	2,221	1,388	-833	1,420	888	-533
2035/36	2,221	1,446	-775	1,372	894	-479
2036/37	2,221	1,507	-714	1,326	900	-426
2037/38	2,221	1,571	-651	1,281	906	-375
2038/39	2,221	1,636	-585	1,238	912	-326
2039/40	2,221	1,705	-516	1,196	918	-278
2040/41	2,221	1,777	-445	1,155	924	-231
2041/42	2,221	1,851	-370	1,116	930	-186
2042/43	2,221	1,929	-292	1,079	937	-142
2043/44	2,221	2,010	-211	1,042	943	-99
2044/45	2,221	2,095	-127	1,007	949	-57
2045/46	2,221	2,183	-39	973	956	-17
2046/47	2,221	2,274	53	940	962	22
2047/48	2,221	2,370	148	908	969	61
2048/49	2,221	2,469	248	877	975	98
2049/50	2,221	2,573	352	848	982	134
2050/51	2,221	2,681	460	819	989	170
2051/52	2,221	2,794	572	791	995	204
2052/53	2,221	2,911	690	765	1,002	237
2053/54	2,221	3,033	812	739	1,009	270
2054/55	2,221	3,161	939	714	1,016	302
2055/56	2,221	3,294	1,072	690	1,023	333
2056/57	2,221	3,432	1,210	666	1,029	363
2057/58	2,221	3,576	1,355	644	1,036	393
2058/59	2,221	3,726	1,505	622	1,043	421
2059/60	2,221	3,883	1,661	601	1,051	449
2060/61	2,221	4,046	1,824	581	1,058	477
2061/62	2,221	4,216	1,994	561	1,065	504
2062/63	2,221	4,393	2,171	542	1,072	530
2063/64	2,221	4,577	2,356	524	1,079	555
2064/65	2,221	4,770	2,548	506	1,087	580
2065/66	350		-350	77		-77
2066/67	291		-291	62		-62
2067/68	233		-233	48		-48
2068/69	175		-175	35		-35
2069/70	117		-117	23		-23
2070/71	60		-60	11		-11
Cyfanswn	98,970	98,970	0	51,487	41,509	-9,978



3. Adolygiad o'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Benthyciadau nas Cefnogwyd


Mae Polisi cyfredol y Cyngor eisoes yn nodi bod y Dull Blwydd-daliad Oes Ased yn cael ei fabwysiadu i gyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau nas cefnogwyd. Mae'r cyfrifiad Isafswm Darpariaeth Refeniw yn cael ei wneud ar sail asedau unigol.

Rhodddwyd ystyriaeth i ddull amgen sy'n defnyddio oes gyfartalog ased ar gyfer pob benthyciad nas cefnogwyd mewn blwyddyn, o'i gyferbynnu â chael amryfal daliadau yn seiliedig ar asedau unigol. Os caiff y dull hwn ei fabwysiadu mewn blynyddoedd i ddod, mae cyfle hefyd i ailsylfaenu'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer benthyciadau nas cefnogwyd er 2008, sydd ag oes gyfartalog ased a gyfrifwyd yn 38 mlynedd. Gan gymryd lefel y benthyciadau nas cefnogwyd i ystyriaeth ym mhob blwyddyn, mae'r gyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli yn 3.68%, sy'n seiliedig ar gyfradd flwydd-daliad Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer pob benthyciad, o 31^{ain} Mawrth o'r flwyddyn berthnasol. Felly, ystyrir bod 3.68% yn gyfradd flwydd-daliad briodol ddarbodus i'w defnyddio yn y cyfrifiad Isafswm Darpariaeth Refeniw diwygiedig. Mae'r tabl isod yn cymharu tâl cyfredol yr Isafswm Darpariaeth Refeniw â'r dull oes gyfartalog ased. Mae cyfanswm yr Isafswm Darpariaeth Refeniw, ar sail arian parod, sy'n daladwy dros y cyfnod yr un fath gan ddefnyddio'r naill dull neu'r llall. Mae'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn llai drwy ddefnyddio dull oes gyfartalog ased hyd at 2033/34. Mae'r dull hwn, hefyd, yn arwain at y taliad Isafswm Darpariaeth Refeniw yn cael ei ryddhau 9 mlynedd yn gynt. Mae hyn, ynghyd â'r cyfrifiad Gwerth Presennol Net yn dangos na fydd y dull oes gyfartalog ased yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r tabl isod yn dangos taliad Isafswm Darpariaeth Refeniw ar y Dull Cyfredol a'r Dull Arfaethedig o ran arian parod a gostyngiad effaith amser. Mae ystod yr Isafswm Darpariaeth Refeniw, gyda gostyngiad effaith amser, yn llai wrth ddefnyddio'r Dull Arfaethedig, yn £466k i £437k (e) o gymharu â £670k i £238k (2065/66) wrth ddefnyddio'r dull cyfredol (d) sy'n ategu bod y cynnig yn un tecach i bob cenhedlaeth. Mae'r graff isod yn dangos y Dull Cyfredol a'r Dull Arfaethedig ar sail arian parod.

Tudalen 22

Benthyciadau nas cefnogwyd						
	O ran arian parod			Gostyngiad effaith amser		
	a	b	c=b-a	d	e	f=e-d
Blwyddyn	MRP Cyfredol	MRP a argymhellir	Gwahaniaeth	MRP Cyfredol	MRP a argymhellir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2021/22	670	437	-233	670	437	-233
2022/23	666	453	-213	644	438	-206
2023/24	689	470	-219	643	439	-204
2024/25	712	487	-225	642	439	-203
2025/26	736	505	-231	642	440	-202
2026/27	761	524	-238	641	441	-200
2027/28	787	543	-244	640	442	-199
2028/29	814	563	-251	640	442	-197
2029/30	842	584	-258	639	443	-196
2030/31	871	605	-266	639	444	-195
2031/32	900	627	-273	638	445	-194
2032/33	931	650	-281	638	446	-192
2033/34	832	674	-158	551	446	-105
2034/35	677	699	23	433	447	14
2035/36	541	725	184	334	448	114
2036/37	560	752	192	334	449	114
2037/38	580	779	199	335	449	115
2038/39	601	808	207	335	450	115
2039/40	611	838	226	329	451	122
2040/41	634	869	235	330	452	122
2041/42	656	901	244	330	453	123
2042/43	680	934	254	330	453	123
2043/44	705	968	263	331	454	124
2044/45	730	1,004	273	331	455	124
2045/46	757	1,041	284	331	456	124
2046/47	784	1,079	295	332	457	125
2047/48	647	1,119	471	265	457	193
2048/49	633	1,160	527	250	458	208
2049/50	657	1,202	545	251	459	208
2050/51	683	1,247	564	252	460	208
2051/52	709	1,293	583	253	461	208
2052/53	737	1,340	603	254	461	208
2053/54	766	1,389	624	255	462	207
2054/55	796	1,441	645	256	463	207
2055/56	827	1,494	667	257	464	207
2056/57	859	1,549	689	258	465	207
2057/58	893	1,606	713	259	465	207
2058/59	928	1,665	737	260	466	206
2059/60	944		-944	255		-255
2060/61	941		-941	246		-246
2061/62	976		-976	246		-246
2062/63	965		-965	236		-236
2063/64	1,003		-1,003	236		-236
2064/65	1,042		-1,042	237		-237
2065/66	1,083		-1,083	238		-238
2066/67	162		-162	35		-35
2067/68	40		-40	8		-8
Cyfanswn	35,020	35,020	0	17,487	17,156	-331



4. Ymgynghoriad

Ystyriwyd adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r Isafswm Darpariaeth Refeniw gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor nifer o gwestiynau manwl i'r Swyddogion. Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22, yn amodol ar adolygiadau rheolaidd; a bod arbedion refeniw i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cytunodd Archwilio Cymru, a oedd yn bresennol yn y Pwyllgor, i'r newid hwn ac maent yn fodlon â'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Mae Ymgynghorwyr Trysorlys proffesiynol y Cyngor yn cefnogi'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn.

5. Casgliad

Mae'r tâl Isafswm Darpariaeth Refeniw wedi ei gynnwys yng nghyllideb Cyllid a Chaffael ac mae argymhelliad yr adroddiad hwn yn llwyddo i gael arbediad refeniw sylweddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol hon. Cyfartaledd yr arbediad blynyddol dros y cyfnod o bum mlynedd a'r cyfnod o ddeng mlynedd nesaf yw £1, 561 mil a £1, 474 mil ar gyfer y ddyled a gefnogwyd a'r ddyled nas cefnogwyd wedi'u cyfuno.

Mae'r newidiadau canlynol wedi'u hadlewyrchu yn y datganiad polisi diwygiedig arfaethedig sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Mae'r ddogfen hon wedi'i hatodi – Atodiad A 'Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig'.

Tudalen 24

- i. **Benthyciadau Hanesyddol/a Gefnogwyd** - mabwysiadu Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-daliad gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfradd fenthycia gyfartalog ar fenthyciadau heb eu talu o 01/04/21) dros gyfnod o 44 mlynedd yn cychwyn 01/04/2021.
- ii. **Benthyciadau a Gefnogwyd Newydd** - mabwysiadu Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-daliad.
- iii. **Trefniadau credyd Mentrau Cyllid Preifat** - mabwysiadu Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-daliad.
- iv. **Benthyciadau Darbodus Hanesyddol/a Gefnogwyd** - mabwysiadu Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-daliad gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 38 mlynedd yn cychwyn 01/04/2021.
- v. **Benthyciadau Darbodus nas Cefnogwyd Newydd** - mabwysiadu oes ddefnyddiol gyfartalog amcangyfrifedig yr asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-daliad.

Argymhelliad/Argymhellion: **Cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig arfaethedig ar gyfer 2021/22 fel y nodwyd yn Atodiad A.**

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam Crynodeb: Hirdymor:	Do
	Integreiddio:	Mae'r Polisi'n sicrhau bod dull darbodus o ariannu ad-dalu benthyciadau'n cael ei fabwysiadu sy'n ymdrin â'r tymor byr a'r hirdymor.
	Cydweithio: Cynnwys: Atal:	Yn anuniongyrchol, drwy sicrhau bod cyllideb briodol wedi'i chlustnodi ar gyfer y gost o ad-dalu benthyciadau Amherthnasol Amherthnasol Mae'r Polisi'n sicrhau bod dull darbodus o ariannu ad-dalu benthyciadau'n cael ei fabwysiadu sy'n ymdrin â'r tymor byr a'r hirdymor.

Rheswm dros y penderfyniad: Adolygu'r Polisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2021/22

Trosolwg a Chraffu: Cyflwynwyd Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Tudalen 25

Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22
Amcanion Strategol:	Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n ateb y gofyn o ran cyflenwi gwasanaethau sy'n gwella i fodloni anghenion ein dinasyddion.
Goblygiadau Ariannol:	Cymeradwyir tâl darbodus i Ad-dalu Dyledion i bob cenhedlaeth
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Isafswm Darpariaeth Refeniw - Diwygiad 2018
Atodiadau:	Atodiad A: Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig ar gyfer 2021/22
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Stephen Johnson (Cyllid a Chaffael)
Swyddog Adrodd:	Justin Davies (Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd) Duncan Hall (Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Gwasanaethau)
Dyddiad:	03/06/2021

Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig
ar gyfer 2021/22

1. Egwyddorion Cyffredinol

- a) Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gan ddefnyddio un o'r opsiynau a amlinellir yn y canllawiau, yn ogystal â chyflwyno opsiwn arall a ategir gan yr egwyddor darpariaeth ddarbodus.
- b) Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig oni bai fod Llywodraeth Cymru'n mynnu neu'n penderfynu fel arall. I'r graddau nad yw'r gwariant yn creu ased a'i fod yn wariant y mae cyfnodau oes amcangyfrifedig y cyfeirir atynt yn y canllawiau'n berthnasol iddo, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes defnyddiol ac Isafswm Darpariaeth Refeniw ddarbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.
- c) Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor ag ased unigol, caiff oes ased ei hasesu ar y sail sy'n adlewyrchu cyfnod disgwylid y budd sy'n deillio o'r gwariant yn y modd mwyaf rhesymol. Hefyd, pa fath bynnag o wariant sydd o dan sylw, bydd yn cael ei grwpio mewn modd sy'n adlewyrchu natur y brif elfen o wariant ac ni fydd ond yn cael ei wahanu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd wahanol iawn i'w gilydd.

2. Dulliau o gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw

- a) Bydd cyfran fawr o'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22 yn ymwneud â'r atebolrwydd dyled fwy hanesyddol a fodolai cyn 2008 neu wedi 2008 lle mae'n ymwneud â Benthycia a Gefnogwyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Darperir ar gyfer atebolrwydd Isafswm Darpariaeth Refeniw ar Ofyniad Ariannu Cyfalaf y Cyngor sy'n ymdrin â dyled cyn 2008 a Benthycia a Gefnogwyd wedi 2008 ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw, drwy Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwysu'r Dull Blwydd-daliad a chyfradd llog o 4.20% (cyfradd gyfartalog fenthycia ar fenthyciadau heb eu talu o 01.04.21) dros gyfnod o 44 mlynedd yn cychwyn 01/04/2021.
- b) Gan y gwneir mwy o ddefnydd newydd o Fenthycia a Gefnogwyd yn y Rhaglen Gyfalaf darperir ar gyfer atebolrwydd Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mhob *tranche* newydd o Fenthycia a Gefnogwyd hefyd drwy Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwysu'r Dull Blwydd-daliad.
- c) Bydd cyfran fawr o'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22 yn ymwneud â'r Benthycia Darbodus nas Cefnogwyd Hanesyddol er 2008 a gaiff ei adlewyrchu yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Darperir ar gyfer atebolrwydd Isafswm Darpariaeth Refeniw ar Ofyniad Ariannu Cyfalaf y Cyngor sy'n ymdrin â Benthyciad nas Cefnogwyd wedi 2008 drwy Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwysu'r Dull Blwydd-daliad a chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 39 mlynedd yn cychwyn 01/04/2021.
- d) Gan y gwneir mwy o ddefnydd o Fenthycia Darbodus nas Cefnogwyd yn y Rhaglen Gyfalaf, codir tâl am yr atebolrwydd Isafswm Darpariaeth Refeniw a adlewyrchir yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf dros gyfnod sy'n gymesur â'r oes ddefnyddiol gyfartalog amcangyfrifedig drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased), canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwysu'r Dull Blwydd-daliad.
- e) Pan fyddwn yn ymgymryd â Benthycia Dros Dro yn lle derbyniadau cyfalaf a fydd yn dod i law yn y dyfodol (e.e. benthyciadau cyllid ad-daladwy LIC neu Fenthycia Darbodus Digymorth dros dro) byddwn yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi Isafswm Darpariaeth Refeniw e.e. pan fyddwn yn aros i dderbyniadau cyfalaf ddod i law ar ôl gwerthu asedau diangen.

Tudalen 27

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030, a bydd yn cefnogi'r sector cyhoeddus i osod llinell sylfaen, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at niwtraliaeth carbon (Polisi 20, 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel'). Yn seiliedig ar waith olrhain ôl troed carbon diweddar a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru a GIG Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig blaenoriaethu'r pedair thema allweddol ganlynol i gyflawni'r uchelgais hon:

- 1) Symudedd a Thrafnidiaeth;
- 2) Caffael;
- 3) Defnydd Tir; a
- 4) Adeiladau.

Mae Aether Ltd wedi sicrhau'r contract i ddatblygu'r canllawiau adrodd, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru i sefydlu methodolegau cyson ar draws Cymru ar gyfer adrodd am allyriadau carbon. Roedd y set derfynol o ddogfennaeth i'w dosbarthu i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd 2019/20, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd COVID-19. Y bwriad ar hyn o bryd yw cylchredeg y ddogfennaeth derfynol i bob corff cyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynorthwyo i osod gwaelodlin ar gyfer allyriadau carbon, datblygu cynlluniau a monitro cynnydd tuag at dargedau lleihau allyriadau.

Fel y soniwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio a darparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr a cherbydau ULEV.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'r prosiect 'Re: fit' yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Sector Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio fframwaith contractwr a gaffaelir ymlaen llaw a chronfeydd buddsoddi-i-arbed Salix.

Tudalen 49

Mae'r Cyngor yn rhan o WG Hydrogen Reference Group, sy'n bwriadu hyrwyddo trafodaethau ar y ffordd orau i Gymru symud ymlaen â'r farchnad hon. Mae gan y grŵp gysylltiad agos ag MH: EK a Chlwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), yn ogystal â'r gadwyn gyflenwi a rhwydweithiau hydrogen ehangach. Mae LIC yn bwriadu datblygu ei safbwynt polisi hydrogen a nodi cyfleoedd cyllido. Bydd canlyniadau'r gwaith grŵp hwn, yn ei dro, yn bwydo i mewn i grŵp hydrogen mewnol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lawer o adrannau sydd â buddion mewn hydrogen.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Ynni Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru yn seiliedig ar y gwaith diweddar a gynhyrchwyd gan Sefydliad Materion Cymru (IWA) a Regen SBCR a Renewable Energy Future. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r ffrwd waith hon.

Gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion/Tyfu Canolbarth Cymru

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fwrdd statudol, o'r enw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru – mae pob BGC yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant ei sir.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn aelod gweithgar o'r Gweithgor Newid yn yr hinsawdd ac a Chyfoeth Naturiol Cymru, sy'n is-grŵp o BGC Ceredigion.

Cydweithredu ag Arbenigwyr o'r Sector Preifat, y Trydydd Sector a'r Sector Cymunedol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau; gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd; ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fabwysiadu pum ffordd allweddol o weithio wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol:

- 1) edrych i'r tymor hir;
- 2) mabwysiadu dull integredig;
- 3) cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth;
- 4) gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol; a
- 5) deall achosion sylfaenol materion er mwyn eu hatal rhag digwydd eto.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid preifat, trydydd sector a chymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Llywodraeth Cymru
- Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGGA)
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE)
- Cynghorau Cymuned
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol
- Prosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru

CAMAU GWEITHREDU – Cydweithredu

- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ym mhob maes datgarboneiddio.
- Gweithio gyda phartneriaid BGC Ceredigion i nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu mewn perthynas â lleihau carbon.
- Gweithio gyda phartneriaid Llywodraeth Cymru a Rhanbarth Canolbarth Cymru i sefydlu Cynllun Ynni Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru.
- Nodi partneriaid a thirfeddianwyr ychwanegol y gellid gweithio ar y cyd â nhw i leihau carbon.
- Gweithio gyda phartneriaid sector preifat y Cyngor a phrif dirfeddianwyr i archwilio dulliau arloesol o leihau carbon.
- Cydweithio â sefydliadau trydydd sector a chymunedol Ceredigion i archwilio cyfleoedd i leihau carbon a gosod nodau ynni adnewyddadwy pellach.

Integreiddio a Chyfathrebu

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull corfforaethol ar gyfer drafftio'r cynllun gweithredu hwn gyda chyfarfodydd rheolaidd dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams ac wedi'u mynychu gan Swyddogion y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet amrywiol, ac mae Cynrychiolwyr o Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynychu cyfarfodydd.

Cydnabyddir y bydd angen ymwybyddiaeth ac ymrwymiad Staff ac Aelodau er mwyn i'r Cyngor allu cyflawni'r Cynllun Carbon Sero-Net yn llwyddiannus – bydd angen hyfforddiant a chyfathrebu penodol ar gyfer hyn – i ddechrau, cynigir cynnal arolwg Staff i nodi sut y gall unigolion gyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net.

Gwneir Asesiadau Effaith Integredig ar gyfer prosiectau, cynigion a phenderfyniadau'r Cyngor. Mae Asesiad Effaith Integredig yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg) a Rheoli Risg er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.

Ym mis Medi 2019 ysbrydolodd yr actifydd ifanc o Sweden, Greta Thunberg, filiynau o bobl ifanc ac oedolion ledled y byd i gymryd rhan yn y 'Streic Hinsawdd' fyd-eang, gan fynnu gweithredu ar frys wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd – aeth pobl ifanc o ysgolion Aberystwyth "ar streic" i bwysu am weithredu ar newid yn yr hinsawdd, a threuliodd nifer o gynghorwyr a swyddogion Ceredigion amser yn gwrandao a thrafod â nhw.

Bydd perfformiad ar y cynnydd tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030 yn cael ei adrodd yn flynyddol, ynghyd ag adolygiadau blynyddol o'r cynllun gweithredu.

Tudalen 51

CAMAU GWEITHREDU – Integreiddio a Chyfathrebu

- Cynnal arolwg Staff i nodi sut y gall unigolion gyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net
- Darparu hyfforddiant staff ar leihau carbon yn eu gwaith o ddydd i ddydd a'u meysydd arbenigol – cynnwys lleihau carbon fel rhan o gwrs cynefino corfforaethol y Cyngor
- Cydgrynhai arferion gwaith doethach i greu effeithlonrwydd datgarboneiddio pellach – e.e. defnydd doethach o weithleoedd, gweithio gartref a llai o filltiroedd cymudo. Rhaid i lesiant ac amodau gwaith gweithwyr fod o'r pwys mwyaf yn yr ystyriaeth hon – gan gynnwys rhoi dodrefn swyddfa addas ac offer ynni-effeithlon i staff.
- Ymgorffori newid yn yr hinsawdd/lleihau carbon yn y broses Asesiad Effaith Integredig a gynhelir gan y Cyngor
- Adolygu'r Cynllun Gweithredu ar ôl cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar fframwaith adrodd cenedlaethol newydd ar gyfer carbon.

Bydd perfformiad ar y cynnydd tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030 yn cael ei **adrodd yn flynyddol**, ynghyd ag adolygiadau blynyddol o'r cynllun gweithredu.

Atodiad 1

Crynodeb o'r Camau Gweithredu

CAMAU GWEITHREDU – Adeiladau Gweithredol

- Cyflwyno'r Cynllun 'Re:fit' (Effeithlonrwydd Ynni) mewn eiddo gweithredol i sicrhau arbedion ynni/carbon.
- Datblygu camau posibl pellach y prosiect 'Re:fit' (Effeithlonrwydd Ynni), neu'r tebyg, i sicrhau arbedion ynni/carbon ar garlam.
- Ymgorffori geiriad mewn briffiau dylunio adeiladau newydd ac adeiladu i nodi bod Cyngor Sir Ceredigion yn ei gwneud hi'n ofynnol i adeiladau newydd fod yn garbon niwtral/carbon sero-net o ran eu defnydd o ynni – ac yn ddefnyddol carbon positif, yn yr ystyr eu bod yn cynhyrchu mwy o ynni nag y gallant ei ddefnyddio.
- Mabwysiadu'r safon 'Ffabrig yn gyntaf', lle bo hynny'n briodol, mewn prosiectau adeiladu adeiladau newydd.
- Adolygu a diwygio manylebau a briffiau dylunio yn barhaus i adlewyrchu technolegau newydd ac offer ynni-effeithlon.
- Ymestyn technoleg 'glyfar' ac is-fesuryddion i sicrhau bod data defnyddio ynni'n cael ei ddal yn gywir ac yn amserol. Ystyried cais am fesuryddion clyfar dŵr.
- Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer adeiladau annomestig y Cyngor fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.

CAMAU GWEITHREDU – Goleuadau Stryd

- Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer goleuadau stryd y Cyngor fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.
- Uwchraddio goleuadau stryd galw uchel am bŵer sy'n weddill i rai LED erbyn diwedd Mawrth 2022 gan ddefnyddio cyllid Cyngor Sir Ceredigion y cytunwyd arno.
- Newid unrhyw oleuadau stryd nad ydynt yn cydymffurfio mwyach os na all y Cyngor eu hatgyweirio yn economaidd – h.y. mae'r atgyweirio yn costio mwy na lamp LED ynni-effeithlon newydd.

CAMAU GWEITHREDU – Cerbydau Fflyd

- Cynnal adolygiad i nodi'r cerbydau sy'n rhedeg ar danwydd mwyaf priodol ar gyfer pob un o wasanaethau'r Cyngor a nodi cyfleoedd ar gyfer cyflwyno cerbydau ULEV.
- Adolygu'r system adrodd telemateg gyfredol i gynnwys dadansoddiad manylach o allyriadau CO2 a nodi cyfleoedd i gefnogi lleihau allyriadau'r fflyd gyfan.
- Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer fflyd y Cyngor fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.

CAMAU GWEITHREDU – Milltiroedd Busnes

- Parhau i ehangu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Parhau i hyrwyddo ffyrdd hyblyg o weithio, er mwyn sicrhau bod y lleihad yn y teithio gan staff a welwyd yn ystod cyfnod COVID yn parhau
- Ystyried datblygu Cynllun Teithio Gwyrdd, i gynnwys adolygiad o filltiroedd busnes y Cyngor er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer cyflwyno cerbydau ULEV.
- Datblygu polisi gweithio ystwyth
- Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer milltiroedd busnes y Cyngor fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.

Tudalen 53

CAMAU GWEITHREDU – Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Gwrthbwysu Carbon

- Gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio a darparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.
- Gweithio gyda LASER Energy a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i gefnogi mwy o gaffael ynni o brosiectau ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol.
- Archwilio ymarferoldeb, a neilltuo tir ar gyfer plannu coed a mesurau eraill o'r fath (megis cynyddu'r storfa garbon mewn priddoedd a biomas) ar dir a reolir gan y Cyngor er mwyn cyfrannu at wrthbwysu carbon.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Goed – a fydd yn cynnwys rheoli ardaloedd o goetir presennol ac arfaethedig yn y dyfodol, cynlluniau rheoli, symud coed a chylch bywyd.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Bwyd-Amaeth – archwilio cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu a bwyta'n lleol mewn ysgolion a chartrefi gofal Ceredigion. Bydd hyn yn lleihau milltiroedd bwyd ac yn rheoli'r pridd yn well.
- Datblygu targed priodol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.

CAMAU GWEITHREDU – Cydweithredu

- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ym mhob maes datgarboneiddio.
- Gweithio gyda phartneriaid BGC Ceredigion i nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu mewn perthynas â lleihau carbon.
- Gweithio gyda phartneriaid Llywodraeth Cymru a Rhanbarth Canolbarth Cymru i sefydlu Cynllun Ynni Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru.
- Nodi partneriaid a thirfeddianwyr ychwanegol y gellid gweithio ar y cyd â nhw i leihau carbon.
- Gweithio gyda phartneriaid sector preifat y Cyngor a phrif dirfeddianwyr i archwilio dulliau arloesol o leihau carbon.
- Cydweithio â sefydliadau trydydd sector a chymunedol Ceredigion i archwilio cyfleoedd i leihau carbon a gosod nodau ynni adnewyddadwy pellach.

CAMAU GWEITHREDU – Integreiddio a Chyfathrebu

- Cynnal arolwg Staff i nodi sut y gall unigolion gyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net
- Darparu hyfforddiant staff ar leihau carbon yn eu gwaith o ddydd i ddydd a'u meysydd arbenigol – cynnwys lleihau carbon fel rhan o gwrs cynefino corfforaethol y Cyngor
- Cydgrynhai arferion gwaith doethach i greu effeithlonrwydd datgarboneiddio pellach – e.e. defnydd doethach o weithleoedd, gweithio gartref a llai o filltiroedd cymudo. Rhaid i lesiant ac amodau gwaith gweithwyr fod o'r pwys mwyaf yn yr ystyriaeth hon – gan gynnwys arfogi staff â dodrefn swyddfa addas ac offer ynni-effeithlon.
- Ymgorffori newid yn yr hinsawdd/leihau carbon yn y broses Asesiad Effaith Integredig a gynhelir gan y Cyngor
- Adolygu'r Cynllun Gweithredu ar ôl cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar fframwaith adrodd cenedlaethol newydd ar gyfer carbon.

Tudalen 54

Atodiad 2

Crynodeb Lleihau Carbon – Allyriadau Gweithredol




Mesurau Llwyddiant Allweddol	2007/08	2017/18	2018/19	2019/20	2018/19 o'i gymharu â 2019/20	
					Statws	% newid
Adeiladau Annomestig						
Defnydd (kWh)	33,181,924	25,243,982	23,824,245	23,165,854	Wedi gwella	-2.76%
Allyriadau Carbon (tCO ₂ e)	11,034	5,557	5,177	4,918	Wedi gwella	-5.01%
Goleuadau stryd						
Defnydd (kWh)	2,789,852	1,473,489	1,430,263	1,176,392	Wedi gwella	-17.75%
Allyriadau Carbon (tCO ₂ e)	1,503	518	435	326	Wedi gwella	-25.06%
Cerbydau Fflyd						
Defnydd (Litrau)	735,921	687,747	676,698	679,623	Wedi dirywio	0.43%
Allyriadau Carbon (tCO ₂ e)	1,995	1,867	1,802	1,762	Wedi gwella	-2.22%
Milltiroedd Busnes						
Milltiroedd (y filltir)	3,907,910	2,592,354	2,573,678	2,301,840	Wedi gwella	-10.56%
Allyriadau Carbon (tCO ₂ e)	1,288	784	729	642	Wedi gwella	-11.93%

Ôl troed Carbon	-	Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy Gwrthbwysu Carbon	=	Carbon Sero-Net
------------------------	---	--	---	------------------------



Ôl troed Carbon 2019/20 – Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy + Plannu Coed = Carbon Sero-Net

	Allyriadau Carbon (tCO ₂ e)	Gwynt (nifer y tyrbinau)	Solar PV (nifer y paneli)	Plannu coed (nifer y coed)	
Adeiladau Gweithredol	4,918	16	81,967	491,800	= 0tCO ₂ e
Goleuadau stryd	326	1	5,433	32,600	= 0tCO ₂ e
Cerbydau fflyd	1762	6	29,367	176,200	= 0tCO ₂ e
Milltiroedd Busnes	642	2	10,700	64,200	= 0tCO ₂ e
	7,648	25	127,467	764,800	= 0tCO ₂ e
		13.5 MWh	32 MWh	478 ha	

	Gwynt: yr uchod yn seiliedig ar y nifer o dyrbinau 500kW, gyda swm blynyddol amcangyfrifedig o 1,200,000 kWh / y flwyddyn, neu 306.7 tCO ₂ e yn cael ei gynhyrchu
	Solar: yr uchod yn seiliedig ar nifer y paneli PV 250W unigol, gyda swm blynyddol amcangyfrifedig o 235 kWh / y flwyddyn = 0.06 tCO ₂ e yn cael ei gynhyrchu
	Coed: yr uchod yn cymryd y bydd un goeden ddeilen lydan yn amsugno oddeutu 1 dunnell o garbon deuocsid yn ystod ei hoes lawn (tua 100 mlynedd), wedi'i phlannu ar gyfradd o 1,600 o goed fesul hectar

Tudalen 55

Nodiadau:

1. Mae'r nifer gyfatebol o dyrbinau gwynt a phaneli solar ffotofoltäig yn seiliedig ar gyfrifiad lefel uchel a fydd yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda newidiadau yn ffactor trosi allyriadau trydan y DU. Er bod y metrig hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddangos graddfa'r dasg, dim ond at ddibenion eglurhaol y mae wedi'i fwriadu gan ei fod yn dibynnu ar lawer o newidynnau allanol.
2. Mae'r nifer cyfatebol o goed yn seiliedig ar gyfrifiad lefel uchel ac mae'n dibynnu ar lawer o newidynnau allanol. Er bod y metrig hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddangos graddfa'r dasg, mae at ddibenion eglurhaol yn unig.
3. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno fframwaith adrodd cenedlaethol newydd ar gyfer carbon yn 2021; o ganlyniad, efallai na fydd modd cymharu'r data perfformiad uchod yn uniongyrchol ar ôl y dyddiad hwn.

Atodiad 3

Polisi Datgarboneiddio Cyfredol

Mae'r tirlun polisi sy'n ymwneud â datgarboneiddio yn esblygu'n gyson, ond mae'r polisi diweddar perthnasol yn cael ei nodi yma, gyda dolenni i ddogfennau perthnasol lle maent ar gael:

Targed Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030.

Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#), Rhan II yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac yn nodi gostyngiad o 80% mewn allyriadau net Cymru gyfan erbyn 2050 yn erbyn llinell sylfaen 1990 [dechreuodd Ceredigion gofnodi data allyriadau yn gywir yn 2007/08 pan roddwyd ein Cynllun Rheoli Carbon cyntaf ar waith, felly 2007/08 yw unig flwyddyn sylfaen hyfyw CSC].

Targed LIC i 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru ddod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 [cyflawnwyd yr hyn sy'n cyfateb i 50% o ddefnydd trydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy yn 2018 o'i gymharu â 48% yn 2017 a 43% yn 2016].

Targed LIC ar gyfer 1 gigawat (GW) o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru fod ym mherchnogaeth leol erbyn 2030 ac i bob prosiect newydd fod ag elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020. [Mae Cymru eisoes yn 77% tuag at gael 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy ym mherchnogaeth leol, gyda chyfanswm capasiti gosodedig prosiectau trydan ym mherchnogaeth leol hyd at ddiwedd 2018 bron i 778 megawat (MW)].

Ym mis Mawrth 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru '[Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel](#)' – cynllun trawslywodraeth i dorri allyriadau a chyfrannu at y frwydr fyd-eang yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Ym mis Mai 2019, argymhellodd Pwyllgor y DU ar Newid yn yr hinsawdd (UKCCC) y dylid deddfu ar gyfer gostyngiad o 100% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr 'cyn gynted â phosibl', ac anogodd y llywodraeth i osod targed allyriadau CO₂ sero-net erbyn 2050.

Ym mis Mai 2019, yn dilyn yr arweiniad a osodwyd gan lywodraethau Cymru a'r Alban, cyhoeddodd Tŷ'r Cyffredin argyfwng hinsawdd.

Ym mis Mehefin 2019, datganodd LIC y byddai Cymru yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor ar Newid yn yr hinsawdd am ostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (yn benodol i Gymru) erbyn 2050 a mynd ymhellach gydag uchelgais i gyrraedd sero-net.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae hyrwyddo gwytnwch amgylcheddol a chymunedol yn flaenoriaeth gorfforaethol a amlinellir yn [Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion](#).

Atodiad 4

Rhestr Termau

Unedau mesur

Mae ôl troed carbon yn cael ei fesur mewn tunnell o garbon deuocsid cyfatebol (tCO_{2e}). Mae'r carbon deuocsid cyfatebol (CO_{2e}) yn caniatáu i'r nwyon tŷ gwydr gwahanol gael eu cymharu ar sail debyg o'i gymharu ag un uned o CO₂. Cyfrifir CO_{2e} trwy luosi allyriadau pob un o'r chwe nwy tŷ gwydr â'i botensial cynhesu byd-eang 100 mlynedd.

Mae ôl troed carbon yn ystyried pob un o'r chwe nwy tŷ gwydr Protocol Kyoto: Carbon deuocsid (CO₂), Methan (CH₄), Ocsid Nitraidd (N₂O), Hydrofflwrocarbonau (HFCs), Perfflwrocarbonau (PFCs) a Sylffwr hecsafflwrorid (SF₆).

Ffynhonnell – <https://www.carbontrust.com/resources/guides/carbon-footprinting-and-reporting/carbon-footprinting/>

Yn syml, **cilowat (kW)** yw 1,000 wat, sy'n fesur o bŵer, e.e. gall cael cawod drydan 10,000 wat hefyd cael ei alw'n gawod 10 cilowat.

Yn syml, mae **megawat (MW)** yn 1,000 cilowat, sy'n fesur o bŵer, e.e. gigawat (GW) yw 1,000 megawat a terawat (TW) yw 1,000 gigawat

Mae **awr cilowat (kWh)** yn fesur o faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio; nid yw'n golygu nifer y cilowatau a ddefnyddir yr awr, dim ond uned o fesur sy'n cyfateb i faint o ynni y byddai rhywun yn ei ddefnyddio i gadw teclyn 1,000 wat i redeg am awr, er enghraifft:

- Byddai un bwlb golau 100 wat yn cymryd 10 awr i ddefnyddio 1 kWh o ynni.
- Byddai un teclyn 2,000 wat yn defnyddio 1 kWh mewn dim ond hanner awr.
- Gallai un eitem 50 wat aros ymlaen am 20 awr cyn ei bod yn defnyddio 1 kWh.

Ffynhonnell – <https://www.ovoenergy.com/guides/energy-guides/what-is-a-kwh-kw-and-kwh-explained.html>

Awr megawat (MWh) yw 1000 kWh.

Esboniadau:

Gall terminoleg sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd fod yn anodd ei deall yn enwedig i'r rheini sydd â chysylltiad anaml â'r pwnc. Mae rhai termau isod a ddefnyddir yn gyffredin:

Cyfrifyddu Carbon – mae cyfrifyddu carbon yn cwmpasu ystod eang o arferion gwahanol ac yn golygu pethau gwahanol i grwpiau gwahanol o bobl, ond yn gyffredinol gellir ei rannu'n ddau categori: cyfrifyddu carbon ffisegol (sy'n meintoli symiau ffisegol o allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer), a chyfrifyddu carbon ariannol (sy'n rhoi gwerth marchnad ariannol i garbon). Gellir defnyddio cyfrifo carbon corfforol i helpu cwmnïau a gwledydd i weithio allan faint o garbon y maent yn ei ollwng i'r atmosffer; gelwir hyn yn rhestr nwyon tŷ gwydr. Ar ôl sefydlu faint o garbon sy'n cael ei ollwng, gellir gosod targedau lleihau. Mae'r dull hwn hefyd yn bwysig ar gyfer helpu i neilltuo cyfrifoldeb i wahanol bartion am eu hallyriadau carbon cysylltiedig.

Mae cyfrifyddu carbon yn darparu'r offer nid yn unig i feintoli a mesur allyriadau carbon ond hefyd i helpu i wneud penderfyniadau gwybodus o ran strategaethau lliniaru:

- Faint o garbon sy'n cael ei ollwng?
- Pwy sy'n gyfrifol am yr allyriadau hyn?
- Pa ddulliau dylem eu defnyddio i gael y gostyngiadau carbon mwyaf?

Tudalen 58

- A oes strategaethau neu bolisiau sy'n ymddangos yn 'wyrdd' ond sy'n cynyddu ein hallyriadau carbon mewn gwirionedd?
- Gall cyfrifyddu carbon helpu i ateb yr holl gwestiynau hyn, ond gall fod yn broses gymhleth.

Ffynhonnell – <https://www.ed.ac.uk/sustainability/what-we-do/climate-change/case-studies/climate-research/carbon-accounting>

Carbon Sero-Net – mae'n amlwg o'r wyddoniaeth bod faint o CO₂ yn yr atmosffer sy'n deillio o weithgaredd dynol yn pennu maint cynhesu byd-eang i raddau helaeth. Mae hyn yn golygu, er mwyn atal newid trychinebus yn yr hinsawdd, mae angen lleihau allyriadau CO₂ i sero. Arweiniodd y wyddoniaeth at lywodraethau ledled y byd yn cytuno i sicrhau cydbwysedd rhwng allyriadau a chael gwared ar nwyon tai gwydr yng Nghytundeb Paris. Mae 'sero-net' yn cyfeirio at sicrhau cydbwysedd cyffredinol rhwng allyriadau a gynhyrchir ac allyriadau a gymerir allan o'r atmosffer. Fel baddon gyda'r tapiau'n rhedeg, dull o gyflawni'r cydbwysedd hwn yw naill ai troi'r tapiau i lawr (yr allyriadau) neu ddraenio swm cyfartal i lawr y plwg (symud allyriadau o'r atmosffer, gan gynnwys dulliau storio ar gyfer yr allyriadau megis 'sinciau carbon', h.y. unrhyw beth sy'n amsugno mwy o garbon nag y mae'n ei ryddhau fel carbon deuocsid. Ar hyn o bryd mae coedwigoedd Ewropeaidd yn sinc carbon net gan eu bod yn cymryd i mewn mwy o garbon nag y maent yn ei ollwng).

Ffynhonnell – <http://www.lse.ac.uk/GranthamInstitute/news/what-is-net-zero/>

Carbon Niwtral – mae niwtraliaeth carbon yn golygu allyriadau CO₂ anthropogenig net (a achosir neu a ddylanwadir gan bobl) erbyn dyddiad penodol. Yn ôl ei ddiffiniad, mae niwtraliaeth carbon yn golygu bod pob tonnell o CO₂ anthropogenig sy'n cael ei ollwng yn cael ei ddigolledu gyda swm cyfatebol o CO₂ yn cael ei symud ymaith (e.e. trwy wrthbwysu carbon).

Ffynhonnell – <https://www.wri.org/blog/2015/12/cop21-glossary-terms-guiding-long-term-emissions-reduction-goal>

- Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i fod yn awdurdod lleol 'Carbon Sero-Net' tra bod gan Lywodraeth Cymru uchelgais i gael sector cyhoeddus 'Niwtral Carbon' yng Nghymru. O fewn cyfyngiadau'r ddogfen hon, mae'r ddau derm hyn yn gyfnewidiadwy.

Gwrthbwysu Carbon – yn syml, mae gwrthbwysu yn golygu sicrhau credydau carbon sy'n cyfateb i effaith carbon rhywun. Mae hyn yn golygu gwneud iawn am bob tonnell o CO₂ a allyrrir trwy sicrhau bod un tonnell yn llai yn yr atmosffer. Oherwydd bod un uned o CO₂ yn cael yr un effaith ar yr hinsawdd lle bynnag y caiff ei allyrru, mae'r budd yr un fath lle bynnag y caiff ei leihau neu ei osgoi. Gallai sicrhau gostyngiadau carbon wedi'u dilysu gynnwys amddiffyn fforestydd glaw yn Sierra Leone neu blannu coed yn lleol o bosibl.

Ffynhonnell – <https://climatecare.org/carbon-offsetting/>

Atodiad 5

Argyfwng Hinsawdd

Ni fwriedir i ffocws cychwynol y cynllun gweithredu hwn ar gyfer llwybr tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero-net gyfyngu neu atal gweithredoedd ehangach posibl eraill sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Nodir rhai o'r gweithredoedd hyn isod (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

Tai

- Dechreuodd cynllun grant Rhwymedigaeth Cwmni Ynni Awdurdodau Lleol Ceredigion (ECO LA Flex 3) ym mis Hydref 2019 a bydd ar gael tan fis Mawrth 2022. Mae'r cynllun hwn ar gael ledled y wlad ac mae'n cynnwys cartrefi ynni-aneffeithlon sydd naill ai'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar danwydd neu sydd ar incwm isel ac yn agored i'r oerfel. Mae'r grant yn mynd tuag at fesurau effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n cynnwys uwchraddio systemau gwresogi ac inswleiddio. Er mis Medi 2019 mae dros 173 o eiddo wedi derbyn gwelliannau trwy'r cynllun.
- Ym mis Mawrth 2019 dechreuodd prosiect Cronfa Cartrefi Cynnes gan gyflenwi 140 o systemau gwres canolog tro cyntaf gyda'r mesurau inswleiddio angenrheidiol yng nghartrefi aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed. Roedd y gosodiadau hyn yn gymysgedd o systemau LPG a phympiau gwres ffynhonnell aer. Bydd y cynllun hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2021 ac ar hyn o bryd rydym yn trafod gyda'r cyllidwyr mewn perthynas â darparu cynllun Cam 2 ar gyfer 140 o osodiadau pellach dros y 12 mis nesaf.
- Ar hyn o bryd mae rhaglen Arbed 3 Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r eiddo yn ardal Aberteifi yn barod ar gyfer cyflwyno adroddiad i LIC i bennu ymarferoldeb cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gosod systemau gwresogi/uwchraddio systemau a mesurau inswleiddio mewn eiddo preifat (perchennog-ddeiliad a rhentu preifat). Y nod yw ymgymryd ag o leiaf 100 o osodiadau.
- Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried amryw o gyfleoedd cyllido eraill er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn y sir a lleihau'r ôl troed carbon.

Cynllunio, Datblygu, Defnydd Tir a Bioamrywiaeth

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLI1) ym mis Ebrill 2013 ac mae'n ceisio llywodraethu sut a ble mae datblygu yn digwydd ledled y sir trwy nodi cyfres o bolisïau a chynigion. Defnyddir y CDLI wrth benderfynu ar bob cais cynllunio yng Ngheredigion. Elfen graidd o'r CDLI yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gan y CDLI hefyd amcan i sicrhau bod datblygu yn lleihau cyfraniad nwyon tŷ gwydr Ceredigion, yn unigol ac yn gronnus, a cheisio gostyngiad lle bynnag y bo modd. Mae strategaeth y cynllun yn ceisio sicrhau datblygu cynaliadwy trwy'r Hierarchaeth Aneddiadau, sy'n ceisio cyfeirio datblygu at leoliadau sydd â lefel uchel o wasanaethau. Mae hyn yn ei dro yn lleihau'r angen i deithio sydd yn cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau carbon.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd yn gyson trwy bolisïau'r cynllun. Ceir tystiolaeth o hyn, er enghraifft, mewn polisïau sy'n cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith teithio cynaliadwy. Er mwyn sicrhau y darperir datblygu cynaliadwy, mae'r CDLI hefyd yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori Aseiad Amgylcheddol Strategol (SA/AAS). Pwrpas yr offer hyn yw sicrhau bod polisïau a chynigion yn y CDLI yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ystyried effeithiau sylweddol y cynllun ar yr amgylchedd.

Mae Cynllun Datblygu Lleol cyfredol Ceredigion (CDLI 1) wedi bod yn destun monitro bob blwyddyn trwy gyfrwng yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR). Sbardunodd canfyddiadau'r 3ydd AMR

Tudalen 60

adolygiad o'r cynllun a fu'n sail i gwblhau Adroddiad ar yr Adolygiad o'r CDLI a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017. Roedd y canlyniad yn argymhell cychwyn CDLI newydd (CDLI 2). Bydd y cynllun newydd yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033. Bydd y CDLI diwygiedig yn ceisio cynnal yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac yn ceisio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwyddi draw, gan ganolbwyntio datblygu ymhellach ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy sy'n hygyrch trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy ac sydd â'r galluedd angenrheidiol i gefnogi gweithio o gartref. Mae'r newid mewn ymddygiadau teithio i'r gwaith sy'n deillio o bandemig COVID 19 yn debygol o fod yn nodwedd barhaol, gydag o leiaf 30% o weithwyr/oriau gwaith yn gweithio o gartref yn arferol yn y dyfodol, yn unol â bwriadau polisi Llywodraeth Cymru. Mae telefeddygaeth a defnyddiau eraill o gyfathrebu digidol hefyd yn debygol o effeithio ar yr angen i deithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy gyntaf) ac ar filltiroedd ceir a deithir yn arbennig ar gyfer poblogaeth wledig wasgaredig fel sydd yma yng Ngheredigion (lle mae tua 60% o'r preswylwyr yn byw y tu allan i'r prif drefi a lle mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus hyfyw yn her).

Fel rhan o'r broses adolygu, mae Papur Pwnc Newid yn yr hinsawdd yn cael ei lunio. Mae'r papur yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth, strategaethau, polisiâu, cyfarwyddyd a thystiolaeth berthnasol sydd wedi'u cyhoeddi neu eu newid ers mabwysiadu CDLI1. Mae hyn, yn ei dro, yn llywio unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cynllun yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd. Un canlyniad a nodwyd hyd yma fu'r angen i gynhyrchu polisi strategol newid yn yr hinsawdd cyffredinol. Er nad oedd yn orfodol, nododd swyddogion mai ychwanegu polisi strategol oedd y dull mwyaf priodol i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd a datblygu. Bydd y polisi'n ceisio nodi maen prawf sy'n llywodraethu cynigion datblygu mewn perthynas ag allyriadau carbon, tir a ddatblygwyd o'r blaen, effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, dyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd, dulliau adeiladu cynaliadwy, rheoli, amddiffyn a gwella gwasanaethau ecosystemau, adnoddau dŵr, yr asedau a rhwydweithiau seilwaith tir a gwyrdd gorau a mwyaf amlbwrpas sy'n gweithredu fel sinciau carbon. Yn ogystal, bydd yn ceisio osgoi a lleihau risg llifogydd ymhellach gan fabwysiadu dull o geisio atebion sy'n seiliedig ar natur yn gyntaf.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy sy'n ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ac felly'n llywio'r cynllun newydd. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn asesiad strategol lefel uchel o'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a sero ledled y sir. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi cyfres o dargedau ynni adnewyddadwy ac ardaloedd chwilio lleol ar gyfer gwynt a solar. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn llywio'r cynllun newydd ac yn ei dro bydd yn ceisio hwyluso datblygiad a'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon sero-net yng Ngheredigion.

Rhaid ystyried llifogydd, fel perygl, i lywio'r broses CDLI; sy'n cynnwys ystyried canlyniadau posibl llifogydd yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull rhagofalus o osgoi'n gadarnhaol datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, gan ystyried yn ogystal llifogydd dŵr wyneb a chynlluniau rheoli traethlin.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW), wedi'i ategu gan Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd) yn darparu fframwaith rhagofalus i gyfeirio datblygu newydd i ffwrdd o ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. Yn benodol, mae'n ofynnol i ddatblygiadau hyglwyf, a ddisgrifir yn TAN 15, gael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.

Mae Mapiâu Cyngor Datblygu yn galluogi awdurdodau cynllunio i fabwysiadu dull strategol tuag at y perygl o lifogydd ac ystyried y dalgylch yn ei gyfanrwydd trwy ddarparu cynrychiolaeth ragarweiniol o risgiau llifogydd, sy'n llywio'r broses CDLI. Yn ogystal, dylai asesiadau canlyniadau llifogydd gynorthwyo'r ddealltwriaeth o sut mae amddiffynfeydd naturiol a dynol yn gweithio fel cydrannau annatod o leoedd ac yn darparu modd ar gyfer dechrau deall effeithiau cronus datblygu, er mwyn helpu i reoli'r perygl o lifogydd yn gynnar.

Tudalen 61

Ar hyn o bryd mae CSC yn paratoi Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol i ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI newydd.

Bydd yr asesiad yn ategu rôl y Cyngor o ran cyflawni datblygu cynaliadwy trwy reoli'r perygl o lifogydd ac osgoi effeithiau llifogydd yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cynorthwyo Ceredigion mewn ystyr ehangach trwy helpu i fynd i'r afael â materion allweddol megis dylunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd, cadwraeth natur a bioamrywiaeth, cysylltedd ecolegol a gwella'r amgylchedd naturiol a'i wasanaethau.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Mae hwn yn cynnwys mapiau a sylwebaeth gysylltiedig ar asedau a chynefinoedd seilwaith gwyrdd trefol presennol ar gyfer chwe phrif dref Ceredigion ynghyd ag Adpar (chwaer anheddiad Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin), ac ar y dynodiadau tir ar gyfer y sir gyfan, yn ogystal â nodi graddfa'r cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd craidd presennol ac ar gyfer pobl rhwng asedau seilwaith gwyrdd presennol a rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mae'n sefydlu'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pob un o'r prif drefi ynghyd â'r sir gyfan.

Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn awgrymu, yn seiliedig ar nodi cynefinoedd eang ym mhob un o'r byfferau 2km o amgylch trefi, a'r gwasanaethau ecosystemau sy'n debygol o gael eu darparu gan y cynefinoedd hyn, ei fod yn ymddangos mai'r trefi sy'n elwa fwyaf o lefelau uwch o ddarpariaeth gwasanaeth ecosystemau seiliedig ar gynefin yw Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod y rhain yn drefi arfordirol sy'n elwa ar y gwasanaethau diwylliannol a rheoleiddio a ddarperir gan arfordir Ceredigion a'i gynefinoedd. Mae gan Dregaron ddarpariaeth gwasanaeth ecosystemau nodedig i'r gogledd lle y ceir safle Ramsar a chynefin mignen. O ran anghenion gwasanaeth ecosystemau, byddai Aberteifi, Adpar, a rhannau gorllewinol a deheuol Aberystwyth, sydd wedi'u datblygu'n fwy dwys, yn elwa ar greu Seilwaith Gwyrdd (e.e. plannu coed a gwrychoedd a glaswelltiroedd a reolir yn briodol) i leihau lefelau llygryddion aer gronynnol.

Gall mesurau rheoli llifogydd cynaliadwy, megis gosod systemau draenio cynaliadwy, plannu coed, neu greu man gwyrdd ar raddfa fawr (lle bo hynny'n ymarferol) sy'n cyd-fynd â dulliau rheoli llifogydd naturiol fel mannau cilio a reolir, fod yn fuddiol yn Llanbedr Pont Steffan ac yn nwyrain Tregaron lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb.

Dylid rhoi blaenoriaeth i greu Seilwaith Gwyrdd newydd sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y Seilwaith Gwyrdd a darpariaeth gwasanaethau ecosystem, ac sy'n ymestyn ac yn cysylltu'r rhwydwaith presennol. Bydd cyfleoedd eraill sydd wedi'u blaenoriaethu yn ymwneud mwy â gwella ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r Seilwaith Gwyrdd presennol. Ar raddfa'r sir, byddai mwy o ddarpariaeth o goetir ac ehangu/adfer corsydd mawn yn helpu i gael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer (yn ogystal â lleihau llifogydd i lawr yr afon a darparu buddion oeri), a thrwy hynny gyfrannu at ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030. Bydd polisïau i gefnogi datblygiad o'r fath yn cael eu cynnwys yn y CDLI newydd.

Prosiectau penodol sy'n cysylltu â'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd yw prosiect Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 'Cysylltu â Natur' y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2021, gyda chyllid o £25k gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sydd â'r dasg o nodi tir sy'n eiddo cyhoeddus y gellir ei reoli, ei wella a'i gyfoethogi ar gyfer bioamrywiaeth, a chael ei agor ar gyfer mynediad cyhoeddus, gwirfoddoli a gweithgareddau llesiant. Bydd yn nodi 6 chyfle â blaenoriaeth o restr hir sy'n gysylltiedig â'r potensial i wella ailgysylltiad cadarnhaol pobl o fewn eu cymunedau trwy ystyried materion penodol, gan ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd eisoes wrth baratoi'r adroddiad Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Mae gwaith Seilwaith Gwyrdd pellach sy'n benodol i aneddiadau yn cael ei wneud gyda phartneriaid trawsffiniol yn Sir Gaerfyrddin a Chyfoeth Naturiol Cymru i fapio asedau ac anghenion o ran gwytnwch yr hinsawdd yng Nghastellnewydd Emlyn.

Gall diwygiadau i reoliadau adeiladu er gwaethaf polisi newydd gael eu cyflwyno i'r CDLI ynghylch pwyntiau gwefru trydan ar gyfer datblygiadau newydd i gynyddu'r ddarpariaeth hon mewn

Tudalen 62

datblygiadau preswyl a di-breswyl. Mae materion allweddol ar gyfer Ceredigion yn ymwneud â datblygu cyfleusterau gwefru cerbydau trydan yn y parth cyhoeddus ac ar y priffyrdd, er mwyn sicrhau bod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gael i'w defnyddio gan ddeiliaid tai preswyl sydd heb le parcio oddi ar y ffordd ac i drigolion gwledig sydd angen gwneud siwrneiau cymharol hir ar gyfer siopa/hamdden/ymweld â'r ysbyty, ac ati, ac ar gyfer twristiaid ac ymwelwyr hamdden y bydd cyfleusterau ailwefru ar eu cyfer yn ffactor pwysig wrth ddewis eu cyrchfan gwyliau/hamdden.

Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol

- Mae'r Cyngor yn gweithredu'r gwasanaethau casglu ar garreg y drws canlynol:
 - Deunyddiau y gellir eu hailgylchu cymysg sych (papur, cerdyn, plastigau, caniau a chartonau) – yn cael eu casglu'n wythnosol
 - Gwastraff bwyd – yn cael ei gasglu'n wythnosol
 - Cynhyrchion hylendid amsugol – yn cael eu casglu bob pythefnos ar gais
 - Poteli a jariau gwydr – yn cael eu casglu bob 3 wythnos
 - Gwastraff na ellir ei ailgylchu – yn cael ei gasglu bob 3 wythnos
 - Gwastraff gardd a gwastraff cartref swmpus – yn cael ei gasglu ar gais
- Rhoddir cyfleoedd i gwsmeriaid gwastraff masnach y Cyngor ailgylchu deunyddiau y gellir eu hailgylchu cymysg sych a gwastraff bwyd.
- Mae llwybrau casglu gwastraff yn cael eu hadolygu'n barhaus i wella effeithlonrwydd.
- Mae'r gwastraff bwyd a gesglir yn cael ei drin trwy dreuliad anaerobig i gynhyrchu treuliad (gwrtaithe tebyg i slyri) sy'n cael ei wasgaru ar dir amaethyddol a bio-nwy lleol a ddefnyddir i gynhyrchu gwres a phŵer.
- Mae'r gwastraff na ellir ei ailgylchu a gesglir ar garreg y drws yn cael ei drin gan ynni o wastraff i gynhyrchu trydan.
- Mae'r Cyngor yn darparu pedwar safle gwastraff cartrefi yn y sir lle gall preswylwyr fynd ag ystod eang o ddeunyddiau gwastraff domestig.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau ail-ddefnyddio lleol ac yn eu cefnogi, gan helpu i ddod o hyd i gartrefi newydd ar gyfer eitemau cartref diangen o safon.
- Perfformiad y Cyngor ar gyfer ailgylchu, compostio a pharatoi i'w ail-ddefnyddio oedd 72% yn 2019/20, o'i gymharu â tharged statudol o 64%.
- Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i addysgu preswylwyr am fanteision atal, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
- Mae'r Cyngor yn cefnogi ymdrechion cymunedol i leihau'r defnydd o blastig untro yn y sir, ac mae wedi lleihau ei ddefnydd ei hun yn sylweddol trwy gamau megis:
 - Rhoi'r gorau i ddefnyddio poteli a gwellt llaeth plastig mewn ysgolion a rhoi dewisiadau amgen heblaw plastig yn eu lle.
 - Rhoi'r gorau i ddefnyddio cwpanau, cyllyll a ffyrc a bagiau bach plastig wedi'u pacio ymlaen llaw mewn ffreuturau dinesig.
 - Gosod ffynhonnau yfed cyhoeddus

Caffael

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddarparu atebion cynaliadwy gan gynnwys lleihau allyriadau carbon ac mae'n cydnabod y rôl allweddol sydd gan gaffael i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn. Mae'r strategaeth gaffael ddiweddaraf yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf tuag at ddatblygu cynaliadwy trwy ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn prosesau caffael. Yn benodol, bydd y Strategaeth yn darparu amgylchedd iach trwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy rag-gymhwyso darpar gyflenwyr ar eu cofnodion a'u gwerthoedd cynaliadwyedd. Mae'r camau yn y Strategaeth yn cynnwys:

- Datblygu strategaethau nwyddau trwy reoli categori, e.e. cynyddu cyrchu lleol a chaffael atebion cynaliadwy.

Tudalen 63

- Gweithio gyda chyflenwyr i'w helpu i wella a bod yn fwy cynaliadwy.

Mae gan y Tîm Caffael Corfforaethol gynrychiolaeth ar Grŵp Lleihau Carbon y Cyngor a'r Panel Rheoli Prosiect, sy'n hwyluso ymgysylltiad cynnar â rheolwyr prosiect ar ystyriaethau cynaliadwyedd cysylltiedig yn ogystal â materion eraill. Chwaraeodd y tîm ran allweddol hefyd yn y Grŵp Tasg a Gorffen Ceredigion Di-blastig, a lwyddodd i ddileu nifer o blastigau untro a ddefnyddir gan yr Awdurdod. Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi arwain ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer pecynnu arlwyio sy'n galluogi sefydliadau i newid o gynhyrchion plastig traddodiadol i atebion cynaliadwy.

Yn ystod y broses datblygu fframwaith, mae swyddogion caffael wedi gweithio'n agos â llunwyr polisi WRAP Cymru a Llywodraeth Cymru a chynnwys eu mewnbwn yn y fanyleb. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r tîm caffael wrthi'n gweithio ar brosiect yr Economi Sylfaenol sy'n cynnwys llinynnau i wella'r sylfaen gyflenwi a bwyd lleol, gyda'r nod o sicrhau effeithiau economaidd ac iechyd cadarnhaol yn y sir.

Amddiffyn yr Arfordir, Llifogydd a Draenio

- Mae'r holl gynlluniau Amddiffyn yr Arfordir a Lliniaru Llifogydd a gynhaliwyd gan y Cyngor wedi'u cynllunio i gynnwys lwfansau newid yn yr hinsawdd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Bydd angen cynllunio systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd hefyd i ddarparu ar gyfer digwyddiad glawiad 1 mewn 100 mlynedd ynghyd â lwfans 30% ar gyfer newid yn yr hinsawdd.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn goruchwylio Atodlen 3 o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS). Gallai hyn olygu bod angen darparu ffrydiau, dyfrffosydd, pyllau ac ati ar y safle.

Trafnidiaeth a Phrifyrdd

Cefndir

Mae ased prifyrdd Ceredigion yn cynnwys:

- 2,151km o gerbytfyrdd – a ddefnyddir gan drafnidiaeth gyhoeddus, trafndiaeth ysgolion a beicwyr
- 212 km o droedffyrdd – yn cael eu defnyddio gan gerddwyr o fewn aneddiadau ac yn darparu cyswllt rhwng cymunedau a thwristiaeth a chyrchfannau eraill
- Xx km o lwybrau beicio pwrpasol
- Xx km o lwybrau defnydd a rennir (cerddwyr a beicwyr)
- Rhwydwaith gwasanaethau bysiau lleol yn gweithredu 2,882,977 cilomedr o deithiau (2019/20)
- Hefyd ceir nifer fawr o rannau o hawliau tramwy cyhoeddus y gellir eu cyrchu i wneud siwrneiau teithio llesol a chynaliadwy.

Teithio Llesol

Rhaid i'r Cyngor Sir gyflawni nifer o ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi tri chyrchfan Teithio Llesol (trefi) yng Ngheredigion – Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Mae hyn yn cynnwys ceisio gwella (ymestyn) y rhwydwaith presennol yn barhaus, a dylai'r holl gynlluniau prifyrdd a thrafnidiaeth newydd ddilyn y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol. Llwyddodd y Cyngor Sir i adeiladu 1,155 km o lwybr defnydd a rennir newydd a grëwyd yn 2019/20. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal yr adolygiad gofynnol o'i rwydwaith presennol ac yn cynllunio llwybrau i'w datblygu a'u cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y

Tudalen 64

dyfodol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/>

Gyda digon o gyfleoedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, mae teithio llesol yn gallu darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer symud moddol i ffordd o deithiau car yn bennaf ar gyfer teithiau byrrach. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddarparu seilwaith newydd a gwell.

Mae'r Cyngor Sir wedi arwain y ffordd ym maes darparu cyfleusterau gwefru beiciau trydan i annog pobl i ddefnyddio e-feiciau, yn enwedig ar gyfer rhan ehangach o'r boblogaeth a allai fod yn llai hyderus neu sydd â llai o allu i feicio pellteroedd hirach ac mewn ardaloedd lle mae'r dopograffeg yn fwy heriol i'r mwyafrif o ddarpar feicwyr.

Mae'r Cyngor Sir wedi defnyddio Grant Teithio Cynaliadwy Covid-19 Llywodraeth Cymru yn 2020/21 i hwyluso mynediad diogel gan gadw pellter cymdeithasol i gerddwyr a beicio mewn nifer o drefi – yn benodol creu a rheoli 'Parthau Diogel', gwella'r ddarpariaeth barcio ar gyfer beiciau, ehangu troedffyrdd a chysylltiadau newydd i gerddwyr megis rhwng maes parcio Swyddfeydd Penmorfa ac Ysgol Gynradd, Aberaeron. Y bwriad yw creu cyfleusterau parhaol i annog cerdded a beicio yn y lleoliadau hyn yn y dyfodol.

Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor Sir i fuddsoddi mewn cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac mae rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth Diogelwch ar y Ffyrdd yn helpu i adeiladu seilwaith (yn enwedig mewn ysgolion a'r cyffiniau) ac yn darparu'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol ymysg plant a phobl iau i gerdded, beicio a defnyddio sgwteri yn ddiogel. Ochr yn ochr â gwaith i ehangu'r rhwydwaith a hyrwyddo teithio llesol, mae'r mentrau hyn yn helpu i annog dewisiadau teithio mwy cynaliadwy yn amgylcheddol wrth i blant dyfu i fod yn oedolion.

Er bod y Cyngor yn cael ei annog gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gerdded a beicio o fewn y trefi a'r cymunedau teithio llesol dynodedig yn union o amgylch y trefi hyn, mae potensial i ddatblygu ymhellach y llwybrau pellter hwy fel llwybrau Rheidol ac Ystwyth sy'n cysylltu Aberystwyth a llwybr y Cardi bach yn Aberteifi. Gall fod llwybrau eraill hefyd. Os cânt eu datblygu'n ddigonol, mae gan bob un y potensial i annog beicio dros rannau o'r llwybrau hyn gan gysylltu cymunedau a chymryd lle rhai teithiau car.

1.0 Teithio ar y Bws

Mae'r rhwydwaith bysiau lleol yng Ngheredigion yn cynnwys gwasanaethau a gefnogir gan Gyngor Ceredigion a Llywodraeth Cymru yn bennaf. Mae'r prif lwybrau yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y gwasanaethau TrawsCymru canlynol:

- T1 Aberystwyth – Aberaeron – Llanbedr Pont Steffan (a lleoliadau i Gaerfyrddin)
- T1C Aberystwyth – Aberaeron – Llandysul (a lleoliadau i Gaerdydd)
- T2 Aberystwyth – Machynlleth (a lleoliadau i Fangor)
- T5 Aberystwyth – Aberaeron – Aberteifi (a lleoliadau i Hwlfordd)

sy'n darparu cyfleoedd teithio pellter lleol a phellter hwy rheolaidd a dibynadwy. Mae'r rhain yn cael eu hategu a'u cefnogi, gyda buddsoddiad gan CSC, gan wasanaethau bws lleol sy'n cyfnewid mewn hybiau allweddol gan gynnwys:

- Aberystwyth
- Aberaeron
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan

Yn 2019/20 gweithredodd y rhwydwaith bysiau lleol yng Ngheredigion gyfanswm o 2,882,977 cilomedr.

Tudalen 65

1.1 Bwcabus

Mae'r Bwcabus yn ddatrysiad trafndiaeth arloesol sy'n darparu cyfleoedd teithio ymateb i'r galw yn ogystal â llwybr/amserlen sefydlog dros ran helaeth o dde Ceredigion yn ogystal â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gyfagos.

1.2 Cardi Bach

Mae'r Cardi Bach yn wasanaeth bws sy'n gwasanaethu'r cymunedau arfordirol rhwng Aberteifi a Cheinwydd, gan gysylltu â'r rhwydwaith bysiau ehangach ar y ddau ben, gan ddarparu siwrneiau lleol angenrheidiol yn gymdeithasol ynghyd â mynediad i Lwybr Arfordir Ceredigion.

- Trafndiaeth Gymunedol – e.e. Bws Bro Aberteifi, Bws y Bro ac ati? gweler: <http://www.cavo.org.uk/archives/category/help-for-organisations/community-transport>

1.3 Trafndiaeth Dysgwyr

Mae CSC yn cynnal 36 o ysgolion cynradd, 4 ysgol uwchradd, un ysgol 3-16 a dwy ysgol 3-19.

Darperir teithio am ddim i ddysgwyr ar gyfer oddeutu 400 o ddisgyblion ysgol gynradd cymwys a 2500 o ddisgyblion ysgol uwchradd cymwys. Felly mae'r Cyngor Sir yn darparu oddeutu 1,102,000 o deithiau cludo dysgwyr bob blwyddyn.

1.4 Rhwydwaith Integredig

Mae'r trefniadau trafndiaeth dysgwyr a gwasanaeth bysiau lleol wedi'u cysoni'n agos a'u hintegreiddio. Maent yn cefnogi ei gilydd trwy optimeiddio adnoddau i ddarparu a chynnal cyfleoedd teithio sy'n annhebygol o fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy fel arall, mae hyn yn arbennig o wir yn ardaloedd mwy gwledig a llai poblog Ceredigion.

2.0 Cynllun Teithio Rhatach

Mae CSC yn hwyluso Cynllun Teithio Rhatach Cymru Gyfan yng Ngheredigion gyda thua 18,000 o basiau mewn cylchrediad gyda 358,612 o siwrneiau teithwyr yn tarddu yng Ngheredigion yn 2019/2020. Mae'r Cynllun, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn rhoi hawl i bobl dros 60 oed a phobl ag anableddau penodol sy'n preswyllo yng Nghymru, deithio am ddim unrhyw adeg o'r dydd ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru, yn ogystal â rhai gwasanaethau trenau.

3.0 Teithio ar y Trên

Ceir cyfleoedd i deithio ar y trê, neu gyfuniad o drên a bws, teithio llesol a char preifat yn y gorsafoedd trenau a ganlyn sy'n arbennig o berthnasol i Geredigion:

- Machynlleth
- Cyffordd Dovey
- Y Borth
- Bow Street
- Aberystwyth
- Caerfyrddin

Mae cyflwyno patrwm gwasanaeth trenau bron bob awr ar brif lein y Cambrian rhwng Aberystwyth ac Amwythig dros saith diwrnod o'r wythnos wedi cynyddu cyfleoedd teithio ac integreiddio â gwasanaethau bysiau yn sylweddol, yn enwedig yn Aberystwyth a Machynlleth ac erbyn hyn Bow Street.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r Cyngor Sir wedi cefnogi'r datblygiad ac wedi llobio Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnewidfa drafnidiaeth gyhoeddus newydd Parcio a Theithio Gogledd Aberystwyth yn Bow Street. Disgwylir i Gyfnewidfa Drafnidiaeth Cymru agor ym mis Chwefror 2021 ac mae'n

Tudalen 66

cynnwys gorsaf drenau newydd gyntaf Ceredigion ers toriadau Beeching yn y 1960au gyda chynnewidfa fysiau, beicio a maes parcio ceir. Mae'r Cyngor Sir wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu rhwydwaith o gysylltiadau teithio llesol i/o'r gyfnewidfa newydd. Mae Parcio a Theithio Aberystwyth (De) yn Rhydyfelin wedi'i nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Leol cyfredol, ac mae'r safle wedi'i nodi fel safle ymgeisiol ar gyfer y defnydd hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol. Byddai angen gwneud gwaith datblygu pellach pe bai'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu.

Mae'r Cyngor Sir yn aelod o Bartneriaeth Reilffyrdd Cambrian - y bartneriaeth reilffyrdd gymunedol ranbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n cwmpasu Prif Lein y Cambrian a Lein Arfordir y Cambrian. Mae'r Bartneriaeth yn ceisio hyrwyddo twf yn y defnydd o wasanaethau teithwyr rheilffordd ar gyfer teithiau rheolaidd a hyrwyddo twristiaeth 'wyrdd' yn ogystal â chynrychioli buddion y cymunedau lleol a wasanaethir gan leiniau'r Cambrian. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn cyflogi'r Swyddog Datblygu ac yn darparu rheolaeth ariannol ar ran y Bartneriaeth. Gweler: <https://www.thecambrianline.co.uk/>

Mae Aelodau'r Cyngor Sir yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth gyda chefnogaeth swyddogion. Mae'r Pwyllgor yn dwyn ynghyd awdurdodau lleol, cymunedau lleol, defnyddwyr reilffyrdd, Trafnidiaeth Cymru a'r Diwydiant Rheilffyrdd i ddatblygu gwelliannau i wasanaethau a hyrwyddo'r defnyddio'r reilffyrdd o fewn ac i/o Ganolbarth Cymru – gweler: <http://shrewsburyaberystwythrailway.org/>

Yn y gorffennol mae Aelodau'r Cyngor Sir wedi penderfynu cefnogi datblygiad cynlluniau ar gyfer adfer yr hen lein rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae'r cynnig yn cael ei symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru – gweler: <https://gov.wales/aberystwyth-carmarthen-rail-reinstatement-feasibility-study>

Teithio Cynaliadwy a Datblygiadau Newydd

Mae'r Adran Briffyrdd yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau a wneir i'r Cyngor Sir fel Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r gwasanaeth Rheoli Datblygu Priffyrdd yn darparu cyngor a chymorth i ddatblygwyr yn ystod y broses cyn ymgeisio a chais llawn. Weithiau gall yr Adran Briffyrdd wrthwynebu datblygiad y mae'n ei ystyried nad yw'n cefnogi neu'n gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer teithio cynaliadwy fel y'i diffinnir ym mholisiau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol – gweler: <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-a-cynaliadwy-draenio-corff-sab/cynllunio-adeiladu-rheoli/ceredigion-local-development-plan/> Bydd y gwasanaeth Rheoli Datblygu Priffyrdd yn ystyried mynediad i ddatblygiadau arfaethedig gan drafnidiaeth a theithio cynaliadwy ac mewn rhai amgylchiadau gall argymhell gofyniad am Gynllun Teithio. Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddewis ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu seilwaith neu wasanaethau teithio cynaliadwy.

Datblygu Cynaliadwy (cludo llwythi /nwyddau)

Cafodd prosiect ei nodi yng Nghynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Canolbarth Cymru cyfredol 2015-20 i ystyried y posibilrwydd o gludo llwythi ar reilffyrdd i leihau cludo rhai nwyddau ar y ffordd, er yr ymchwiliwyd i gyfleoedd yn y gorffennol gan gynnwys y treial/peilot cludo llwythi pren tua 10 mlynedd yn ôl. Mae hyd y daith rhwng marchnadoedd (yr ystyrir eu bod yn rhy fyr ar gyfer teithiau cludo llwythi hyfyw ar reilffyrdd), rhai cyfyngiadau (pontydd, crymedd, signalau, argaeledd dolenni pasio a chapasiti'r lein) a diffyg diddordeb yn y farchnad yn golygu na fu llawer o gynnydd. Efallai y bydd defnyddio tanwydd 'glanach' a newidiadau i dechnoleg cerbydau (trydan a hydrogen) yn cefnogi datgarboneiddio dosbarthu nwyddau dros amser. Cyhoeddodd Partneriaeth Menter Leol y Gororau, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru Strategaeth Cludo Nwyddau Gororau a Chanolbarth Cymru yn 2018 – gweler:

http://www.tracc.gov.uk/uploads/media/Marches_and_Mid_Wales_Freight_Strategy_Feb_Chwefror_2018.pdf

Cynigion Gwefru Cerbydau Trydan

Mae'r Cyngor Sir wedi buddsoddi mewn darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV) sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ei swyddfydd ym Mhenmorfa Aberaeron a Chanolfan Rheidol, Aberystwyth. Darperir y gwasanaeth gan Silverstone fel rhan o'i Rwydwaith Gwefru Dragon – gweler: <https://www.dragoncharging.co.uk/>

Hyd yma mae swyddogion priffyrdd wedi gwneud cais aflwyddiannus am gyllid grant trafndiaeth Llywodraeth Cymru i ymestyn y trefniadau hyn i feysydd parcio cyhoeddus oddi ar y stryd sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ledled y sir. Fodd bynnag, mae cais cyllid grant newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer datblygu rhwydwaith cerbydau trydan Ceredigion gyda manau gwefru i'w gosod ym Mlwyddyn Ariannol 2021/22 yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer hydrogen fel tanwydd amgen – e.e. bysiau a chludo llwythi. Disgwylir canlyniad y cais hwn ar hyn o bryd. Mae swyddogion y Cyngor Sir wedi darparu cymorth ar gyfer cynigion parhaus Trafnidiaeth Cymru i osod manau gwefru'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngheredigion (fel rhan o'i raglen genedlaethol) ac yng Nghyfnawidfa Bow Street. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan (EV) ar gyfer Cymru – gweler: <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-12/electric-vehicle-charging-strategy-consultation-document.pdf>

4.0 Dibenion teithio

Mae elfennau cyfun y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yn darparu nifer o gyfleoedd teithio am amrywiaeth o ddibenion sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Siopa
- Iechyd
- Cymdeithasu
- Hamdden ac adloniant
- Dysgu
- Twristiaeth
- Cymudo
- Teithio cysylltiedig â gwaith

Mae CSC yn ymwybodol bod effeithiau COVID-19 yn debygol o fod yn eang ac yn hirsefydlog a bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y dewisiadau teithio, y dyheadau a'r gofynion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy sydd ar hyn o bryd yn anodd eu rhagweld neu eu rhagfynegi. Mae'n bosibl y gall teithio at ddibenion bob dydd, gan gynnwys y rhai y cyfeirir atynt uchod, leihau a gall y ffordd rydym yn teithio newid. Gellir nodi galw yn y dyfodol trwy fodelau trafndiaeth Gogledd Cymru a De Orllewin a Chanolbarth Cymru sy'n cael eu datblygu gan Drafnidiaeth Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau lleol, datblygwyr a sefydliadau eraill.

Gyda gwasanaethau trafndiaeth amlach i deithwyr wedi'u cyfyngu i weithredu ar hyd y rhwydwaith ffyrdd strategol (gyda rhai gwasanaethau bwydo lleol), mewn ardaloedd mwy gwledig fel Ceredigion, mae'r car preifat yn debygol o barhau i fod yn brif fath o drafnidiaeth/dull teithio i gael mynediad at wasanaethau, cyfleoedd a chyfleusterau a chynnal symudedd ac annibyniaeth. Efallai y bydd yn bosibl newid dulliau teithio moddol i ffwrdd o'r car preifat ar gyfer teithiau byrrach ond mewn

Tudalen 68

ardaloedd mwy gwledig mae dylanwadu ar ddewisiadau teithio mwy cynaliadwy/darparu dewisiadau amgen go iawn yn fwy heriol, ac ynghyd â theithiau masnachol a thwristiaeth dyma lle bydd newid i gerbydau ULEV yn cael yr effaith fwyaf yn y dyfodol.

Rhannu ceir a chlybiau ceir? Ar un adeg roedd rhannu ceir yn cael ei arwain gan gonsortiw trafndiaeth rhanbarthol ond ymddengys nad oes llawer o gynnydd wedi ei weld dros y 6-8 mlynedd diwethaf. Cyfeirir ato'n aml mewn Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio Gwyrdd ar gyfer datblygiadau newydd – ond ymddengys nad oes llawer yn digwydd. Mae posibilrwydd y gellir datblygu'r ddau, yn enwedig clybiau ceir, gyda'r posibilrwydd o gysylltu â cherbydau ULEV – er y bydd pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar hyder pobl i deithio gyda rhywun y tu allan i'w teulu/'swigen'.

5.0 Caru Ceredigion

Fel rhan o Caru Ceredigion, byddai preswylwyr ac ymwelwyr â Cheredigion yn cael eu hannog i ystyried:

- effaith y dewisiadau teithio a wnânt ar yr argyfwng hinsawdd – byddai hyn yn cynnwys ystyried a oes angen teithio a sut y maent yn teithio;
- gwneud y defnydd gorau o'r dewisiadau a'r cyfleusterau teithio cynaliadwy sydd ar gael iddynt, gan ymestyn o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus i seilwaith cerdded a beicio, gan fod hyn yn cefnogi eu hyfywedd parhaus yn ogystal ag achosion busnes ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

6.0 Symud Ymlaen

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymgysylltu a chefnogi prosiect parhaus Trafnidiaeth Cymru 'Diwygio a Dylunio Rhwydwaith Bysiau Cymru' sy'n ceisio optimeiddio adnoddau a gwella cyfleoedd teithio ledled Cymru gan ystyried deinameg a dylanwadwyr lleol. Bydd hyn yn llywio dyluniad rhwydweithiau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae CSC hefyd yn ymwybodol o weledigaeth uchelgeisiol LIC ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru yn y dyfodol fel y nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu; bydd CSC yn parhau i weithio gyda'r partneriaid perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, i wireddu a chyflawni'r dyheadau hyn ar sail ranbarthol, yn ogystal â lleol, er budd trigolion ac ymwelwyr Ceredigion, yn ogystal â'i economi a'i amgylchedd.

Bydd angen i rwydweithiau trafndiaeth a'r cyfleoedd teithio a gynigir, o ran seilwaith a darparu gwasanaethau, fod yn ddeinamig a hyblyg i adlewyrchu gofynion byd ôl-COVID ac ymateb yn gadarnhaol i heriau'r argyfwng hinsawdd er mwyn bod yn addas at y diben yn y dyfodol. Gyda hyn mewn cof, rydym yn ymgysylltu â phartneriaid sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio bysiau trydan ar rwydwaith TrawsCymru yng Ngheredigion, a'r seilwaith y byddai ei angen i gefnogi a hwyluso hyn. Ystyrir bod hyn yn fan rhesymegol i ddechrau o ran trydaneiddio bysiau yng Ngheredigion a all yn ei dro symud ymlaen at broses raeadru a chyflwyno ar draws y rhwydwaith.

Mae gostyngiad cyffredinol mewn teithio, ynghyd â symud i ddulliau teithio mwy cynaliadwy, yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i gynllunio teithio effeithiol ac effeithlon o safbwynt ariannol ac amgylcheddol, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr argyfwng hinsawdd.

Addysg

- Mae'r Rhaglen Eco-ysgolion yn fenter ryngwladol sy'n golygu y gall datblygu cynaliadwy fod yn rhan fawr o fywyd ac ethos ysgolion. Mae'r rhaglen yn cynnwys y gymuned ysgol gyfan wrth wella amgylchedd yr ysgol ac annog dinasyddiaeth dda; mae disgyblion yn astudio pynciau gan

Tudalen 69

gynnwys gwastraff, sbwriel, ynni, dŵr, trafndiaeth, byw'n iach a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae pob ysgol yng Ngheredigion wedi'i chofrestru ar y Rhaglen Eco-ysgolion.

- Mae Ceredigion yn defnyddio dull 'ffabrig yn gyntaf' tuag at yr holl brosiectau ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae dull 'ffabrig yn gyntaf' ar gyfer dylunio adeiladau yn cynnwys gwneud y mwyaf o berfformiad y cydrannau a'r deunyddiau sy'n ffurfio' ffabrig yr adeilad ei hun, cyn ystyried defnyddio systemau gwasanaethau adeiladu mecanyddol neu drydanol; gall hyn helpu i leihau costau cyfalaf a gweithredol, gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon gan leihau costau cynnal a chadw parhaus. Mae adeiladau a ddyluniwyd ac a adeiladwyd gan ddefnyddio dull ffabrig yn gyntaf yn ceisio lleihau'r angen i ddefnyddio ynni trwy ddulliau megis:
 - sicrhau'r adeiladau mwyaf aerdyn;
 - lefelau uwch o insiwleiddio;
 - optimeiddio enillion solar trwy ddarparu agoriadau a chysgodi;
 - optimeiddio awyru naturiol; a
 - defnyddio màs thermol ffabrig yr adeilad.
- Mae'r Cyngor Sir wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i wella neu ddarparu llwybrau cerdded a beicio newydd i ysgolion a cholegau i wneud teithiau'n fwy diogel ac yn fwy hygyrch ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio sgwteri. Mae rhai cynlluniau wedi cynnwys gostyngiad yn y terfyn cyflymder (i 20 milltir yr awr), mesurau tawelu traffig ffisegol a chysodfannau beiciau. Lle nad oes cyfleusterau croesi ffurfiol i gerddwyr, mae'r Cyngor yn defnyddio staff Patrol Croesi Ysgolion mewn lleoliadau yr ystyrir eu bod yn 'risg uwch' i ddarparu amgylchedd mwy diogel i ddysgwyr gerdded i'r ysgol. Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor yn darparu rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn yr ysgolion – megis hyfforddiant cerddwyr Kerbcraft a Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol – i ddarparu'r sgiliau angenrheidiol a magu hyder ymhlith plant a phobl iau i gerdded, beicio a defnyddio sgwteri yn ddiogel i fynd i'r ysgol, a thrwy hynny annog pobl i beidio â theithio mewn car preifat.
- Lle bo hynny'n ymarferol, bydd ysgolion newydd yn manteisio ar y technolegau gwyrdd sydd ar gael inni, ac yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau gwres o'r ddaear, ffynhonnell aer a solar sy'n briodol i bob safle unigol. Bydd ystod o feysydd gwasanaeth y Cyngor gan gynnwys Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, yn ymgysylltu'n gynnar i gyfrannu at unrhyw gynigion i adolygu'r ddarpariaeth addysg bresennol, ehangu ysgolion presennol ac ar gyfer unrhyw adeilad newydd.
- Mae Ceredigion hefyd wedi ymrwymo i osod manau gwefru cerbydau trydan ym mhob un o'i ysgolion newydd.

Adfywio

Economi ac Adfywio – gwybodaeth i ddilyn

Cyllid

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gronfa Bensiwn Dyfed sy'n werth £2.4 biliwn.
- Ar 23 Ionawr 2020 cytunodd Cyngor Ceredigion i alw ar Gronfa Bensiwn Dyfed i beidio â buddsoddi mewn tanwydd ffosil o fewn dwy flynedd.
- Yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 cytunodd Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed ar y camau a fydd yn lleihau ôl troed carbon ei ddaliadau ariannol gan 16%.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

- Mae'r Cyngor yn parhau i gyflwyno arfer da TGCh i helpu i leihau allyriadau carbon, gan gynnwys:
 - Lleihau'r defnydd o ynni yn ei Ganolfannau Data ac ar draws ei Rwydwaith trwy rithwirolï a rhesymoli caledwedd a mabwysiadu gweinyddwyr a seilwaith TGCh ynni effeithlon;

Tudalen 70

- Hwyluso gostyngiad mewn teithio staff trwy weithredu arferion gwaith ystwyth ar draws yr Awdurdod, gan gynnwys defnyddio gliniaduron a chyfarfodydd a galwadau cynhadledd fideo ar-lein (Skype for Business a Microsoft Teams);
- Lleihau argraffu ar draws yr Awdurdod trwy hwyluso mabwysiadu dulliau gweithio di-bapur trwy ddefnyddio technoleg yn well.
- Mae rhesymoli argraffu a chael gwared ar argraffu lliw ar gyfer y mwyafrif o staff wedi digwydd mewn adeiladau swyddfa.

Argyfyngau Sifil

Rôl Argyfyngau Sifil y Cyngor yw ceisio helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy weithio gyda sefydliadau partner a chymunedau a datblygu, cynnal a phrofi cynlluniau argyfyngau sifil ar gyfer amrywiol risgiau, gan gynnwys:

- digwyddiadau tywydd mwy eithafol sy'n achosi llifogydd afonol difrifol, fel storm Callum yn 2018;
- lefel y môr yn codi gan achosi cynnydd mewn llifogydd arfordirol a,
- hafau poethach a sychach yn achosi prinder dŵr, cynnydd mewn 'tanau gwyllt' ac effeithiau ar iechyd y boblogaeth (yn enwedig dinasyddion hŷn a mwy agored i niwed).

Mae'r Cyngor yn aelod o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys y mae ei aelodau'n cynnwys y Gwasanaethau Brys, Cyrff Iechyd, Awdurdodau Lleol eraill, Asiantaethau'r Llywodraeth a Chwmnïau Cyfleustodau. Mae aelodau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau ar waith i helpu i liniaru effeithiau unrhyw argyfyngau gan gynnwys y rhai a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Mae rôl y Cyngor yn ystod argyfyngau yn cynnwys rhoi cymorth i'r gwasanaethau brys, cefnogaeth a gofal i'r gymuned leol ac ehangach a chydlynu'r ymateb gan sefydliadau heblaw'r gwasanaethau brys. Wrth i amser fynd yn ei flaen, ac wrth i'r pwyslais newid i adfer, mae'r Cyngor yn chwarae rhan flaenllaw wrth ailsefydlu'r gymuned ac adfer yr amgylchedd. Mae'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cynhyrchu ac yn diwygio'n rheolaidd Cofrestr Risg Cymunedol Dyfed Powys. (Nodyn: Mae 'Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr hinsawdd y DU 2017 – Crynodeb i Gymru' yn crynhoi'r dystiolaeth benodol i Gymru yn 'Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr hinsawdd y DU').

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig erydiad arfordirol a llifogydd, yn ei gofrestr risg gorfforaethol ei hun.

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: Cabinet

DYDDIAD: 15 Mehefin 2021

LLEOLIAD: ZOOM

TEITL: Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflawni Sero-Net erbyn 2030

PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi adborth cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021, ystyriodd yr Aelodau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflawni Sero-Net erbyn 2030. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Mae'n egluro pam fod angen y Cynllun Gweithredu Carbon Sero-Net hwn arnom a pham fod targed 2030 mor bwysig i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn asesu allyriadau carbon gweithredol Ceredigion ar hyn o bryd ac yn amlinellu'r heriau sy'n gysylltiedig â tharged uchelgeisiol 2030.

Cafodd y Cynllun Gweithredu ei baratoi mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 20 Mehefin 2019 pan gytunwyd i wneud y canlynol:

- Ymrwymo i wneud Ceredigion yn Awdurdod Lleol carbon sero-net erbyn 2030
- Datblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn garbon sero-net o fewn 12 mis
- Galw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i roi'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi gostyngiadau effeithiol o ran carbon

Yn ychwanegol at hyn, ar 5 Mawrth 2020, cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang, gan ymrwymo i ateb yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu ein sir a'n planed.

Dywedodd sawl aelod eu bod yn cytuno mewn egwyddor â'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, codwyd pryderon am y costau sydd ynghlwm â'r cynllun hwn, er mwyn cyflawni'r targedau a nodwyd. Dywedwyd hefyd fod angen cynllun busnes.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **cytunodd y Pwyllgor i argymhell y canlynol i'r Cabinet:**

- (i) bod gweithgor trawsbleidiol yn cael ei sefydlu fel rhan o'r grŵp carbon presennol, er mwyn hybu'r cynllun yn ei flaen;
- (ii) bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn derbyn adroddiad diweddarau bob chwe mis; a
- (iii) bod y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddweud mor bwysig yw hi bod methodoleg adrodd yn cael ei darparu yn fuan.

Ers cyfarfod y Pwyllgor Craffu, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r fethodoleg adrodd.

Y Cyngorydd Marc Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Mehefin 2021
Teitl:	Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)
Pwrpas yr adroddiad:	Darparu diweddariad o'r Strategaeth i'r Aelodau
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfnidiaeth, a Gwasanaethau Democraidd

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i'r cyhoedd i ddiogelu arian y dylid ei ddefnyddio er budd y cyhoedd.

I gynorthwyo cyrff i gyflawni hyn wrth ystyried eu risgiau i dwyll, mae CIPFA wedi creu Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd. Mae'r Cod yn datgan bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliad sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau o ran gweithredu.


Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r diben hwn, ac yn berthnasol i bob cyflogai, Aelod etholedig ac Aelod Annibynnol o'r Cyngor. Cafodd y Strategaeth ei gymeradwyo ddiwethaf ym mis Ebrill 2018 ac mae wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar yn dilyn ei adolygiad pob 3-mlynedd.

	Oes Asesiad Effaith	Na – dim newid i bolisi
	Integredig wedi ei gwblhau?	na gwasanaeth
	Os na, esboniwch pam	
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb:	
	Hirdymor:	
	Cydweithio:	
	Cynnwys:	
	Atal:	
	Integreiddio:	
Argymhelliad Argymhellion:	/	I gymeradwyo'r diweddariad i Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian) y Cyngor
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:		I sicrhau bod gan y Cyngor strategaeth atal twyll sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau o ran gweithredu, yn unol ag argymhellion CIPFA.

Tudalen 30

Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, 3 Mehefin 2021. Cytunwyd i gefnogi'r Strategaeth i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2017-22
Blaenoriaethau Gorfforaethol:	Pob un
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	I ddiogelu arian y dylid ei ddefnyddio er budd y cyhoedd.
Goblygiadau cyfreithiol:	I ystyried y Ddeddf Twyll 2006, Deddf Llwgwrwbrwyo 2010 a'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (Diwygio) 2019
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	I ddiogelu eiddo ac asedau'r Cyngor.
Risg(iau):	I ystyried y risg o dwyll, llygredd, llwgwrwbrwyo & gwyngalchu arian.
Pwerau Statudol:	Dim
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Dyddiad:	24 Mai 2021

Strategaeth Cyngor Sir Ceredigion ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cymeradwywyd gan y Cyngor:

Tudalen 32

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

**Gorffennaf
2021**

Strategaeth Cyngor Sir Ceredigion ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

CYNNWYS

Cynnwys	Rhif y dudalen
Adran 1: Cyflwyniad	2
Adran 2: Diwylliant, Cyfrifoldeb ac Atal	7
Adran 3: Darganfod ac Ymchwilio	10
Adran 4: Rhwystro ac Ymwybyddiaeth	11
Adran 5: Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd	12
Adran 6: Gwrthwyngalchu Arian	16
Adran 7: Hyfforddiant	20
Adran 8: Casgliad	21
Atodiad 1: Adroddiad i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian	22

Tudalen 33

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

1. Cyflwyniad

Mae'r "Cod ymarfer ar reoli'r risg o dwyll a llygredd" gan CIPFA, "[Code of practice on managing the risk of fraud and corruption](#)," yn nodi bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliad sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau o ran gweithredu. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r diben hwn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cyflogai, Aelod etholedig ac Aelod Annibynnol o'r Cyngor.

Mae'r polisi hwn yn gorwedd ochr yn ochr â pholisïau amrywiol eraill y Cyngor, gan gynnwys:

Swyddogion:	Aelodau:
Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol	Polisi Datganiadau Aelodau a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau
Polisi Pryderon a Chwynion	Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau
Rheolau Gweithdrefnau Contractio	Llawlyfr Aelodau
Cofrestr Risg Gorfforaethol	Lwfansau Aelodau
Polisi Disgyblu	
Polisi Trais Domestig	Aelodau a Swyddogion:
Polisi Datganiadau Gweithwyr a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau	Polisi Diogelu Data a GDPR
Polisi Tâl	Polisi Ebyst
Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol	Polisi Diogelwch Gwybodaeth
Polisi RIPA	Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed
Polisi Cyfryngau Cymdeithasol	Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Recriwtio Diogel
Polisi a Gweithdrefnau Gwahardd	Rheoliadau Ariannol
Polisi Chwythu Chwiban	Polisi Caethwasiaeth Fodern


Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll, llygredd a llwgwrwbrwyo yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Bydd y Cyngor yn ystyried deddfwriaeth, Rheoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer perthnasol amrywiol, gan gynnwys Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd, Rhwystro Twyll a Llygredd yn Lleol, ac Amddiffyn Pwrs y Wlad.

Tudalen 34

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)
Moeseq

Mae gweithwyr a gyflogir gan y Cyngor yn gwasanaethu'r Awdurdod cyfan, ac maent yn atebol, a chanddynt ddyletswydd i'r Cyngor. Rhaid i weithwyr weithredu'n unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cod Ymddygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion moeseqol a nodir yn y '[Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#)':



Nodi'r Meysydd Risg : Diffiniadau

Twyll	<p>Mae Deddf Twyll 2006, The Fraud Act 2006 yn diffinio categorïau twyll fel:</p> <ul style="list-style-type: none">• ymholiad anwir,• methiant i ddatgelu gwybodaeth,• camddefnyddio statws swydd. <p>Mae ymholiadau anwir yn cynnwys y bwriad i weithredu mewn modd a fydd yn peri i chi neu rywun arall ymelwa, neu'n amlygu rhywun arall i'r perygl o golled.</p> <p>Mae cyhoeddiad CIPFA "Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus", "The Public Sector Internal Audit Standards" yn diffinio twyll yn ei Eirfa fel: <i>unrhyw weithred anghyfreithlon a gaiff ei nodweddu gan gelwydd, cuddio neu'n mynd yn groes i ymddiriedaeth. Nid yw'r gweithredoedd hyn yn dibynnu ar fygythiad o drais neu rym corfforol. Caiff achosion o dwyll eu gweithredu gan bartïon a sefydliadau er mwyn cael arian, eiddo neu wasanaethau; er mwyn osgoi talu neu golli gwasanaethau; neu er mwyn sicrhau mantais bersonol neu fantais i fusnes.</i></p>
Llygredd	<p>Mae Cynllun Gwrthlygredd Llywodraeth y DU, HM Government's UK Anti-Corruption Plan yn nodi nad oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer 'llygredd'. Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys 'Transparency International' yn diffinio llygredd fel camddefnyddio pŵer a ymddiriedwyd er mwyn elwa'n bersonol. Mae Banc y Byd yn diffinio arfer 'llwgr' fel cynnig, rhoi, derbyn neu fynnu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw beth o werth i ddylanwadu'n amhriodol ar weithredoedd parti arall.</p>
Llwgwrwbrwyo	<p>Mae Deddf Llwgwrwbrwyo 2010, The Bribery Act 2010 yn nodi troseddau llwgwrwbrwyo fel:</p> <ul style="list-style-type: none">• Llwgwrwbrwyo person arall,• troseddau sy'n ymwneud â chael eich llwgwrwbrwyo.

Tudalen 35

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Llwgwobrwyo (parhad)	<p>Gellir amddiffyn yr achos os oedd yr ymddygiad yn angenrheidiol am resymau penodol.</p> <p>Mae canllawiau Gweinyddiaeth Gyfiawnder 2010 yn diffinio llwgwobrwyo fel: <i>rhoi mantais ariannol neu fantais arall i annog y person hwnnw i gyflawni ei swyddogaethau neu ei weithgareddau mewn modd amhriodol neu i wobrwyo'r person hwnnw am fod wedi gwneud hynny eisoes.</i></p> <p>Mae sefydliadau masnachol yn atebol am fethiant i ddangos bod gweithdrefnau digonol ar waith i atal y troseddau hyn rhag digwydd.</p>
Gwyngalchu Arian	<p>Gwyngalchu arian yw'r term a ddefnyddir am nifer o droseddau sy'n cynnwys yr enillion sy'n deillio o droseddau neu derfysgaeth. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002, yn nodi'r prif droseddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cuddio neu newid eiddo troseddol neu ei drosglwyddo eiddo neu ei symud o'r DU (adran 327);• Ymrwymo i neu drefniant rydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn hwyluso'r broses o gaffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol gan neu ar ran person arall (adran 328) neu gymryd rhan mewn trefniant o'r fath; a• Caffael, defnyddio neu feddu ar eiddo troseddol (adran 329) <p>Hefyd, mae dwy drosedd ar wahân ychwanegol:</p> <ul style="list-style-type: none">• methiant i ddatgelu unrhyw un o'r prif droseddau (adrannau 330-332) a• rhybuddio rhywun (tipping off) (adran 333). <p>Rhybuddio rhywun yw pan fydd rhywun yn hysbysu person neu bobl sy'n rhan o achos o wyngalchu arian, neu yr amheuir eu bod yn rhan o'r achos, mewn ffordd a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd y cynhelir ymchwiliad iddynt neu'n arwain at ragfarn mewn perthynas ag ymchwiliad.</p> <p>Gellir amddiffyn yr achos mewn modd penodol pan fydd esgus rhesymol neu pan fydd y datgeliad wedi'i awdurdodi.</p> <p>Er bod y risg y bydd y Cyngor yn mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth hon yn isel, mae'n hynod bwysig bod pob cyflogai yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau cyfreithiol: mae sancsiynau troseddol difrifol yn gysylltiedig â thorri'r ddeddfwriaeth.</p> <p>Y gofyniad allweddol ar gyflogeion yw adrodd yn brydlon ar unrhyw weithgareddau gwyngalchu arian a amheuir i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.</p>

Meysydd Risg


Camymddygiad Asedau	Yn digwydd pan fydd y rheini yr ymddiriedir ynddynt i reoli asedau sefydliad yn dwyn ohono. Gall asedau gynnwys arian parod, cyfwerth ag arian parod, asedau corfforol ond hefyd ddata neu eiddo deallusol	Cofnodion cyflogres ffug Cardiau prynu
Llwgwobrwyo & Llygredd	Cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i berson arall gyda'r bwriad o'i gymell i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd amhriodol neu ei wobrwyo am yr un peth	Cam-drin tendrau Sicrhau dêl
Camddatganiad & Cham-adrodd	Cam-recordio, cam-drin a cham-adrodd yn fwriadol am elfennau o berfformiad cwmni neu wybodaeth ffeithiol arall. Gall hyn fod yn rhan o nodau mewnol neu ofynion cytundebol neu ddeddfwriaethol	Adrodd Rheoliadol
Perthnasau Trydydd Parti	Mae risg twyll yn cynyddu wrth weithredu amryw o berthnasau trydydd parti sydd ddim o dan reolaeth uniongyrchol sefydliad. Efallai na fydd amcanion, rheolaethau a safonau moesegol yn cyd-fynd	Gorgodi tâl Amnewid deunydd
Twyll Gwybodaeth a Seibir	Yn digwydd trwy hacio seibir soffistigedig ac yn manteisio ar wendidau corfforol ac ymddygiadol i ddwyn gwybodaeth hanfodol ac eiddo deallusol	Manylion cleientiaid Manylion corfforaethol
Gwrthdaro Buddiannau	Yn digwydd pan fydd gweithwyr mewn sefyllfa fuddiannol iddynt hwy eu hunain, neu i drydydd parti sy'n agos atynt, gan gynnwys aelodau teuluol neu ffrindiau	Cyflenwr sy'n eiddo i weithiwr

Tudalen 37

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)


Graddfa Twyll yn y Sector Cyhoeddus

Yn ôl CIPFA, y mathau canlynol o dwyll yw'r rhai mwyaf cyffredin:



- 1 'Dyled' yw osgoi talu dyled ac eithrio'r Dreth Gyngor,
- 2 Mae 'twyll arall' yn cynnwys gofal cymdeithasol, caffael, yswiriant, grant, pensiynau, buddsoddiadau, cyflogres a threuliau.

Nodau ac amcanion



Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i'r cyhoedd i ddiogelu arian y dylid ei ddefnyddio er budd y cyhoedd. Mae ymddygiad twyllodrus ar y raddfa hon yn bygwth yr Awdurdod; felly mae lefel uchel o ymrwymiad i sicrhau bod strategaeth effeithiol ar waith gyda'r nod o atal, darganfod, a ymchwilio.

*Nodi llwybr clir ar gyfer ymchwilio i achosion o dwyll, llwgwobrwyo a llygredd, ac unrhyw gamymddygiad arall gan gynnwys gwyngalchu arian.

Bydd hyn yn caniatáu defnyddio arian cyhoeddus ar wasanaethau cyhoeddus (gan hybu'r economi, buddsoddi yn nyfodol pobl, caniatáu gwydnwch unigol a theuluol, a hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol) yn hytrach na chael ei golli i dwyll.

Tudalen 38

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

2. Diwylliant, Cyfrifoldeb ac Atal

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo diwylliant sy'n gallul gwrthsefyll bygythiadau o dwyll a llygredd. Mae'r Cyngor yn benderfynol y dylai diwylliant a naws y sefydliad gynnal gonestrwydd ac uniondeb. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn rheoli ei risgiau o ran twyll a llygredd a bydd yn atebol am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd drwy ei adroddiadau a'i weithdrefnau llywodraethu.

Mae'r Cyngor yn cynnal nod penodol o sicrhau a chynnal ei allu i wrthsefyll twyll a llygredd, ac yn ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau arbedion ariannol/atal colled ariannol drwy weithgareddau darganfod ac atal manylach.

Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor, [Financial Regulations](#) (para 1.8.3) yn nodi "na fydd y Cyngor, mewn perthynas ag atal twyll a llygredd, yn goddef twyll, llygredd nac unrhyw achosion o gamymddwyn wrth weinyddu ei gyfrifoldebau, boed hynny o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r Cyngor. Disgwiliad y Cyngor o ran priodoldeb ac atebolrwydd yw bod Aelodau a chyflogeion ar bob lefel yn arwain drwy esiampl gan sicrhau eu bod yn cadw at ofynion, rheolau, gweithdrefnau ac arferion cyfreithiol. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl y bydd unigolion a sefydliadau (e.e. cyflenwyr, contractwyr, darparwyr gwasanaethau) y daw i gysylltiad â hwy yn ymddwyn tuag at y Cyngor gydag uniondeb a heb ddangos meddyliau neu weithredoedd sy'n ymwneud â thwyll a llygredd."

Rolau a Chyfrifoldebau

Rol	Cyfrifoldeb
Aelodau Etholedig	Fel cynrychiolwyr etholedig, mae dyletswydd ar bob Aelod o'r Cyngor i amddiffyn arian y Cyngor a'r cyhoedd rhag unrhyw weithredoedd o dwyll a llygredd. Gwneir hyn drwy arferion sy'n bodoli eisoes, cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, Cyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
Swyddog Monitro	<p>Y Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod o fewn y gyfraith. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad drwy'r Awdurdod cyfan drwy ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol gan gynnwys codau ymddygiad a safonau a pholisïau eraill, ynghyd â threfniadau adrodd a gorfodi priodol.</p> <p>Y Swyddog Monitro yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Ef neu hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â gofynion statudol y Fenter Twyll Genedlaethol. Y Swyddog Monitro yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol hefyd.</p>

Tudalen 39

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

<p>Swyddog Adran 151</p>	<p>Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau statudol fel y'u diffiniwyd gan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y "Swyddog Adran 151") ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol.</p> <p>Mae 'gweinyddu priodol' yn cwmpasu pob agwedd ar reolaeth ariannol o fewn awdurdodau lleol gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifyddu ac archwilio mewnol. O dan y cyfrifoldebau statudol hyn mae'r Swyddog Adran 151 yn cyfrannu at fframwaith atal twyll a llygredd yr Awdurdod.</p> <p>Dylid adrodd ar bob achos o dwyll neu afreoleidd-dra a amheuir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael – gweler Pwynt 5 isod. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn Swyddog adrodd ar Wyngalchu Arian – gweler Pwynt 6 isod.</p>
<p>Archwilio Mewnol</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn amddiffyn gwerth y sefydliad drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol. Mae'n gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Bydd hyn yn helpu i atal y cyfleoedd o ran twyll, er nad dyma'r prif nod neu gyfrifoldeb.</p> <p>Efallai y bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal ymchwiliad o ganlyniad i unrhyw afreoleidd-dra – gweler Pwynt 5 isod.</p> <p>Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn darparu Adroddiad Archwilio Mewnol Blynnyddol ar Atal Twyll ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol i atal twyll.</p>
<p>Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau</p>	<p>Caiff yr holl bwerau o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Twyll) 1992, Social Security (Fraud) Act 1992 eu harfer gan wasanaeth Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys y gwaith o ymchwilio i achosoion honedig o dwyll yn ymwneud â budd-dal tai.</p> <p>Mae gan y Cyngor y pŵer i ymchwilio i dwyll sy'n ymwneud â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cynhwysir y pwerau hyn o fewn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013, The Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013.</p>
<p>Archwilwyr Allanol</p>	<p>Ar hyn o bryd mae rôl yr Archwilwyr Allanol yn cael ei gweithredu gan Archwilio Cymru, a all, fel arall, benodi corff cymeradwy arall i weithredu'r rôl hon ar ei rhan. Mae'r rôl hon yn cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio datganiadau ariannol y Cyngor • Ystyried risgiau camddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon oherwydd twyll • Ardystio grantiau dynodedig • Aseu trefniadau gwerth am arian y Cyngor • Gwerthuso perfformiad a gwelliant y Cyngor, ac • Adolygu i ba raddau mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Tudalen 40

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Pob Cyflogai	<p>Disgwylir i gyflogeion yr Awdurdod gadw at y ‘Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol’ a weithredir gan yr Awdurdod yn ogystal ag unrhyw god ymddygiad sy’n ymwneud â’u cymwysterau proffesiynol personol. Mae Cod yr Awdurdod yn cynnwys safonau a rheolau disgwylidig i gynnwys y rhai sy’n ymwneud â datgan buddiant personol, lletygarwch a rhoddion.</p> <p>Mae’n ofynnol i bob un o Aelodau a chyflogeion yr Awdurdod ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ac unrhyw gynnig o roddion neu letygarwch sydd mewn unrhyw ffordd yn ymwneud â chyflawni eu dyletswyddau. Mae’n ofynnol i Brif Swyddogion wneud hyn yn flynyddol. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddatgelu unrhyw fuddiannau, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, mewn perthynas â busnes yr Awdurdod e.e. cysylltiadau personol agos, contractau, cyfarwyddiaethau, bod yn aelod/glerc mewn cynghorau Trefol/cymunedol.</p> <p>Caiff digonolrwydd a phriodoldeb rheolaethau mewnol, gweithdrefnau rheoli risg a llywodraethu yr awdurdod eu hadolygu’n annibynnol drwy archwiliad mewnol ac allanol. Bydd systemau sain yn caniatáu ar gyfer arloesi ond hefyd yn lleihau’r cyfle ar gyfer twyll neu unrhyw achos arall o gamddefnyddio. Dylai rheolwyr ymateb yn gadarnhaol i argymhellion archwiliadau allanol a mewnol os deir o hyd i unrhyw wendidau yn eu meysydd cyfrifoldeb, drwy weithredu’r holl gamau sydd eu hangen i sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith ac yn gweithredu yn unol â’r disgwyl.</p> <p>Mae’r systemau TGCh a ddefnyddir gan y Cyngor yn logio’r defnydd o’r rhyngwyd, e-bost, ffonau a systemau cymhwyso i gyfeiriad cyfrifiadur personol/gliniadur a rhif ffôn / rhif estyniad unigolion. Caiff pawb sy’n defnyddio systemau TGCh a ffôn eu hysbysu’n ffurfiol y caiff y logiau hyn eu monitro o bryd i’w gilydd gan gymryd camau priodol mewn perthynas ag unrhyw achos o gamddefnyddio.</p>
Recriwtio	<p>Mae’r Awdurdod yn cydnabod mai mesur ataliol wrth geisio atal twyll a llygredd yw cymryd camau effeithiol ar yr adeg recriwtio er mwyn creu cofnod o ddarpar gyflogeion yn nhermau eu priodoldeb a’u huniondeb. Felly, mae’n ofynnol i’r broses o recriwtio staff gyd-fynd â pholisïau Adnoddau Dynol yr Awdurdod, gan gynnwys Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Recriwtio Diogel.</p>
Cyhoedd	<p>Er bod y polisi hwn wedi’i anelu’n bennaf at y rhai o fewn y Cyngor, disgwylir hefyd y byddai aelodau o’r cyhoedd yn adrodd ar unrhyw ymddygiad twyllodrus er mwyn ymchwilio iddo yn ôl yr angen.</p>

Tudalen 41

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

3. Darganfod ac Ymchwilio

Y Grŵp Arwain a'r rheolwyr sy'n bennaf cyfrifol am atal a darganfod unrhyw achosion o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyngor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru i daclo twyll yn effeithiol (e.e. ['Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru](#) a'r [Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-2020](#)).

Mae rheolwyr yn creu cynlluniau busnes sy'n cynnwys risgiau eu busnes - gellir cynnwys twyll fel risg os bernir bod hynny'n briodol, gan nodi camau lliniaru. Mae rheolwyr yn defnyddio'r Meini Prawf Asesu Risg i sgorio'r risg o isel i ddifrifol. Mae rheolwyr yn sgorio'r risg o dwyll ar sail ei debygolrwydd (annhebygol i bendant), effaith y risg (dibwys i ddifrifol) ar sefyllfa ariannol y Cyngor, y gwasanaethau a ddarperir, iechyd a diogelwch ac ati. Os oes gan risg sgôr digon uchel caiff ei ychwanegu at Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ac adroddir arno i'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd y Cyngor yn defnyddio dulliau o gydweithio a/neu bartneriaeth a chyfleoedd i reoli ei risgiau, lle y bo'n bosibl ac yn briodol.

Bydd y Cyngor yn hyrwyddo dull rhagweithiol ac adweithiol o ddarganfod a gorfodi. Ymhlith y camau a gymerir o fewn y Cyngor sy'n gallu darparu dangosyddion ar gyfer unrhyw weithgareddau twyllodrus mae:

Rhagweithiol

Cynnal adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o systemau lle y mae incwm a/neu wariant sylweddol ynghlwm wrthynt, e.g. grantiau	Sicrhau archwiliadau rheolaidd o'r rheolaethau allweddol sy'n bresennol o fewn prif systemau ariannol yr Awdurdod, e.e. cyflogres, taliadau credydwy, ac ati	Defnyddio technegau fel dadansoddi data i ddilysu data lle bo'n briodol, e.e. defnydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol o feddalwedd ActiveData.
Rhoi cyhoeddusrwydd i ddogfen yr Awdurdod ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth, a pholisïau perthnasol eraill	Gwneud defnydd o fentrau cenedlaethol a lleol i ddarganfod/atal twyll e.e. ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol	Rhoi cyhoeddusrwydd i safle gwrth-dwyll a llygredd y Cyngor, a'r camau a gymerir yn erbyn twyllwyr
Gweithredu ar hysbysiadau gan CIPFA, y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol a chyrrff allanol eraill all rybuddio'r Cyngor ynghylch unrhyw dwyll cenedlaethol/corfforaethol sydd ar droed	Sicrhau bod rhif llinell gymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hawdd i'w ganfod	Ymateb i unrhyw hysbysiadau a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol, grwpiau rhwydweithio eraill ac ati, yn rhoi gwybod am unrhyw ymdrechion/achosion o dwyll maent wedi'u hwynebu/cael gwybod amdanynt

Tudalen 42

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Adweithiol

Darganfod twyll drwy ddadansoddi data a chuddwybodaeth	Ymchwilio i gyfeiriadau ar achosion o dwyll	Gweithredu trefniadau chwythu'r chwiban effeithiol	Hyrwyddo'r defnydd o sancsiynau a'u cymhwyso, gan gynnwys rhai mewnol, ymddygiad, rheoleiddiol a throseddol
	Ceisio gwneud iawn, gan gynnwys adennill asedau ac arian lle y bo'n bosibl		

Er gwaethaf ymdrechion gorau cyflogeion, caiff achos o dwyll ei ddarganfod yn aml o ganlyniad i siawns neu 'rybudd'. Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i ymdrin ag achosion o'r fath yn gywir. Gall hyn fod trwy gymhwyso dogfennau'r Awdurdod, megis y Codau Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol, System Cwynion, dogfen Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth a/neu Bolisi Chwythu'r Chwiban, yn ogystal â'r Strategaeth hon.

Yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod (Pwynt 1.8.3), dylid adrodd pob achos o dwyll neu afreoleidd-dra a amheuir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael a/neu'r Rhelower Corfforaethol - Archwilydd Mewnol. Gellid hefyd ei adrodd i'r Swyddog Monitro, o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban.

Tra'n disgwyl proses ymchwilio ac adrodd, bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i atal colled pellach a diogelu cofnodion a dogfennaeth rhag cael eu symud neu eu haddasu. Efallai y bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i gryfhau gweithdrefnau a sicrhau nad yw achos o'r fath yn digwydd eto.

Bydd yr ymchwiliad i dwyll yn dibynnu ar natur yr achos. Efallai y bydd angen i Swyddog Ymchwilio a benodwyd gynnal ymchwiliad mewnol, a allai arwain at gamau gweithredu i ddisgyblu. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael, gellid cyfeirio'r ymchwiliad at yr Heddlu neu gorff allanol priodol arall.

4. Rhwystro ac Ymwybyddiaeth

Pan fydd unigolion yn ystyried ymddwyn mewn modd twyllodrus, maent yn ystyried y wobwr yn erbyn y risg sydd ynghlwm wrth y gweithredoedd. Os caiff ymddygiad twyllodrus ei ganfod a'i drin â chosbau difrifol, mae'n cynyddu'r ffactor risg sydd yn ei dro yn lleihau'r tebygolrwydd o weithredu'n dwyllodrus. Felly, mae codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau cael eich canfod yn gwella effeithiolrwydd dulliau rhwystro fel:

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod yr Awdurdod yn gweithredu'n gadarn mewn perthynas â thwyll, llygredd ac unrhyw achos o gamymddwyn, ac yn nodi hyn ar bob cyfle priodol, e.e. cymalau mewn contractau, datganiadau ar ffurflenni hawlio, gwefannau a chyhoeddiadau.

Gweithredu'n gryf ac yn benderfynol pan gaiff unrhyw achos o gamymddwyn ei amau a'i brofi e.e. rhoi terfyn ar gontract, diswyddo cyflogai, erlyn twyllwyr.

Tudalen 43

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)


Cymryd camau i sicrhau'r adferiadau mwyaf posibl ar gyfer yr Awdurdod, e.e. drwy gytundeb, achos llys, dirwyon.

5. Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd

Bydd cyflawnwyr penderfynol bob amser yn dod o hyd i ffordd o amgylch systemau a gweithdrefnau. Felly, mae'n rhaid i bob swyddog ac Aelod fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol os bydd achos o dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd a amheuir yn codi. Mae'n hanfodol bwysig bod y cynllun yn cael ei ddilyn gan bawb dan sylw er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei thrin yn broffesiynol ac i ddiogelu yn erbyn cyfaddawdu'r achos.

Hysbysu am Dwyll neu Lygredd a Amheuir

Caiff staff ac Aelodau etholedig yr Awdurdod eu hannog yn gadarnhaol i godi pryderon ynghylch twyll, llwgwrwbrwyo a llygredd a amheuir. Gallant wneud hyn yn hyderus y caiff pryderon o'r fath eu trin yn gyfrinachol, cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth resymol i amheuaeth o weithredu'n anghywir. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw honiad o unrhyw fath, gan gynnwys llythyrau neu alwadau ffôn, yn cael eu hystyried a'u hymchwilio'n drylwyr mewn dull priodol. Dylid adrodd unrhyw achosion ar frys. Y llwybr arferol ar gyfer mynegi pryder fyddai drwy reolwyr llinell.



Tudalen 44

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Ar achlysur lle nad yw hyn yn briodol, gellid llwybr ac eithrio eu rheolwr llinell normal i godi pryderon o'r fath, er enghraifft drwy:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael/swyddog adran 151	Stephen Johnson 01970 633110 stephen.johnson@ceredigion.gov.uk
Prif Weithredwr	Eifion Evans 01545 572021 eifion.evans@ceredigion.gov.uk
Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol	Amanda Roberts 01970 633320 amanda.roberts@ceredigion.gov.uk
Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/ Swyddog Monitro	Elin Prysor 01545 572120 elin.prysor@ceredigion.gov.uk
Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Pobl a Threfniadau	Geraint Edwards 01545 572019 geraint.edwards2@ceredigion.gov.uk
Archwilio Cymru	02920 320500 info@audit.wales
Swyddog Arweiniol Corfforaethol eraill	Gweler Cyfeiriadur y Cyngor
Arweinydd y Cyngor; Cabinet neu Aelodau eraill	Gweler Wefan y Cyngor

Ymchwilio i Dwyll, Llwgwobrwyo neu Lygredd a Amheuir

Unwaith yr amheuir bod achos o dwyll wedi digwydd, mae'n hanfodol bod unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn dull proffesiynol gyda'r nod o sicrhau bod buddiannau cyfredol, a darpar fuddiannau, y Cyngor a'r unigolyn/unigolion a amheuir yn cael eu hamddiffyn. Mae'r olaf cyn bwysiced â'r cyntaf am na ddylai amheuaeth gael ei hystyried yn awtomatig fel euogrwydd.

Mae gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod brofiad o ymchwilio i dwyll. Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol a'r Rheolwr Archwilio yn meddu ar Dystysgrif Ymarfer Ymchwilio CIPFA (CCIP). Mae'r Uwch Archwiliwr yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech). Yn unol â deddfwriaeth berthnasol a Rheoliadau Ariannol y Cyngor (Pwynt 1.8.2) mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol awdurdod i:

- mynd i fewn i eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol,
- cael mynediad i'r holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor.
- gofyn am a derbyn unrhyw wybodaeth ac eglurhad yr ystyrir eu bod yn

Tudalen 45

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

- angenrheidiol sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan ystyriaeth/ archwiliad,
- d) gofyn i unrhyw gyflogai sy'n gweithio i'r Cyngor roi cyfrif am arian, storffeydd neu unrhyw eiddo arall y Cyngor o dan ei reolaeth ef/ rheolaeth hi, a
- e) cael mynediad i gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, fel contractwyr neu asiantaethau partner, yn unol â'r telerau cytundebol perthnasol.

Felly, efallai y bydd yn briodol gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal ymchwiliad. Fodd bynnag, os bydd yr honiadau o natur broffesiynol neu gamymddwyn arbenigol iawn, efallai y bydd angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael benodi arbenigwr arall fel y Swyddog Ymchwilio. Mae'r Cyngor o bryd i'w gilydd yn hyfforddi 'cronfa' o ymchwilwyr mewnol ar draws yr holl wasanaethau; ac mae rhai staff gorfodi wedi derbyn hyfforddiant PACE.

Trefniadau Adrodd

Unwaith y bydd cam "darganfod" cychwynnol yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, dylai'r Swyddog Ymchwilio lunio Adroddiad Interim cyfrinachol ysgrifenedig yn unol â'r broses adrodd gytûn.

Dylai'r Adroddiad Interim nodi'r canfyddiadau hyd yma a'r casgliadau interim a ddaw o'r canfyddiadau hynny. Bydd hyn yn helpu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am y maes yr ymchwilir iddo i benderfynu a ddylai'r ymchwiliad barhau i'r lefel nesaf.

Os bwriedir parhau â'r achos, bydd angen sicrhau bod y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac archwilwyr allanol yr Awdurdod yn ymwybodol o'r achos. Caiff Adroddiad Terfynol ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r holl waith ymchwilio angenrheidiol.

Ni fydd fformat yr Adroddiad Terfynol yr un fath bob tro am fod pob achos yn unigryw, ond yn aml bydd yn nodi:

- Sut y daeth yr ymchwiliad i'r amlwg,
- Pwy sy'n cael eu hamau,
- Eu swydd yn y Cyngor a'u cyfrifoldebau,
- Sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad,
- Y ffeithiau a'r dystiolaeth a nodwyd, a (lle y bo'n briodol),
- Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion.

Fel arfer caiff unrhyw wendidau a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad eu hadrodd ar wahân mewn adroddiad archwilio mewnol.

Tudalen 46

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Bydd yr Adroddiad Terfynol yn disodli'r holl adroddiadau eraill ac yn cael ei ystyried fel y ddogfen ddiffiniol y bydd y tîm rheoli (mewn sefyllfa ddisgyblu) ac o bosibl yr heddlu (mewn sefyllfa droseddol) yn seilio'u penderfyniadau cychwynnol arni.

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau gael eu cefnogi gan y dystiolaeth gryfaf a dylid osgoi cynnwys y gellid ystyried ei fod yn ddifennol petai'r adroddiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus.

Yn ôl y gyfraith, diffinnir difenwad fel: "the publication of a statement which tends to lower a person in the estimation of right-thinking members of society generally or which tends to make them shun or avoid that person". [Winfield]

Cyfathrebu â'r Heddlu

Dim ond yn dilyn trafodaeth rhwng y Swyddog Ymchwilio, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro y dylid gwneud cyswllt cychwynnol â'r Heddlu, gan mai nhw fydd yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater ar gyfer ymchwiliad pellach.

Pan fydd achos yn cynnwys person sy'n agored i niwed, caiff y penderfyniad ei wneud gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Tîm Diogelu.

Polisi'r Heddlu yw croesawu hysbysiad cynnar o achos o dwyll a amheuir. Bydd yr Heddlu yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater at Wasanaeth Erllyn y Goron er mwyn cael penderfyniad ynghylch a ddylid erlyn y sawl a amheuir am gyflawni trosedd.

Os bydd yr Heddlu yn penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, disgwylir ac mae'n ofynnol i bob aelod o staff gydweithredu'n llawn ag unrhyw geisiadau neu argymhellion dilynol. Fel arfer bydd pob cyswllt â'r Heddlu yn dilyn eu cyfranogiad cychwynnol yn digwydd drwy'r Swyddog Ymchwilio.

Pan fydd yr Heddlu yn penderfynu cynnal ymchwiliad ffurfiol, ni fydd hyn, os yw'n bosibl, yn dangos rhagfarn tuag at unrhyw weithdrefnau disgyblu mewnol; dylai'r rhain barhau fel arfer. Fodd bynnag, dylai'r ymchwiliad mewnol ac ymchwiliad yr Heddlu, lle bynnag a phryd bynnag y bo'n bosibl, gael eu cydlynu i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a gwybodaeth.

Caiff hunaniaeth y cyflogai sy'n hysbysu'r Heddlu ei diogelu cyhyd ag y bo'n bosibl, yn unol â pholisi Chwythu'r chwiban.

Camau disgyblu

Bydd yr Awdurdod yn ymdrin ag unrhyw achosion o gamymddwyn yn gyflym ac yn drylwyr. Bydd cyflogaion yn wynebu camau disgyblu neu gamau eraill yn unol â Pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor.

Tudalen 47

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Caiff camau disgyblu neu gamau eraill eu cymryd yn ogystal â, neu yn lle achos troseddol (mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol), yn unol â Pholisi Disgyblu'r Cyngor.

Adnoddau

Bydd y Cyngor yn:

- Gwneud asesiad blynyddol i wirio a yw'r lefel o adnoddau a fuddsoddwyd i atal twyll a llygredd yn briodol ar gyfer lefel y risg, yn ei ymateb blynyddol i'r archwiliwr allanol ynghylch materion sy'n gysylltiedig â thwyll.
- Defnyddio cymysgedd priodol o staff profiadol a medrus.
- Caniatáu mynediad di-rwystr i'w gyflogeion, gwybodaeth ac adnoddau eraill fel y bo'n angenrheidiol at ddibenion ymchwilio.
- Defnyddio cyfleusterau cydweithio a phartneriaeth, yn ogystal â rhannu data a chudd-wybodaeth i gefnogi gweithgareddau gwrth-dwyll.

6. Gwrth-Wyngalchu Arian

Daeth Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth (Diwygio) 2019, ([The Money Laundering and Terrorist Financing \(Amendment\) Regulations 2019](#)) i rym ar 10 Ionawr 2020 ac maent yn gosod y diwygiadau i Reoliadau Gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth ar y Talwr) 2017, ([Money Laundering, Terrorist Financing and Transfer of Funds \(Information on the Payer\) Regulations 2017](#)). Mae Rheoliadau 2019 yn gweithredu 5ed Cyfarwyddeb yr UE ar Wyngalchu Arian.

Mae Rheoliadau 2017 yn berthnasol i "bersonau perthnasol" sy'n gweithredu mewn perthynas â'r busnes a gynhaliwyd ganddynt yn y DU. Mae personau perthnasol bellach yn rhwymedig i fabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar risgiau o ymdrin â gwrthwyngalchu arian, yn arbennig sut maent yn gweithredu diwydrwydd dyladwy.

Nid yw holl fusnes y Cyngor yn berthnasol at ddibenion y ddeddfwriaeth; fodd bynnag, y ffordd fwyaf diogel o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith yw eu cymhwyso i bob maes gwaith.

Felly mae'n ofynnol i bob aelod o staff gydymffurfio â'r weithdrefn adrodd a nodir yn y polisi.

Y rhwymedigaethau ar y Cyngor yw:

- Penodi Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian i dderbyn datgeliadau gan gyflogeion am weithgareddau gwyngalchu arian;
- Gweithredu gweithdrefn i alluogi'r broses o adrodd ar amheuan o wyngalchu arian;
- Cynnal gweithdrefnau nodi cleientiaid mewn amgylchiadau penodol;
- Cynnal gweithdrefnau cadw cofnodion; a

Tudalen 48

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

- Cynnal asesiad risg o weithgareddau gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth a mabwysiadu rheolaethau mewnol priodol.

Y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian

Y swyddog a enwebwyd i dderbyn datgeliadau ynghylch gweithgareddau gwyngalchu arian o fewn y Cyngor yw'r Swyddog Aweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) y gellid cysylltu ag ef fel a ganlyn:

Stephen Johnson
Cyllid a Chaffael
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
SY23 3UE
Ffôn: 01970 633110

Nodi unrhyw sefyllfaoedd gwyngalchu arian posibl

Gall y canlynol achosi i gyflogeion amau achos o wyngalchu arian, a dylid ei adrodd ar unwaith i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian:

- Trafodyn sy'n cynnwys llawer o arian,
- Gwneud taliad arian parod lle mae'n rhaid gwneud ad-daliad yn ddiweddarach,
- Cwsmer cyfrinachol, e.e. gwrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani heb eglurhad rhesymol,
- Pryderon ynghylch lleoliad neu hunaniaeth cwsmer,
- Addasu llwybr neu dderbyn arian gan drydydd partïon yn ddiangen neu drwy gyfrifon trydydd parti,
- Cyfranogiad trydydd parti heb gyswllt heb reswm cyfreithlon,
- Dim ffynonellau arian cyfreithlon amlwg,
- Rheolaethau cyfrifyddu mewnol neu gofnodion busnes gwan,
- Trafodyn blaenorol ar gyfer yr un cwsmer y dylid bod wedi'i adrodd neu sydd wedi'i adrodd i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian,
- Unigolion neu gwmnïau sydd ag arian er eu bod yn ansolfent,
- Diffyg modd o olrhain y bobl sydd ynghlwm wrth yr achos.

Taliadau arian parod

Ni chaiff unrhyw daliad i'r Cyngor sy'n fwy na £5,000 ei dderbyn mewn arian parod (gan gynnwys papurau, darnau arian neu sieciau teithwyr mewn unrhyw arian cyfred) heb gymeradwyaeth y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

Tudalen 49

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Adrodd i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian

Os gofynnir i gyflogeion casglu taliad sy'n fwy na £5,000 mewn arian parod mae'n rhaid iddynt ddarparu manylion i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd a atodir yn Atodiad 1, er mwyn cyflawni gwiriadau rhagofalus. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys cymaint o fanylion â phosibl. Nid yw hyn yn golygu na ddylai trafodion islaw'r swm hwn godi amheuan. Dylid arfer ymwybyddiaeth broffesiynol ar bob adeg, gan ystyried y ffactorau uchod.

Os bydd gan gyflogai sail resymol dros amau bod gweithgareddau gwyngalchu arian yn digwydd mewn perthynas â swm llai, dylid adrodd y mater i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn yr un ffordd.

Yna, mae'n rhaid i'r cyflogai ddilyn yr holl gyfarwyddiadau gan y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian ac ni ddylai wneud unrhyw ymholiadau pellach i'r mater eu hunain. Yn ogystal, ni ddylent gymryd unrhyw gamau pellach o ran y trafodyn heb gael awdurdod y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

Er mwyn atal y sawl a amheuir rhag ddod yn ymwybodol o'r amheuaeth, ni ddylai'r cyflogai drafod y mater gydag eraill na nodi ar ffeil bod adroddiad wedi cael ei wneud i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian.

Bydd y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn gwerthuso amgylchiadau pob achos a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid adrodd y mater i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) drwy ei [gwefan](#) neu drwy'r llinell gymorth 24 awr: 0370 496 7622.

Pan ddaw'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian i'r casgliad nad oes sail resymol dros amau achos o wyngalchu arian yna gellid marcio'r adroddiad yn briodol a rhoi caniatâd i unrhyw drafodion parhaus neu drafodion sydd ar fin digwydd fynd rhagddynt.

Mae'n drosedd os bydd y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian yn gwybod neu'n amau, drwy dderbyn datgeliad, bod person arall ynghlwm wrth weithgareddau gwyngalchu arian ac nad yw'n datgelu hyn cyn gynted â phosibl i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau a wneir gael eu cadw gan y Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian mewn ffeil gyfrinachol a gedwir at y diben hwnnw, am isafswm o bum mlynedd.

Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid

Rheoliad 28 Mesurau diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid – [Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth \(Diwygio\) 2019](#), [Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd \(Gwybodaeth ar y Talwr\) 2017](#)

Pan fydd y Cyngor yn cynnal busnes rheoledig (cyfrifyddiaeth, gwasanaethau archwilio a threth a gwasanaethau cyfreithiol, sy'n ymwneud â thrafodion ariannol, cwmni neu eiddo), a bod rhan o'r busnes hwn yn:

- Ffurio perthynas fusnes barhaus gyda chleient,

Tudalen 50

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

- Ymgymryd â thrafodyn sengl neu achlysurol sy'n dod i €15,000 neu fwy, boed yn un trafodyn neu'n gyfres o drafodion, neu
- Arwain at amheuaeth o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth:

yna mae'n rhaid dilyn y Weithdrefn Diwydrwydd Dyladwy cyn ymgymryd ag unrhyw fusnes ar gyfer y cleient hwnnw.

Mae diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn golygu:

- Nodi'r cwsmer a gwirio hunaniaeth y cwsmer ar sail y wybodaeth a dderbynnir gan ffynhonnell ddibynadwy ac annibynnol, e.e. cynnal chwiliad yn Nhŷ'r Cwmnïau.
- Cael gwybodaeth am y diben a natur fwriadedig y berthynas fusnes.

Pan fydd y "busnes perthnasol" yn cael ei ddarparu i gorff sector cyhoeddus arall yn y DU yna dylid cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig, wedi'u llofnodi ar bapur pennawd y corff cyn i'r trafodyn gael ei gwblhau.

Mae'r gofyniad am ddiwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn berthnasol ar unwaith ar gyfer cwsmeriaid newydd a dylid ystyried hyn ar sail sensitif i risg ar gyfer cwsmeriaid cyfredol. Mae diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor wybod ei gleientiaid a deall eu busnesau er mwyn pennu lle y mae gweithgareddau amheus y dylid adrodd arnynt.

Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod y Cyngor yn adnabod ei gwsmeriaid ac yn gwirio'r hunaniaeth honno ar sail dogfennau, data neu wybodaeth a ddaw o ffynhonnell ddibynadwy. Pan fydd perchennog buddiol ond nad yw'n gwsmer, yna mae'n rhaid i'r Cyngor adnabod y person hwnnw a gwirio'r hunaniaeth. Pan fydd y perchennog buddiol yn ymddiriedolaeth neu'n sefydliad tebyg, yna mae'n rhaid i'r Cyngor ddeall natur strwythur reoli'r ymddiriedolaeth honno. Yn olaf, mae'n rhaid i'r Cyngor gael gwybodaeth ar ddiben a natur fwriadedig y berthynas fusnes. Mae Rheoliadau 2017 yn cyflwyno'r angen i'r Cyngor ystyried ffactorau risg o ran cwsmeriaid a daearyddiaeth wrth bennu pa diwydrwydd dyladwy sy'n briodol.

Mae'n rhaid i'r gwiriadau hyn yn gyffredinol gael eu cynnal gan y Cyngor cyn iddo sefydlu perthynas fusnes neu gyflawni trafodyn achlysurol, neu os mae'n amau achos o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth neu'n amau gwirionedd unrhyw wybodaeth a gafwyd at ddibenion adnabod neu wirio. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gynnal y gwiriadau hyn os awdurdod cyhoeddus arall yw'r cwsmer, oni fydd yn amau achos o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhwym i gynnal proses fonitro barhaus o ran ei berthynas fusnes, sy'n golygu bod yn rhaid iddo graffu ar drafodion drwy gydol y berthynas er mwyn sicrhau bod y trafodion yn gyson â gwybodaeth y Cyngor am y cwsmer a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwsmer.

Tudalen 51

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)
Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid Manylach a Monitro Parhaus

Rheoliad 33 Ymrwymiad i weithredu mesurau diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid anylach – [Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth \(Diwygio\) 2019](#), [Rheoliadau gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsoglwyddo Cronfeydd \(Gwybodaeth ar y Talwr\) 2017](#)

Mewn amgylchiadau penodol, bydd yn angenrheidiol cynnal yr hyn a nodwyd yn y Rheoliadau fel Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid Manylach. Yn gryno, bydd hyn yn angenrheidiol:

- Pan na fydd y cwsmer yn bresennol yn gorfforol at ddibenion nodi hunaniaeth; neu
- Mewn unrhyw sefyllfa arall lle y mae ei natur yn golygu risg uwch o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Pan fydd hyn yn berthnasol, bydd angen i'r Cyngor gymryd mesurau digonol i gyfaddawdu am y risg uwch. Er enghraifft, bydd hyn yn golygu sicrhau bod hunaniaeth y cwsmer yn cael ei chadarnhau gan ddogfennau, data neu wybodaeth ychwanegol.

Yn yr achos hwn, mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaeth arbennig i gynnal proses fonitro barhaus o ran ei berthynas fusnes, sy'n golygu bod yn rhaid iddo graffu ar drafodion a gyflawnwyd yn ystod y berthynas er mwyn sicrhau bod y trafodion hyn yn gyson â gwybodaeth y Cyngor am y cwsmer, ei fusnes a phroffil risg; a chadw dogfennau, data neu wybodaeth a gafwyd at ddiben cymhwysio mesurau Diwydrwydd Dyladwy Cwsmeriaid yn gyfoes.

Gwneud iawn

Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud iawn, gan gynnwys adennill asedau ac arian lle y bo'n bosibl. Gallai hyn gynnwys camau gweithredu i adennill trafodion yn unol â [Deddf Enillion Troseddau 2002](#).

Cadw Cofnodion

Pan fydd "busnes perthnasol" yn cael ei gyflawni, yna mae'n rhaid cadw tystiolaeth o hunaniaeth diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid a manylion y trafodyn/trafodion perthnasol am y cleient hwnnw am o leiaf bum mlynedd.

7. Hyfforddiant

Bydd llwyddiant parhaus trefniadau Atal Twyll, Llygredd a Gwrth-Wyngalchu Arian yr Awdurdod yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd hyfforddiant staff a'r gallu i ymateb drwy'r Awdurdod cyfan. Felly dylai'r rheolwyr sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad digonol a phriodol yn cael eu darparu i'w staff, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r system reoli fewnol.

Mae Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2017 yn mynnu bod staff perthnasol yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n ymwneud â gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, a gofynion cyfreithiol y ddeddf diogelu data, a'u bod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar

Tudalen 52

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

sut i adnabod ac ymdrin â thrafodion a gweithgareddau neu sefyllfaoedd eraill a all fod yn gysylltiedig â gwyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth.

Dylai'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian gynnal cofnod ysgrifenedig o'r mesurau a gymerwyd a'r hyfforddiant a ddarparwyd.

Bwriedir darparu cyfres o seminarau ar Seiberdroseddu ar gyfer gweithwyr y Cyngor o Ebrill 2021 ymlaen; a bydd modiwl hyfforddiant ar Foeseg a Thwyll yn cael ei gyflwyno yng Ngweithdy Corfforaethol y Cyngor ar 28ain Mai 2021. Bydd Gweithdy Corfforaethol y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth hon.

Mae MBL Seminars, y mae'r Cyngor yn tanysgrifio iddynt, yn cynnig seminarau ar Atal Gwyngalchu Arian.

Mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn cael gwybod am unrhyw gyfleoedd hyfforddiant eraill.

8. Casgliad

Mae gan yr Awdurdod rwydwaith clir o systemau a gweithdrefnau i frwydro yn erbyn twyll a llygredd sydd ar gael i'r holl randdeiliaid. Mae'n hanfodol bod y trefniadau hyn yn cyd-fynd â datblygiadau'r dyfodol mewn perthynas â thechnegau ataliol a darganfod.

Tudalen 53

Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian)

Atodiad 1

CYFRINACHOL

Adroddiad i'r Swyddog Adrodd ar Wyngalchu Arian

Parthed: Gweithgareddau gwyngalchu arian a amheuir

Gan: _____ (enw'r cyflogai)

Gwasanaeth: _____ Rhif Estyniad: _____

Manylion y drosedd a amheuir:

Enw(au) a chyfeiriad(au) y person(au) sy'n ymwneud â'r achos:
(os yw'n gwmni / corff cyhoeddus, rhowch fanylion natur y busnes)

Natur, gwerth ac amseru'r gweithgareddau sy'n ymwneud â'r achos:
(dylech gynnwys manylion llawn e.e. beth, pryd, ble, sut; atodwch daenlen ar wahân os bydd angen)

Natur yr amheuon mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath:
Atodwch daenlen ar wahân os bydd angen

Llofnodwyd: _____ Dyddiwyd: _____

Peidiwch â thrafod cynnwys yr adroddiad hwn ag unrhyw un rydych yn tybio iddynt fod ynghlwm wrth y gweithgareddau gwyngalchu arian a ddisgrifiwyd. Byddai gwneud hynny o bosibl yn drosedd oherwydd y rhybudd, sy'n gallu arwain at uchafswm ddirwy o 5 mlynedd yn y carchar.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R :** **Cyngor****Dyddiad y cyfarfod:** **16 Mehefin 2021****LLEOLIAD:** **O bell drwy gynhadledd fideo****TEITL:** **Adroddiad ar faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu****PWRPAS YR ADRODDIAD** **Ystyried maint/ cyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021****I'w benderfynu:****Portffolio Cabinet ac
Aelod Cabinet:****Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd****CEFNDIR:**

Mae Adran 116 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn nodi fel a ganlyn:
Bod traean (1/3) o Aelodau'r Pwyllgor yn aelodau lleyg.
Bydd y ddarpariaeth yn dod i rym ar 5 Mai 2022.

Ar 18 Mawrth 2021 bu i'r Cyngor benderfynu cymeradwyo dechrau ar y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y SEFYLLFA GYFREDOL

Ar 24/2/21 bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gytuno y dylai'r Pwyllgor yn y dyfodol gynnwys:

- 3 aelod lleyg / annibynnol a
 - 6 Cynghorydd Sir
- Cyfanswm o 9 Aelod

Ar 21 Mai 2021 bu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benderfynu argymhell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys

- 3 aelod lleyg / annibynnol a
 - 6 Aelod Cyngor Sir
- Cyfanswm o 9 Aelod

Argymhellion:

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1) yn weithredol o 5 Mai 2022, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys:

6 Aelod Cyngor Sir

3 aelod lleyg / annibynnol a

Cyfanswm 9.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

- Monitro trefn lywodraethu'r Cyngor
- er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf 2021, a
- darparu elgurder ar gyfer recriwtio aelodau lleyg yn y dyfodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio .

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau ?Na

Os nad oes, esboniwch pam

Crynodeb: Nid yw'r adroddiad yma'n achosi unrhyw newid i bolisi na strategaeth.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hirdymor:

Cefnogi gweithgarwch yn y gymuned drwy annog cyfranogiad, drwy recriwtio aelodau lleyg i gydbwysu angen tymor byr â chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol a hyrwyddo Cymru Lewyrchus drwy gefnogi'r economi leol a thrwy'r rôl a'r gwaith a gyflawnir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys gwneud y penderfyniadau ariannol iawn (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang).

Integreiddio:

Annog gweithredu a chyfranogiad teg wrth wneud penderfyniadau recriwtio ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac o ran ei rôl, gyda'r nod o gael effaith positif ar bobl, yr economi, yr amgylchedd, a diwylliant.

Cydweithio:

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd a chyda'r gymuned ehangach i recriwtio aelod(au) lleyg annibynnol, a chydweithio parhaus wrth wneud penodiadau newydd i sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n gweithio'n effeithiol, ac i gefnogi'r Cyngor.

Tudalen 57

- Cynnwys:** Cynnwys y rhai sydd â diddordeb (cyfle i'r rhai sydd â diddordeb i wneud cais ar gyfer rôl gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio), gofyn eu barn ar waith y Ddeddf Llywodraethu ac Archwilio, annog ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a dull ymgynghorol.
- Atal:** Gweithredu i atal y broblem o beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth.

Trosolwg a Chraffu: Amherthnasol

Fframwaith Polisi: Amherthnasol

Blaenoriaethau Corfforaethol: Hybu'r Economi - cynyddu set sgiliau / cyfleoedd ar gyfer Aelodaeth o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a themau trawsbynciol o ran gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Goblygiadau Ariannol:

Goblygiadau o ran y broses recriwtio a chostau parhaus Aelodau ychwanegol o'r Pwyllgor

Goblygiadau Cyfreithiol: Ni fydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth / rheoliadau oni bai y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 1/3 o aelodau lleyg o 5 Mai 2022.

Enw Cyswllt: Elin Prysor

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (& Swyddog Monitro)

Dyddiad yr Adroddiad: 24 Mai 2021

Acronymau: Amherthnasol

Atodiadau: Dim

Papurau Cefndir: Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019.

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf

Cofnodion Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/G%20Cofnodion%20combined%20171219.pdf

27 Ionawr 2020 Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Size%20of%20audit%20committee.pdf

27 Ionawr 2020 Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Size%20of%20audit%20committee.pdf

12 Tachwedd 2020 Cofnodion y Pwyllgor Archwilio :

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/8073/audit-121120-final-s.pdf>

Tudalen 58

24 Chwefror 2021 Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf

24 Chwefror 2021 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio :

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/8073/audit-121120-final-s.pdf>

18 Mawrth 2021 Adroddiad i'r Cyngor :

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-

[%20Changes%20to%20Audit%20Committee%20per%20Local%20Government%20and%20Elections%20\(Wales\)%20Act%202021.pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Changes%20to%20Audit%20Committee%20per%20Local%20Government%20and%20Elections%20(Wales)%20Act%202021.pdf)

18 Mawrth 2021 Cofnodion Cyfarfod y Cyngor (drafft) :

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/8975/cofnodion-ddrafft-18032021-saesneg-final.pdf>).

21 Mai 2021 Adroddiad y Gwasanaethau Democraidd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd ar faint y Pwyllgorau:

<https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s1472/Report%20-%20Size%20of%20all%20committees.pdf?LLL=0>

21 Mai 2021 Adroddiad i'r Gwasanaethau Democraidd ar faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

<https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s1473/Report%20-%20size%20of%20Governance%20and%20Audit%20Committee.pdf?LLL=0>

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:

<https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/introduction/enacted>

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

2021, Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed 2021

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/297/contents/made>

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	17 Mehefin 2021
Teitl:	Y Pwyllgor Moeseg a Safonau: - recriwtio dau aelod annibynnol - Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Diben yr adroddiad:	Sicrhau y gwneir penodiadau priodol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ray Quant MBE Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd

1) Penodi dau aelod annibynnol

Penodwyd y Cadeirydd presennol Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield yn y lle cyntaf ar 27/9/2011 ac fe'u hailbenodwyd ar 27/9/2017. Daw eu tymor yn y swyddi hyn i ben ar 26/9/2021. Nid yw'r aelodau hyn yn gymwys bellach i gael eu hailbenodi.

Ar 10 Rhagfyr 2020 penderfynodd y Cyngor gymeradwyo:

- a) y swydd ddisgrifiad, manyleb y person a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol; a
- b) aelodaeth y panel dethol.

Cynhaliwyd y Panel Dethol ar 26 Mawrth 2021 a'r cyfweiliadau ar 15 Ebrill 2021. Y ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:

- Caryl Davies;
- Alan Davies.

Cynigir bod y penodiadau hyn am gyfnod o chwe blynedd o 27 Medi 2021 ymlaen. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cyfnod pellach o 4 blynedd wedi hynny.

2) PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Mae tymor Cadeirydd presennol y Pwyllgor Moeseg a Safonau, Mr Hywel Wyn Jones, yn dod i ben ar 26 Medi 2021.

Yn ôl Rheoliad 22 Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 9 Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) Rheoliadau 2006) nodir:

- Bod yn rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gael eu penodi o blith yr aelodau annibynnol

Tudalen 60

- Penodir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am ba un bynnag o'r cyfnodau canlynol sydd fyrraf -
 - (a) cyfnod nad yw'n llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd, neu
 - (b) hyd nes bydd tymor yr unigolyn hwnnw fel aelod annibynnol ar y pwyllgor safonau yn dod i ben

Penderfynodd y Cyngor ar 16 Mawrth 2017 y dylid ailbenodi'r Cadeirydd presennol Mr Hywel Wyn Jones am dymor pellach, tymor a fyddai'n dod i ben ar 26 Medi 2021. Bydd tymor yr Is-gadeirydd presennol, Mrs Caroline White, yn dod i ben ar 30 Gorffennaf 2023.

Cymeradwywyd yr enwebiadau canlynol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor (a gynhaliwyd ar 14 Mai 2021):

- Hywel Wyn Jones: Cadeirydd
- Caroline White: Is-gadeirydd

Yn dilyn ymddiswyddiad gwirfoddol y Cadeirydd wedi cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 19/5/21, enwebodd y Pwyllgor y canlynol:

- Caroline White: Cadeirydd
- John Weston: Is-gadeirydd

gan ddod i rym ar 20/5/21.

Cynigir bod y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo'r enwebiadau am y cyfnodau canlynol:

- a) Caroline White: Cadeirydd (20 Mai 2021 – 30 Gorffennaf 2023).
- b) John Weston : Is-gadeirydd (20 Mai 2021 – 30 Gorffennaf 2023)

Argymhelliad/Argymhellion: **Argymhellir bod y Cyngor yn penderfynu:**

- 1. cymeradwyo penodi'r aelodau annibynnol canlynol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau:**
 - Caryl Davies;
 - Alan Davies**o 27 Medi 2021 hyd 26 Medi 2027**
- 2) cymeradwyo'r enwebiadau canlynol:**
 - a) Caroline White: Cadeirydd (20/5/21 – 30/7/23).**
 - b) John Weston: Is-gadeirydd (20/5/21 – 30/7/23)**

Rhesymau dros y penderfyniad: Mae'r argymhellion hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y penodiadau priodol wedi eu gwneud,

Tudalen 61

yn unol â'r deddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad.

Trosolwg a Chraffu: Fframwaith Polisi:	Amherthnasol Mae Cyngor Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n gwella, er mwyn bodloni anghenion ein dinasyddion.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Cyngor Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n gwella, er mwyn bodloni anghenion ein dinasyddion.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Heb y penderfyniad hwn, ni fydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo/asedau:	Dim
Casgliadau'r Aseiad Effaith Integredig:	Cydraddoldeb ac Dim Amrywiaeth: Yr Iaith Gymraeg: Dim Datblygiad Cynaliadwy: Dim Ymgysylltiad: Dim
Pwerau Statudol:	<ul style="list-style-type: none">• Deddf Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (Rheoliadau 2001/2283)• Llywodraeth Leol Cymru: Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 (2006/1849) a 2016 (2016/85)• Deddf Llywodraeth Leol 1972• Deddf Llywodraeth Leol 2000
Papurau Cefndir:	<ul style="list-style-type: none">• 1 Awst 2013;• 16 Mawrth 2017;• 7 Rhagfyr 2017;• 17 Mai 2019;• 1 Awst 2019;• Adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau 18/11/20;• Y Cyngor 10 Rhagfyr 2020;• Pwyllgor Moeseg a Safonau 19 Mai 2021.
Atodiadau:	Dim
Pennaeth Gwasanaeth:	y Y Prif Weithredwr

Tudalen 62

Swyddog Adrodd: Elin Prysor, Swyddog Monitro

Dyddiad: 19/4/21

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y cyfarfod: 17-06-2021

Teitl: Cyfamod y Lluoedd Arfog

Pwrpas yr Adroddiad: Gofyn i Gyngor Sir Ceredigion lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a nodi Dengmlwyddiant y Cyfamod yn gyhoeddus

Er: PENDERFYNIAD

Aelod Etholedig gyda chyfrifoldeb arweiniol dros y Lluoedd Arfog: Y Cynghorydd Paul Hinge, Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog

CEFNDIR

Ym mis Mehefin 2011 lansiodd y Llywodraeth Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn dilyn y syniad o 'Gyfamod Milwrol' rhwng y Llywodraeth a Lluoedd Arfog y DU a ddechreuodd tua'r flwyddyn 2000. Mae pob Awdurdod Lleol yn y DU wedi lofnodi 'Partneriaeth Gyfamod Cymunedol'. Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn 2013.

Ar y pryd lofnododd busnesau 'Gyfamod Corfforaethol' ond bellach nid oes gwahaniaeth rhwng Cyfamod Cymunedol, gyda chymuned yn gwneud datganiad ar y cyd, a Chyfamod Corfforaethol. Mae'r ddau wedi esblygu yn un Cyfamod y Lluoedd Arfog. Gweler **Atodiad 1** am ddrafft o'r Cyfamod a lofnodir gan y Cyngor.

Caiff holl lofnodwyr y Cyfamod eu cydnabod mewn cronfa ddata a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyn 2014 ni chadwyd data yn ganolog ac nid yw'r rheiny a lofnododd cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cydnabod yn genedlaethol, felly nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn ymddangos ar y gronfa ddata ganolog hon. Mae rhai o gyd-lofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog Ceredigion a'n rhanddeiliaid Lluoedd Arfog wedi mynd ymlaen i lofnodi'r Cyfamod ac maen nhw bellach yn ymddangos ar y gronfa ddata ganolog hon.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Pan gyhoeddwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2011, roedd yn nodi ymrwymïadau pendant i gymuned y Lluoedd Arfog. Yn ystod y cyfnod hwn mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyflawni'r ymrwymïadau hyn ac egwyddorion y Cyfamod, gan ddangos ei ymrwymïad parhaus i gymuned y Lluoedd Arfog. Gwelir tystiolaeth o'r ymrwymïad hwn drwy waith Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, y Cynghorydd Paul Hinge, a thrwy integreiddio'n briodol yn y polisiau.

Tudalen 64

Ledled Cyngor Sir Ceredigion mae'r adrannau Addysg, Tai ac Adnoddau Dynol wrthi'n datblygu mentrau mewn cydweithrediad â Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni'r Cyfamod. Yn enwedig, cydnabu Llywodraeth Cymru arfer da Adran Dai Ceredigion a hynny am eu gwaith blaengar nhw wrth nodi a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Cyflawnwyd llawer yn yr amser hwn.

Mae Dengmlwyddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog yn adeg amserol i ailddatgan ymrwymiad y Cyngor a dathlu'r llwyddiannau a'r ymrwymiad parhaus i gynnal egwyddorion y Cyfamod a wnaed yn ôl yn 2013. Hefyd bydd yn fodd o adnewyddu ymrwymiadau'r Cyngor i fod yn fesurau addas sy'n fwy perthnasol i heddiw. Drwy lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog byddwn yn ymuno â'n partneriaid lleol ac yn cael ein cydnabod yn ffurfiol yn genedlaethol.

Y CYNNIG

Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Cyngor gytuno i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac i'r llofnodi swyddogol ddigwydd fel rhan o seremoni i ailddatgan ymrwymiad y Cyngor ac i nodi Dengmlwyddiant y Cyfamod. Os cytunir arno, cynigir y dylai'r ailddatgan ddigwydd yn yr hydref eleni, ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref, gan ystyried pryd y bydd yr Aelodau Etholedig a phobl nodedig eraill ar gael.

	Oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i wneud? Os na, esboniwch pam	Nac oes. Mae'r papur hwn yn ceisio ailddatgan yr ymrwymiad a wnaed eisoes gan y Cyngor i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn 2013.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	
Argymhelliad:	Bod Cyngor Sir Ceredigion yn llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac yn nodi'n gyhoeddus Ddengmlwyddiant y Cyfamod ym mis Medi/Hydref 2021.	
Rheswm dros y penderfyniad:	I ailddatgan ymrwymiad y Cyngor a dathlu'r llwyddiannau a'r ymrwymiad parhaus i gynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog a wnaed yn ôl yn 2013.	
Trosolwg a Chraffu:		

Tudalen 65

Fframwaith Polisi:

Blaenoriaethau Corfforaethol:	Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl; Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Ddim yn berthnasol
Risg(iau):	Ddim yn berthnasol
Pwerau Statudol:	Ddim yn berthnasol
Papurau Cefndirol:	Gweler yr atodiadau isod
Atodiadau:	Atodiad 1 – Cyfamod drafft y Lluoedd Arfog
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddog Adrodd:	Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad
Dyddiad:	17-06-2021



Cyngor Sir Ceredigion

Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn ymrwymo i anrhydeddu Cyfamod y Lluoedd Arfog ac i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. Yr ydym yn cydnabod y gwerth a ddaw i'n gwaith ac i'n gwlad yn sgil Aelodau presennol, aelodau wrth gefn a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Llofnodwyd ar ran:

Cyngor Sir Ceredigion

Llofnod: _____

Enw: _____

Swydd: _____

Dyddiad: _____



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cyfamod Parhaol Rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig

Llywodraeth Ei Mawrhydi

– a –

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron

A'u Teuluoedd

Dyletswydd gyntaf Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar ran y Llywodraeth, gan aberthu elfennau o ryddid sifil, yn wynebu peryglon ac ambell waith yn dioddef anafiadau difrifol neu farwolaeth yn sgil eu dyletswyddau. Mae teuluoedd hefyd yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran cynnal effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hynny mae gan y wlad gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau'r Llynges, y Fyddin, a'r Awyrlu Brenhinol, ynghyd â'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, ynghyd â thriniaeth deg.

Ni ddylai'r sawl sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn rheolaidd neu wrth gefn, neu sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd chwaith, fod o dan anfantais o gymharu â phobl eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos y rhai sydd wedi rhoi i'r eithaf ac sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys cymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, ac ymddygiad pobl wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn fodd o uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Ni ellir dangos hyn yn fwy pendant na thrwy gynnal y Cyfamod hwn.

Rhan 1: Egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog

1.1 Byddwn ni **ynghyngor Sir Ceredigion** yn ymdrechu yn ein gwaith i gynnal prif egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef:

- *na ddylai'r un aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog fod o dan anfantais o gymharu â phobl eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus a masnachol*
- *ei bod yn briodol rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.*

Rhan 2: Dangos ein Hymrwymiad

2.1 Mae **Cyngor Sir Ceredigion** yn cydnabod y gwerth a ddaw i'n gwaith yn sgil Aelodau presennol, aelodau wrth gefn a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Byddwn yn ceisio cynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy:

- *hyrwyddo'r ffaith ein bod yn sefydliad sy'n ystyriol o'r lluoedd arfog – drwy benodi Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog. Bydd yr Hyrwyddwr yn arwain y gwaith o gyflwyno fforwm partneriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog yn chwarterol. Nod y fforwm yw dwyn cyrff cyhoeddus a chyrff nad ydynt yn gyhoeddus ynghyd i sicrhau bod cydweithio er budd Cymuned y Lluoedd Arfog, fel y nodir yn y Cyfamod.*
- *ceisio cefnogi'r gwaith o gyflogi cyn-filwyr, hen ac ifanc, drwy weithio gyda'n Cymuned Lluoedd Arfog.*
- *ymdrechu i gefnogi'r gwaith o gyflogi gwragedd a gwŷr a phartneriaid y lluoedd.*
- *ceisio cefnogi ein gweithwyr sy'n dewis bod yn aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, a hynny drwy ein polisiâu cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer eu hyfforddiant a'u gwasanaeth lle bo'n bosib.*
- *Anelu i ymwneud yn ddiwyd â Diwrnod y Lluoedd Arfog*

2.2 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymrwymadau hyn drwy ein deunydd ysgrifenedig a'n gwefan, gan nodi sut y byddwn yn ceisio'u hanrhydeddu a gwahodd adborth gan gymuned y Lluoedd a'n cwsmeriaid ynghylch sut mae ein gwaith yn mynd rhagddo.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	17 Mehefin 2021
Teitl:	Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21
Pwrpas yr adroddiad:	Er mwyn i'r Cyngor nodi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystod 2020/21
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Cyngh Ray Quant MBE, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democraidd

Cefndir

Mae Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi'i baratoi a'i gyflwyno i'r Cyngor ers 2018.

Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21 wedi'i baratoi a'i atodi (Atodiad A).

Gofynnir i'r Cyngor nodi'r Adroddiad Blynyddol fel y'i cyflwynwyd. Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystod 2020/21.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Gofynion y dyfodol

O fis Mai 2022, bydd cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol (sy'n golygu cyfnod 12 mis yn gorffen gyda 31 Mawrth) mewn perthynas â'r flwyddyn honno, yn dod yn ofyniad statudol, yn unol ag Adran 63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Adran 63 yn diwygio Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"): Dyletswydd y pwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol.

Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i'r adroddiad blynyddol ddisgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn benodol, bydd yn rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o—

Tudalen 70

a) yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan adran 54 neu 56 Deddf 2000, sef ei swyddogaethau gan gynnwys:

- hybu a chynnal safonau uchel ymddygiad gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, a
- cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.
- cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu adolygu cod ymddygiad,
- monitro gweithrediad cod ymddygiad yr awdurdod, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod.

b) adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a atgyfeiriwyd at y pwyllgor o dan Bennod 3 Deddf 2000. Bydd hyn yn cynnwys:

- Atgyfeiriadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Swyddog Monitro

c) camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

d) hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor o dan Bennod 4 Deddf 2000, Bydd hyn yn cynnwys:

- Argymhellion Panel Dyfarnu Cymru.

Nodir y materion hyn yn Atodiad A.

Yn ogystal, o fis Mai 2022, rhaid i'r adroddiad blynyddol hefyd gynnwys asesiad y pwyllgor o ran i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A (1) Deddf 2000 (fel y'i mewnosodwyd gan Adran 62 Deddf 2021) yn ogystal â'i ddyletswyddau ei hun, yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r rhain i:

1)(a) gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau'r grŵp hwnnw, a

(b) cydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor (ac unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw), o ran arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

2) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau ynghylch eu swyddogaethau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Dylai'r adroddiad blynyddol hefyd gyfeirio at y ffordd y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau newydd (a nodir yn Adran 62):

o—

(a) monitro i ba raddau mae arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a

(b) chynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny."

Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef. Rhaid i'r Cyngor ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y bydd yr awdurdod yn cael yr adroddiad.

	A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam	Amherthnasol Nid yw'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â pholisi newydd na newid i wasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Amherthnasol Cydweithio: Amherthnasol Cynnwys: Amherthnasol Atal: Amherthnasol Integreiddio: Amherthnasol	
Argymhelliad / Argymhellion:	Bod y Cyngor yn: 1) nodi cynnwys yr adroddiad, a 2) yn ystyried cynnwys yr Adroddiad Blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21 (Atodiad A).	
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn i'r Cyngor gael gwybod am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystod 2020/21	
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol. Cadarnhaodd y Pwyllgor Moeseg a Safonau'r adroddiad yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021	
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Amherthnasol	
Goblygiadau Ariannol:	Dim.	
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2000	
Papurau Cefndir:	Y Cod Ymddygiad Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	
Atodiadau:	Atodiad A - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21	

Tudalen 72

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau
Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro

Swyddog Adrodd:

Elin Prysor

Dyddiad:

07 Mehefin 2021

Pwyllgor Moeseg a Safonau



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Blynyddol 2020/21

Deg Egwyddor Gyffredinol

Bywyd Cyhoeddus

<p>Anhunanoldeb – Dylai aelodau wasanaethu dim ond lles y cyhoedd ac ni ddylent byth roi dim mantais neu anfantais i ddim person yn amhriodol.</p>	<p>Barn bersonol – Caiff yr Aelodau ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, ond dylent gyrraedd eu casgliadau eu hunain ar y materion sydd ger eu bron a gweithredu yn unol â'r casgliadau hynny.</p>
<p>Gonestrwydd ac uniondeb – Ni ddylai aelodau roi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle gellir cwestiynu eu gonestrwydd a'u huniondeb, ni ddylent ymddwyn yn amhriodol, a dylent, ar bob achlysur, osgoi dangos ymddygiad o'r fath.</p>	<p>Parch at eraill – Dylai aelodau hybu cydraddoldeb trwy beidio â gwahaniaethu yn anghyfreithlon yn erbyn dim person, a thrwy drin pobl â pharch, waeth beth fo'u hil, eu hoedran, eu crefydd, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hanabledd. Dylent barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i weithwyr eraill.</p>
<p>Gwrthrychedd – Dylai aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod, gan gynnwys wrth wneud penodiadau, rhoi contractau, neu argymell unigolion am wobrau neu fudd.</p>	<p>Dyletswydd i gynnal y gyfraith – Dylai aelodau gynnal y gyfraith ac, ar bob achlysur, weithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w rhoi ynddynt.</p>
<p>Atebolrwydd – Dylai aelodau fod yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithredoedd a'r modd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, a dylent gydweithredu'n llwyr ac yn onest ag unrhyw waith craffu sy'n briodol i'w swydd benodol.</p>	<p>Stiwardiaeth – Dylai aelodau wneud beth bynnag y gallant ei wneud i sicrhau bod eu hawdurdodau yn defnyddio eu hadnoddau yn ddarbodus, ac yn unol â'r gyfraith.</p>
<p>Bod yn agored – Dylai'r Aelodau fod mor agored â phosib ynghylch eu gweithredoedd a rhai eu hawdurdod, a dylent fod yn barod i roi rhesymau dros y camau hynny.</p>	<p>Arweinyddiaeth – Dylai'r aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad, a thrwy esiampl, a dylent weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau neu'n diogelu hyder y cyhoedd.</p>

“Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus”

Cynnwys

	<i>Tudalen</i>
1. Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor	4
2. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Datganiad o Weledigaeth	5
3. Rolau a Swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau	8
4. Aelodaeth y Pwyllgor 2020/21	10
5. Gwaith y Pwyllgor yn 2020/21	16
6. Cod Ymddygiad – Adroddiad y Swyddog Monitro	22
7. Blaenoriaethau'r Dyfodol	36
8. Mynychu'r Pwyllgor / Cysylltu â ni	38

1

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau am y flwyddyn o 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021. Bu hon yn flwyddyn ryfedd ac anarferol i'n Pwyllgor ni, fel y bu i'r Awdurdod yn gyffredinol. Oherwydd y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, bu'n rhaid i ni roi o'r neilltu ein cynlluniau i barhau'r rhaglen o hyfforddi Cynghorwyr - gan gynnwys aelodau Cynghorau Cymuned a Thref - ar y Côt Ymarfer. Ond fe hoffwn sicrhau'r Awdurdod a'r cyhoedd fod hyn yn dal yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol, pan fydd modd llacio'r cyfyngiadau presennol.

Fe gyfarfu'r pwyllgor ond dwywaith yn unig eleni, ar 5 Awst a 19 Tachwedd, ond llwyddwyd i ddelio yn brydlon â cheisiadau gan aelodau am Ollyngiad er mwyn iddynt fedru cymryd rhan mewn achosion lle 'roedd ganddyn nhw fuddiant rhagfarnol. Cawsom ein goleuo hefyd ar y materion a adroddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Panel Dyfarnu yn ymwneud â chynnal safonau.

Ar nodyn personol, gan mai dyma fydd fy adroddiad olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor, 'rwyf am ddiolch i'm cyd-aelodau, i'r Swyddog Monitro a'r holl swyddogion sydd wedi rhoi cefnogaeth werthfawr a chynghor arbenigol i ni. Hefyd fe hoffwn ddiolch i chi, Gynghorwyr, a'ch llongyfarch ar gydymffurfio'n drylwyr â chanllawiau'r Côt Ymarfer.

Rwy'n dymuno'n dda i fy olynydd yng Nghadair y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac i'r ddau aelod newydd a fydd yn olynu Rif Winfield a fi ym mis Medi 2021.

Hywel Wyn Jones

Cadeirydd Pwyllgor Moeseg a Safonau, 2020-21

2

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Datganiad o Weledigaeth

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Moeseg a Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (2001/2283) (fel y'u diwygiwyd (2006/1849), 2007/951).

CYFANSODDIAD

Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn Swyddogion nac yn gymar i Gynghorydd na swyddog o'r Cyngor hwn nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinnir yn y Rheoliadau, a benodir yn unol â'r weithdrefn sydd yn y Rheoliadau;
- Dau Gynghorydd Sir [heblaw am Arweinydd y Cyngor ac unrhyw aelod o'r Cabinet];
- Dau aelod o Gynghorau Tref a Chymuned sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal y Cyngor ('aelodau o Bwyllgor Cymuned')

Cyfnod yn y Swydd

- Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd a dim mwy na chwe blynedd. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach na fydd yn fwy na phedair blynedd. Estynnwyd cyfnod un Aelod Annibynnol yn y swydd yn ystod 2019/20.
- Bydd cyfnod yr aelodau hynny o'r Cyngor sy'n aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn y swydd yn para tan ddechrau'r etholiad llywodraeth leol nesaf yn dilyn eu penodi. Bydd hyn yn dod i ben ym mis Mai 2022.

- Bydd cyfnod aelod o Bwyllgor Cymuned yn y swydd yn para tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodi. Bydd hyn yn dod i ben ym mis Mai 2020.

Cworwm - Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gworwm oni fydd:

- o leiaf tri aelod yn bresennol, a bod;
- o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

Aelodau Pwyllgorau Cymuned - Ni fydd aelod o Bwyllgor Tref/Cymuned yn cymryd rhan yn nhrefodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau pan fydd unrhyw fater sy'n ymwneud â'u Cyngor Cymuned yn cael ei ystyried;

Cadeirio'r Pwyllgor

- Rhaid i Aelod Annibynnol gadeirio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.
- Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol:-
 - cyfnod o nid llai na phedair blynedd ac nid mwy na chwe blynedd, neu
 - hyd nes y daw cyfnod yr unigolyn hwnnw yn y swydd fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i ben

Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yna bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor, os yw'n bresennol, yn llywyddu.

Os bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ill dau'n absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw, bydd yr aelodau hynny o'r Pwyllgor sy'n bresennol yn dewis aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i lywyddu.

DATGANIAD O WELEDIGAETH

“Ein Gweledigaeth yw y bydd gan bobl Ceredigion ymddiriedaeth a hyder y bydd pawb sy'n cael eu hethol i swydd mewn Llywodraeth Leol yn ein sir yn gweithio i'r safonau moesegol a moesol uchaf wrth wasanaethu eu cymuned”

3

Rolau a Swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Roedd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

- hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan y Cynghorwyr,
- cynorthwyo'r Cynghorwyr, yr Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
- rhoi gollyngiadau i Gynghorwyr, i Aelodau Cyfetholedig ac i gynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr parthed y gofynion sy'n ymwneud â buddiannau, fel y nodir **yn rhifyn 2016 Cod Ymddygiad yr Aelodau; Adran (81(4) & (5) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 (2001/2279).**
- ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch unrhyw fater a atgyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; fel y nodir yn (adran 73(1) **Deddf Llywodraeth Leol 2000, Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001))**(2001/2281) (fel y'u diwygiwyd; 2009/2578), a Rheoliadau

Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio (Cymru) (Diwygio) 2016 (2016/85).

- arfer yr uchod mewn perthynas â'r Cyngorau Cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal ac aelodau'r Cyngorau Cymuned hynny; (Adran 56(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000) i benodi panel apelio o dri, gyda mwyafrif o aelodau annibynnol, y bydd un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ar gyfer cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor.

Gall enghreifftiau o'r math o waith a wneir gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau gynnwys:

- cymryd rhan mewn datblygu deunyddiau hyfforddiant ar y Cod, gan gynnwys siart lif sy'n crynhoi prif ddarpariaeth y cod
- mynychu sesiynau hyfforddi ar y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cyngorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar drafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i'r Cyngorwyr fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol

4

Aelodaeth y Pwyllgor

Aelodaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21

1^{af} Ebrill 2020 – 31^{ain} Mawrth 2021



Aelod o'r Pwyllgor	Cyfnod yn y Swydd	Cyfnod fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Mr Hywel Wyn Jones (Cadeirydd) Aelod Annibynnol	2/09/17-26/09/21	Cadeirydd:22/02/19-26/09/21 i gyd-fynd â'i gyfnod yn y swydd
Mrs Caroline White (Is-gadeirydd) Aelod Annibynnol	01/08/13-01/08/19. Estynnwyd gan y Cyngor ar 1/8/19: 1/8/19-30/7/23	Is-gadeirydd 22/02/18-01/08/19. Estynnwyd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 12/7/19: hyd at 21/2/22
Mr Rif Winfield Aelod Annibynnol	27/09/17-26/09/21	
Ms Carol Edwards Aelod Annibynnol	22/02/18-21/02/24	
Mr John Weston Aelod Annibynnol	22/02/18-21/02/24	
Y Cynghorydd Dai Mason Cyngor Sir Ceredigion	05/05/17-Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
Y Cynghorydd Odwyn Davies	05/05/17-	




Tudalen 82



Cyngor Sir Ceredigion	Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022.	
Y Cyngorydd Julian Evans (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned)	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
Y Cyngorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned)	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	



Aelodau'r Pwyllgor

Moeseq a Safonau presennol

 <p>Mr Hywel Wyn Jones (Cadeirydd)</p>	<p>Mae Hywel Wyn Jones yn gyn-Ysgrifennydd Gweinyddol Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Am ddeng mlynedd bu'n aelod o Bwyllgor Safonau Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys (gyda chyfnod fel Cadeirydd).</p> <p>Mae wedi gwasanaethu fel Aelod Annibynnol o Bwyllgor Moeseq a Safonau Cyngor Sir Ceredigion ers 2012, ac fel y Cadeirydd ers Chwefror 2018. Mae hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.</p> <p>Bydd cyfnod Hywel yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/21</p>
 <p>Mrs Caroline White (Is-gadeirydd)</p>	<p>Mae Caroline White yn athrawes wedi ymddeol. Yn ystod ei gyrfa 26 mlynedd yn y byd addysg cafodd lawer o gyfrifoldebau o ran rheoli ysgol gyfan a daeth yn Bennaeth Cynorthwyol cyn ymddeol.</p> <p>Fe'i penodwyd yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseq a Safonau ym mis Awst 2013 a chafodd ei hethol yn Is-gadeirydd ym mis Chwefror 2018.</p>

 <p>Mr Rif Winfield</p>	<p>Mae Rif Winfield wedi mwynhau gyrfa yn y sectorau gwleidyddol, masnachol a gwirfoddol. Bu'n Gynghorydd Bwrdeistref etholedig ym 1972.</p> <p>Bu'n Gyfarwyddwr sefydlol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion am 17 o flynyddoedd, gan gynnwys cyfnod o fod yn Gadeirydd.</p> <p>Mae wedi bod yn Aelod Annibynnol o Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion ers 2011.</p> <p>Bydd cyfnod Rif yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/21</p>
 <p>Mrs Carol Edwards</p>	<p>Ymgymhwysodd Carol Edwards fel Llyfrgellydd Siartredig o'r Coleg Llyfrgellydd yn Aberystwyth. Bu'n gweithio i Gyngor Sir Clwyd, Ysbyty Llwynhelyg (fel llyfrgellydd meddygol) cyn mynd yn ôl i Aberystwyth i weithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru am dros 20 mlynedd. Roedd yn Bennaeth Adran rhwng 2010 a 2013.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'n Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.</p> <p>Penodwyd Carol yn Aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Chwefror 2018.</p>
 <p>Mr John Weston</p>	<p>Roedd John Weston yn Gynllunydd Tref, ac yna fe'i cyflogwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fel archwiliwr perfformiad, cyn iddo ymddeol yn 2013. Bu'n cynnal archwiliadau o fewn Cyngorau yng Nghymru a hefyd gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.</p> <p>Penodwyd John yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Chwefror 2018.</p>

 <p>Y Cyngorydd Dai Mason (Cyngor Sir Ceredigion)</p>	<p>Roedd Dai Mason yn beiriannydd dylunio yn IBERS, ac yna'n Gyfarwyddwr Cwmni yn y diwydiant adloniant/teithio.</p> <p>Mae'n Llywodraethwr Ysgol.</p> <p>Ers 2012 ef yw'r Cyngorydd Sir sy'n cynrychioli Ward Trefeurig. Bu'n Gadeirydd ar Gyngor Sir Ceredigion yn 2016/17.</p> <p>Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Mai 2012.</p>
 <p>Y Cyngorydd Odwyn Davies (Cyngor Sir Ceredigion)</p>	<p>Mae Odwyn Davies yn ffermwr.</p> <p>Ers 1999, ef yw'r Cyngorydd Sir sy'n cynrychioli Ward Llangybi.</p> <p>Bu'n gyn-arweinydd ar y cyd ar Gangen Urdd Gobaith Cymru yn ardal Llangybi.</p> <p>Mae'n Aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ers Mai 2012.</p>

 <p>Dr Julian Evans (Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)</p>	<p>Roedd Julian Evans yn Feddyg Deintyddol o 1978, ac yn rhedeg ei ddeintyddfa ei hun hyd nes iddo ymddeol yn 2008.</p> <p>Daeth yn Gyngorydd ar Gyngor Tref Ceinewydd yn 1982 gan fod yn Faer ar bum achlysur.</p> <p>Bu'n cynrychioli Ward Ceinewydd ar Gyngor Sir Ceredigion rhwng 1995 a 1999.</p> <p>Mae'n Aelod o bwyllgor dethol yr ynadon ac yn gynddiffoddwr tân rhan amser. Mae hefyd yn Gynlywodraethwr Ysgol. Ef yw Cadeirydd Cangen Ceredigion Un Llais Cymru.</p> <p>Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn 2017.</p>
 <p>Y Cyngorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)</p>	<p>Cafodd Gill Hopley yrfa lwyddiannus mewn dylunio ffasiwn a manwerthu o 1987 tan iddi ymddeol yn 2016.</p> <p>Mae'n Gyngorydd ar Gyngor Tref Ceinewydd ers 1991 gan fod yn Faer ar sawl achlysur.</p> <p>Bu'n cynrychioli Ward Ceinewydd ar Gyngor Sir Ceredigion rhwng 1999 a 2017. Hi oedd Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn 2015.</p> <p>Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn 2017.</p>

Pryd mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyfarfod?

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyfarfod yn rheolaidd. Gellir trefnu cyfarfodydd hefyd ar adegau eraill os oes amgylchiadau eithriadol.

5

Gwaith y Pwyllgor yn 2020/2021

1. CEISIADAU AM OLLYNGIAD

2018/19

Ystyriodd y Pwyllgor 21 cais gan Gynghorwyr Sir a Chymuned a Thref yn ystod y flwyddyn.

O'r rhain:

- roedd 9 cais gan Gynghorwyr Sir a
- 13 gan Gynghorwyr Tref a Chymuned

2019/20

Ystyriodd y Pwyllgor 15 cais gan Gynghorwyr Sir a Chymuned a Thref yn ystod y flwyddyn.

O'r rhain:

- Cynghorwyr Sir: 13
- Cynghorwyr Tref a Chymuned 2

O'r rhain:

- rhoddwyd 15
- gohiriwyd 0
- gwrthodwyd 0
- tynnwyd 0 yn ôl

2020/21

Ystyriodd y Pwyllgor 18 cais gan Gynghorwyr Sir a Chymuned a Thref yn ystod y flwyddyn.

O'r rhain:

- Cynghorwyr Sir: 10
- Cynghorwyr Tref a Chymuned 8

- rhoddwyd 18
- gohiriwyd 0
- gwrthodwyd 0
- tynnwyd 0 yn ôl

Nodir y sail y gall y Pwyllgor roi gollyngiad arni yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (Rheoliad 2)

Y rhesymau mwyaf cyffredin y rhoddwyd gollyngiadau gan y Pwyllgor oedd:

- a) mae gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw;
- d) mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal
- f) gellir cyfiawnhau cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.



O'r 18 gollyngiad a roddwyd:

- rhoddwyd 4 i siarad yn unig
- rhoddwyd 14 i siarad a phleidleisio

O'r gollyngiadau a roddwyd:

- rhoddwyd 18 am gyfnod hyd at 12 mis
- rhoddwyd 0 am gyfnod hyd at 6 mis

Tudalen 89



Nid yw negeseuon atgoffa ynghylch adnewyddu gollyngiadau yn cael eu hanfon at yr Aelodau. Daw'r gollyngiadau i ben yn awtomatig ar ddiwedd bob tymor. Caiff unrhyw geisiadau am ymestyn yr amser eu trin fel ceisiadau newydd er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn adolygu'r angen a'r rheswm am y gollyngiad yn iawn.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau.

Gellir gweld manylion y ceisiadau yr ymdriniwyd â nhw gan y Pwyllgor fel rhan o agendâu/cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan Cyngor Sir Ceredigion:

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-safonau-a-moeseg/>
Anogir ymgeiswyr i fynychu cyfarfodydd yn bersonol.

Yn ystod 2018/19, mynychodd 2 Aelod y Pwyllgor yn bersonol.
Yn ystod 2019/20, mynychodd 2 Aelod y Pwyllgor yn bersonol.
Yn ystod 2020/21, mynychodd 4 Aelod y Pwyllgor (trwy fideo-gynadledda) (mewn perthynas â 13 cais)

2. PANEL DYFARNU CYMRU.

Dywedwyd yn y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2020 y bu nifer o ddogfennau a oedd wedi'u diweddarau, sef:

- Canllawiau Llywyddol: Anhysbysrwydd
- Canllawiau Llywyddol: Datgeliad
- Canllawiau Llywyddol: Rôl y Swyddog Monitro yn nhrefodion PDC

Nododd yr aelodau gynnwys y dogfennau hyn.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o adroddiad ar benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Neil McEvoy, Cyngor Dinas Caerdydd a hysbysodd yr Aelodau fod yr adroddiad ar gael ar wefan PDC.

3. COFLYFR COD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Faterion Coflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor:

- Coflyfrau Cod Ymddygiad Rhifyn 23 – Ionawr 2020

Ni chyhoeddwyd unrhyw rai eraill yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

4. HYFFORDDIANT

Yng nghyfarfod 05 Awst 2020, cytunwyd bod swyddogion yn trafod cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant trwy fideo-gynadledda neu hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw.

Cytunwyd yn y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2020, bod swyddogion yn trafod cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant trwy fideo-gynadledda neu hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw a bod Cynghorau Tref/Cymuned yn cael eu holi a oes ganddynt unrhyw geisiadau hyfforddi penodol mewn perthynas â'r cod a chynnal cyfarfodydd o bell.

5. RECRIWTIO AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu a Safonau yr adroddiad ar recriwtio dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020. Penodwyd y Cadeirydd presennol Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield i ddechrau ar 27/9/2011 ac fe'u hailbenodwyd ar 27/9/2017. Bydd eu priod gyfnodau yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/2021. Nid oedd yr aelodau hyn bellach yn gymwys ar gyfer eu hailbenodi. O ganlyniad, roedd angen recriwtio dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i gynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y nodir yn y Cyfansoddiad, ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell i'r Cyngor:

- 1) Y disgrifiad o'r swydd, manyleb y person a'r meini prawf yn amodol ar y diwygiadau.
- 2) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
 - Cadeirydd y Cyngor
 - Aelod Panel Annibynnol/Lleyg (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro): Yr Athro John Williams
 - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebwyd gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
 - Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru.

6. YMGYNGORIADAU LLYWODRAETH CYMRU – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig- Rhan 5

Yng nghyfarfod 19 Tachwedd 2020, dywedwyd bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft a fyddai'n sefydlu pedwar Cydbwyllgor Corfforedig rhanbarthol ledled Cymru. Gofynnwyd i

aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ystyried cwestiynau 8 (a) (b) ac (c) y ddogfen ymgynghori.

CYTUNWYD y dylai aelodau a staff Cydbwyllgor Corfforedig fod yn destun Cod Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i god Prif Gyngor a bod pob aelod cyfetholedig yn cael ei gwmpasu gan god h.y. y rheini sydd â hawliau pleidleisio a'r rheini sydd hebddynt. Bydd hyn yn rhan o'r ymateb corfforaethol i'r ymgynghoriad.

7. GWEITHDY

Cynhaliwyd gweithdy o Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 04 Mawrth 2021 i drafod y canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad. Anfonwyd argymhellion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â hynny.

8. CASGLIADAU

Cafodd y Pwyllgor flwyddyn gymharol dawel oherwydd pandemig Covid-19, ac roeddent yn ddiolchgar iawn am gyngor a chymorth y Swyddog Monitro, a Swyddogion Safonau yn ystod y ddau gyfarfod a gynhaliwyd, ac mewn perthynas â'r ymarferion ymgynghori.

6

Cod Ymddygiad – Adroddiad y Swyddog Monitro

1. Mae'n ofynnol i bob Cynghorydd Sir, Cynghorydd Tref/Cymuned ac Aelod Cyfetholedig gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr** a fabwysiadwyd gan y Cyngor sy'n cydymffurfio â gofynion gorfodol y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Dylid anfon cwynion yn ymwneud â honiad bod Cynghorydd Sir wedi torri'r Cod at yr Ombwdsmon yn uniongyrchol a/neu at Swyddog Monitro'r Cyngor
3. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar sut i wneud cwyn am aelod etholedig ar Daflen Ffeithiau.
4. Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu ar gael i Gynghorwyr ar Academi Cymru Gyfan, gan gynnwys Moeseg a Safonau (Datblygiad Cynghorwyr), a Chanllawiau ynglŷn â'r Cyfryngau Cymdeithasol.
5. Cyhoeddodd Panel Dyfarnu Cymru Ganllawiau ar Gosbau yn ystod 2019
6. Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru benderfynu y dylai'r Swyddog Monitro ymchwilio i gŵyn, neu caiff ofyn i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor wneud penderfyniad. Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys dim camau pellach, cerydd a gwaharddiad dros dro am hyd at 6 mis.
7. Os yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio i honiad o dorri'r Cod ac yn dod i'r casgliad bod hyn wedi digwydd, bydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad o'i ganfyddiadau ymlaen at y Swyddog Monitro ac at y Cynghorydd dan sylw.

8. Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod yr achos yn un difrifol, yna ceir anfon y mater ymlaen at Banel Dyfarnu Cymru sydd â'r pŵer i anghymhwysu cynghorydd am hyd at 5 mlynedd.
9. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | 2021 Gydsyniad Brenhinol yn ystod 2020/21. Mae adran 62 y Ddeddf yn nodi dyletswyddau ychwanegol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, i gynnal safonau ymddygiad, a fydd mewn grym o fis Mai 2022.

ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO

1.Cwynion a gafwyd

BLYNYDDOEDD BLAENOROL

2018/2019

Ystyriodd y Swyddog Monitro 17 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

O'r rhain:

- roedd 13 yn erbyn Cynghorwyr Sir
- roedd 4 yn erbyn Cynghorwyr Tref/ Cymuned.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd:

Cynghorwyr Sir	
Aelod ar Aelod	0
Y Cyhoedd ar Aelod	9
Swyddog ar Aelod	4
Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	0
	Cyfanswm: 13
Cynghorwyr Tref/ Cymuned	
Aelod ar Aelod	0
<u>Y Cyhoedd ar Aelod</u>	4
	Cyfanswm: 4

--	--

2019/2020

Ystyriodd y Swyddog Monitro 13 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

O'r rhain:

- roedd 11 yn erbyn Cyngorwyr Sir
- roedd 2 yn erbyn Cyngorwyr Tref/ Cymuned.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd:

Cyngorwyr Sir	Cwynion a gafwyd
Aelod ar Aelod	0
Y Cyhoedd ar Aelod	3
Swyddog ar Aelod	8
Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	0
	Cyfanswm: 11
Cyngorwyr Tref/ Cymuned	
Aelod ar Aelod	2
Y Cyhoedd ar Aelod	2
	Cyfanswm: 13

BLWYDDYN GYFREDOL: 2020/2021

Ystyriodd y Swyddog Monitro 23 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.


O'r rhain:

- roedd 17 yn erbyn Cyngorwyr Sir
- roedd 5 yn erbyn Cyngorwyr Tref/ Cymuned.

Tarddiad y cwynion:

Cyngorwyr Sir	Nifer y cwynion a gafwyd
Aelod ar Aelod	1
Y Cyhoedd ar Aelod	11
Swyddog ar Aelod	4

Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	0
Clerc y Cyngor Tref/Cymuned	1
	Cyfanswm: 17
Cynghorwyr Tref/ Cymuned	
Aelod ar Aelod	1
<u>Y Cyhoedd ar Aelod</u>	4
Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	0
Cyfanswm	
Atgyfeiriad cynghorydd gan y Swyddog Monitro	1



Dylid nodi nad yw cwynion gan Swyddogion yn erbyn Aelodau bob tro yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan y Swyddog dan sylw, gan efallai na fydd yr unigolyn hwnnw yn dymuno gwneud cynw ffurfiol. Pan gaiff y pryderon eu dwyn i sylw'r Swyddog Monitro/y Prif Weithredwr, ymdrinnir â'r achosion hynny gan y Swyddog Monitro (ac os ydyw'n briodol, gan y Prif Weithredwr) a fydd, o bosib, yn gwneud ymholiadau ac yn rhoi cyngor/cymryd camau fel y bo'n briodol.

Bydd y Swyddog Monitro yn ymchwilio yn ôl yr angen.

2. Hysbysiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Hysbyswyd y Swyddog Monitro o'r cwynion canlynol:

BLYNYDDOEDD BLAENOROL

2018/19

O'r cwynion a gafwyd:

7 x gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Arweiniodd y rhain at:

	Cyngor Sir	Cyngor Tref/ Cymuned
O'r rhain: Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol:	4 2	3 3
Rhodddwyd y gorau i'r ymchwiliad:	0 1	0 0
Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri:	1	

Dim rhagor o gamau: 0

O'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt:

- Arweiniodd 0 at gosbau ac
- Arweiniodd 0 at ddim cosbau

Roedd y cosbau a roddwyd/camau a gymerwyd yn cynnwys: rhoddwyd cyngor i un o'r aelodau y dylai newid ei ymddygiad

2019/20

Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod 6 chwyn

	Cyngor Sir	Cyngor Tref/ Cymuned
O'r rhain: Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol:	5 5	1 0
Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad: Nid oedd angen cymryd camau pellach	0 0 0	1 0 1
Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri: Torri'n dechnegol	0 1	0 0

O'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt:

- Arweiniodd 0 at gosbau ac
- Arweiniodd 0 at ddim cosbau .”

BLWYDDYN GYFREDOL 2020/21

Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod 4 chwyn

	Cyngor Sir	Cyngor Tref/ Cymuned
	2	2

O'r rhain: Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol:	2	x
Rhodddwyd y gorau i'r ymchwiliad: Nid oedd angen cymryd camau pellach	1 0 0	2 1 0
<u>Yn mynd rhagddi: Wedi'i chofnodi fel cyn-asesiad</u>	1	1
Canlyniadau: Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri Torri'r cod yn dechnegol Y cod wedi'i dorri	0 1 0	0 0

O'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt:

- Arweiniodd 0 at gosbau
- Arweiniodd 1 at ddim cosb

Er Gwybodaeth:

**Adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru 2020/21:**

E. Cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad ac sydd wedi eu cau

Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol	Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol	Rhodddwyd y gorau i'r ymchwiliad	Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri	Dim angen gweithredu	Atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau	Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Ceredigion	-	-	-	-	-	-	-	-

F. Cod Cwynion Cyngor Tref/Cymuned

Cyngor Tref/Cymuned	Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol	Rhodddwyd y gorau i'r ymchwiliad	Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri	Dim angen gweithredu	Atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau	Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
-	-	-	-	-	-	-	-	-

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hwn

3.Natur y Cwynion**2017/18-2019:**

Roedd mwyafrif y cwynion yn erbyn y Cynghorwyr Sir yn ymwneud â:

- Bwlio
- Diffyg parch/ ystyriaeth/ cwrteisi i eraill
- Diffyg didueddrwydd
- Defnydd amhriodol o bwerau dirprwyedig
- Gwrthdaro buddiannau
- Safonau Ymddygiad, gan gynnwys parcio amhriodol, oedi wrth dalu Treth y Cyngor
- Defnyddio eu sefyllfa fel cynghorwyr i sicrhau mantais
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Methu ag ymateb i ymholiad
- Gweithredu heb awdurdod
- Defnydd amhriodol o bŵer dirprwyedig
- Methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu

- Safonau Ymddygiad e.e. parcio amhriodol, sylwadau mewn cyfarfodydd a chyfathrebu amhriodol
- Ceisio amharu ar ddiueddrwydd y swyddogion
- Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cyngorwyr e.e. cwynion ynglŷn â'r swyddogion a'r gwasanaethau.
- Penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Cyngorwyr Tref/Cymuned

Roedd y cwynion yn cynnwys:

- canfyddiad o ddiffyg tryloywder yng nghyfarfodydd y Cyngor,
- gweithdrefnau amhriodol o ran y cyfarfodydd e.e. pleidleisio, cworwm, methu â chofnodi penderfyniadau mewn modd digonol, methu â chyhoeddi cofnodion a chofrestr buddiannau
- methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu
- gwahaniaethu

Roedd modd priodoli rhai o'r cwynion uchod i weithredoedd/diffygion y clercod.

2019/20

Roedd mwyafrif y cwynion yn erbyn Cyngorwyr Sir yn ymwneud â honiadau o:

- Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cyngorwyr
- Methu â datgelu buddiant
- Defnydd amhriodol o bwerau dirprwyedig
- Diffyg parch/ ystyriaeth/ cwrteisi i swyddogion – gan gynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu/Craffu
- Diffyg parch at Gadeirydd cyfarfod cyhoeddus-Pwyllgor Craffu
- sylw amhriodol ynglŷn â'r Swyddogion

2020/21

- Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cyngorwyr
- Ymddygiad amhriodol
- Diffyg parch/ystyriaeth/agwedd
- Penderfyniad cynllunio
- rhegi
- Rhoi enw drwg i'r Cyngor
- Diwylliant gwael

- Methu â datgelu buddiant
- Niwsans/aflonyddu
- Ymosodiad corfforol
- methu â datgelu buddiannau sy'n rhagfarnu
- datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- methu â gweithredu

Cynghorwyr Tref/Cymuned

Roedd cwynion yn erbyn Cynghorwyr Tref/Cymuned yn cynnwys:

- canfyddiad o ddiffyg tryloywder yng nghyfarfodydd y Cyngor,
- gweithdrefnau amhriodol o ran y cyfarfodydd e.e. pleidleisio, cworwm, methu â chofnodi penderfyniadau mewn modd digonol, methu â chyhoeddi cofnodion a chofrestr buddiannau
- methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu
- Gwahaniaethu-rhagfarn ar sail rhyw, rhagfarn ar sail oedran
- Euogfarn droseddol
- Methu â hunan-adrodd honiadau/euogfarnau troseddol
- Diwylliant gwael
- rhegi
- Diffyg parch/ystyriaeth/agwedd
- Ymddygiad bygythiol

Roedd modd priodoli rhai o'r cwynion uchod i weithredoedd/diffygion y clerod.

4. Cyngor y Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro yn rhoi cyngor anffurfiol ar lafar yn rheolaidd, neu'n ysgrifenedig i Gynghorwyr Sir ar amrywiol faterion yn y Cod ymddygiad gan gynnwys buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu. Rhoddir y cyngor hwn ar lafar, neu'n ysgrifenedig.

Gall cyngor fod yn fesur ataliol, neu wrth ragweld toriad posib o'r Cod Ymddygiad, neu yn dilyn toriad o'r Cod Ymddygiad wrth ystyried lliniaru. Weithiau gellir rhoi cyngor i Gynghorwyr Tref/Cymuned Cynghorwyr Tref/Cymuned Disgwyllir y bydd Cynghorwyr Tref/Cymuned yn ymgynghori â'u clerc yn y lle cyntaf.

Mae'r ymholiadau yn cynnwys cyngor ynglŷn â'r canlynol:

- Proses/gweithdrefn cyfarfod
- gwrthdaro buddiannau
- torri'r Cod Ymddygiad
- proses i wneud cwyn

Mae'r mwyafrif o Gyngorau Tref/Cymuned yn ardal Ceredigion wedi ymaelodi ag Un Llais Cymru y gall clercod ofyn am gyngor ganddynt.

2018-19

Rhoddodd y Swyddog Monitro:

Cyngorwyr Sir

cyngor anffurfiol- niferus/amrywiol. .

- cyngor ffurfiol : 5
- rhybuddion anffurfiol: 0
- rhybuddion ffurfiol (e-bost/llythyr): 1

Cyngorau Tref/Cymuned

- Cyngor anffurfiol y Swyddog Monitro a roddwyd i glercod:
- anffurfiol 5
- ffurfiol 0
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau o'r cyhoedd: 1
- Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb â chlerc Tref/cymuned: 1
- Proses/gweithdrefn cyfarfod
- gwrthdaro buddiannau

2019-20

Rhoddodd y Swyddog Monitro:

Cyngorwyr Sir

- cyngor anffurfiol- niferus/amrywiol.
- cyngor ffurfiol : 3
- rhybuddion anffurfiol: 2
- rhybuddion ffurfiol (e-bost/llythyr): 1

Mae rhai materion a ystyriwyd gan y swyddog Monitro yn ymwneud â chyngor rhagataliol gan y swyddog Monitro mewn perthynas â datgelu buddiannau:
X 6.

Roedd y cosbau'n cynnwys:

- ymddiheuriad aelod yn ysgrifenedig i'r swyddog neu'r aelod
- ymddiheuriad aelod i'r swyddog neu'r aelod mewn cyfarfod cyhoeddus

Cynghorau Tref/Cymuned

Ceir hefyd rhoi cyngor i glercod i Gynghorau Tref/cymuned, dros y ffôn, e-bost neu wyneb yn wyneb. Mae'r mwyafrif o Gynghorau Tref/Cymuned yn ardal Ceredigion wedi ymaelodi ag Un Llais Cymru

Cyngor anffurfiol y Swyddog Monitro a roddwyd i glercod:

- Anffurfiol (ffôn/e-bost): 2
- cyfarfodydd ag aelodau o'r cyhoedd: 0

Mae'r ymholiadau yn cynnwys cyngor ynglŷn â'r canlynol:

- Proses/gweithdrefn cyfarfod cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- ymddygiad cynghorydd

2020-21

- cyngor anffurfiol- niferus/amrywiol.
Mae rhai materion a ystyriwyd gan y swyddog Monitro yn ymwneud â chyngor rhagataliol gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â datgelu buddiannau
- cyngor ffurfiol : 4
- rhybuddion anffurfiol: 1
- rhybuddion ffurfiol (e-bost/llythyr): 1
- Gweithdrefn Penderfynu Lleol: 1

Rhoddyd cyngor hefyd i glercod Cynghorau Tref/Cymuned, ac aelodau'r cyhoedd.

5. Y Pwyllgor Moeseg a Safonau -Paneli Gwrandawiadau

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chynghorydd Cyngor Sir Ceredigion at y Pwyllgor yn ystod 2020/21.
- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â'r Cynghorau Tref/Cymuned at y Pwyllgor yn ystod 2020/21.

6. Panel Dyfarnu Cymru

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod 2020/21.

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chynghorau Tref/Cymuned Ceredigion at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod 2020/21.

7. Atgyfeiriadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Swyddog Monitro i ymchwilio iddynt yn ystod 2020/21

Ni atgyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'r un achos at y Swyddog Monitro yn ystod 2020/21.

2020/21

Crynodeb

- Mae safon ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i'w ganmol yn gyffredinol.
- Cafwyd cwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau.
- Er bod bwlio, bygythiadau a/neu ddiffyg parch/cwrteisi yn parhau'n broblem, mae'r berthynas rhwng Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a'r Aelodau wedi gwella, a bu llai o achosion o fwlio, bygythiadau a/neu ddiffyg parch/cwrteisi nag o'r blaen.
- Mae'r Cynghorwyr gan fwyaf yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau gan wneud hynny mewn modd amserol a phriodol. Gofynnir am gyngor oddi wrth y Swyddog Monitro ar yr adegau priodol.
- Mae'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel fforwm i Gyngorwyr wneud sylwadau/mynegi barn yn parhau i gynyddu. Mae hyn ar rai achlysuron wedi rhoi enw drwg i'r Cyngor.
- Mae'r Swyddog Monitro yn parhau i argymhell bod yr holl Aelodau yn cael hyfforddiant gloywi ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â diogelu data (gan gynnwys cyfrifoldeb y Cynghorwyr fel rheolwyr data).
- Er gwaethaf y ffaith bod llai o gyfarfodydd cyhoeddus wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod Covid, bu cynnydd bach yn nifer y ceisiadau am ollyngiadau yn ystod 2020/21.
- Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nododd y Swyddog Monitro y byddai rhai o'r Cynghorwyr Sir yn elwa o hyfforddiant gloywi /hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â diogelu
- Mae angen i'r Aelodau fod yn fwy ymwybodol o'r angen i:
 - ystyried a oes ganddynt fuddiant, a
 - datgelu buddiannau wrth gyfathrebu/gohebu â swyddogion.

8. Gohebiaeth gydag Arweinwyr y Grwpiau

- Cylchredwyd ymgynghoriad ar y canllawiau drafft newydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad i Arweinwyr y Grwpiau; ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau trwy e-bost ar 19 Chwefror 2021. Gofynnwyd am sylwadau ar ei gynnwys erbyn 05 Mawrth 2021.
- Cylchredwyd Hysbysiad o Benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru yn ymwneud â'r Cynghorydd Kevin O'Neill, Arweinydd yng Nghyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful trwy e-bost ar 12 Ionawr 2021. Er mwyn hyrwyddo'r ddyletswydd newydd i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal ymddygiad o safon uchel (o Fai 2022), argymhellwyd bod Arweinwyr y Grwpiau yn dwyn y penderfyniad i sylw aelodau eu grŵp.

9. Diweddariad blynyddol ar y Gofrestr Buddiannau

Cylchredwyd e-bost dyddiedig 29 Ebrill 2020 gan y Swyddog Monitro at yr Aelodau yn gofyn iddynt gynnal adolygiad blynyddol o'u Llyfryn Cofrestr Buddiannau, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly gofynnwyd i'r aelodau adolygu fersiwn ar-lein eu Cofrestr Buddiannau am y flwyddyn gyfan 2019/20 (1/4/19-31/3/20):

- Os nad oedd dim buddiannau/newidiadau newydd, e-bostiodd yr Aelodau i gadarnhau "Dim newidiadau."
- Os oedd diddordebau/newidiadau newydd, e-bostiodd yr Aelodau i gadarnhau bod newidiadau, a rhoi manylion y newidiadau hyn.

Ail-lofnodwyd ac ail-ddyddiwyd y llyfrynnau gwreiddiol ac adolygwyd pob ateb, a llyfryn gan y Swyddog Monitro

Arolygir y trefniadau hyn yn rheolaidd gan archwilwyr.

10. Covid 19 – Grantiau busnes

Gofynnwyd i bob Cynghorydd, a/neu aelod annibynnol cyfetholedig, wneud datganiad os oeddent hwy, neu unrhyw un sy'n ymwneud â rhedeg a/neu reoli busnes yn gyffredinol, (neu rywun sy'n bartner personol agos iddynt), hyd eithaf eu gwybodaeth, wedi gwneud cais am Grant Cymorth i Fusnesau, Grantiau Cyfnod Clo Uwch ar gyfer busnesau neu Gronfa Busnes Cyfyngiadau Grant Trethi Annomestig ar gyfer busnesau. Gofynnwyd am bob datganiad erbyn dyddiad cau'r ceisiadau.

Cylchredwyd yr e-byst canlynol i'r Aelodau:-

- Grant cymorth i fusnesau Covid 19- 07 Gorffennaf 2020
- Grantiau Uwch Cyfnod Clo Covid 19 i fusnesau - 28 Hydref 2020
- Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid 19 Grantiau Trethi Annomestig ar gyfer busnesau – 14 Rhagfyr 2020

11. Cofrestr Lletygarwch

Yn ystod 2020/21 ni chafwyd dim datganiadau lletygarwch gan Gynghorwyr.

7

Blaenoriaethau'r Dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn eu hystyried yn 2021/22

- Hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned - Parhau i gynnig hyfforddiant i gystyrau o Gyngorau Tref a Chymuned nad oedd eu Clercod a'u Cynghorwyr wedi ymateb i'r cynnig o hyfforddiant a/neu a oedd wedi gofyn am hyfforddiant
- Cyfarfod Blynyddol gydag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol
- Diweddarau Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ar y System Gwasanaethau Democrataidd newydd, Modern.gov
- Bod y Pwyllgor yn mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol o ran cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill yn y maes safonau gan ddysgu am yr arferion gorau
- Bod Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor i ddod yn gyfarwydd â'r trafodion a'r ymddygiad ac arsylwi arnynt.
- Recriwtio dau aelod annibynnol-i fod yn eu lle erbyn 25/9/21
- Ystyried a gweithredu newidiadau a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 -materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau:
Rhan 4 adrannau Adran 62 Roedd ymddygiad aelodau yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol fel a ganlyn:

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol: dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad

(1) Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru—

(a) gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau'r grŵp hwnnw, a

(b) chydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor (ac unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw), o ran arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

(2) Wrth gydymffurfio ag isadran (1), rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol roi sylw i unrhyw ganllawiau ynghylch y swyddogaethau o dan yr isadran honno a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

(3) "(2A) Mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—

(a) monitro i ba raddau mae arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a

(b) chynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny."

Daw'r darpariaethau hyn i rym o fis Mai 2022.

8

Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau / Cysylltu â ni

Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld Aelodau'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cynhelir yr holl fusnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod <http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/>

Cysylltwch â ni

Os hoffech chi wybod mwy am y Pwyllgor Moeseg a Safonau neu wneud sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â ni:

Moeseg a Safonau
Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, SA46 0PA

01545 570881
moesegasafonau@ceredigion.gov.uk

Swyddog Monitro'r Cyngor:

Swyddog Monitro
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
01545 570881

E-bost: SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk
<<mailto:MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk>>

Yr Ombwdsmon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 (pris galwad leol)
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol